# Cynnig i gau Ysgol y Fro

## Adroddiad Ymgynghori



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# CYNNWYS


1. CRYNODEB GWEITHREDOL .......... 1
2. CEFNDIR .......... 1
3. Y BROSES YMGYNGHORI .......... 2
4. DADANSODDI'R YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD .......... 2
5. Y SYLWADAU A DDAETH I LAW .......... 3
6. CRYNODEB O'R SYLWADAU DDAETH I LAW AC YMATEBION YR AWDURDOD LLEOL .......... 4
7. CANFYDDIADAU'R YMGYNGHORI Â'R DISGYBLION AC YMATEBION YR AWDURDOD LLEOL .......... 32
8. YMATEB ESTYN .......... 37
9. OPSIYNAU ERAILL .......... 39
10. AILASESIAD AR ÔL YR YMGYNGHORIAD MEWN PERTHYNAS Â STATWS YSGOL WLEDIG .......... 41
11. NEWIDIADAU SY'N DEILLIO O'R YMGYNGHORI .......... 42
12. CASGLIAD .......... 42
13. ARGYMHELLIAD .......... 42
14. Y CAMAU NESAF .......... 43
15. ATODIAD A – YMATEB ESTYN .......... 44
16. ATODIAD B – DADANSODDIAD SWOT O'R OPSIYNAU ERAILL A YSTYRIWYD .......... 48
17. ATODIAD C – ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMUNED .......... 54
18. ATODIAD D – ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG .......... 61

## 1. CRYNODEB GWEITHREDOL

Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ynglŷn â'r cynnig i gau Ysgol y Fro. Yn gyffredinol, y duedd oedd gwrthwynebu'r cynnig, gyda lleiafrif yn cefnogi'r cynnig a chyfran sylweddol yn cynnig dewisiadau eraill. Roedd y prif bryderon yn ymwneud ag effaith ar y gymuned, bywiogrwydd y Gymraeg yn y pentref, safonau addysgol/llesiant, teithio, mynediad at ofal cofleidiol, capasiti yn yr ysgol dderbyn arfaethedig, yr achos ariannol, a digonolrwydd gweithdrefnol.

## 2. CEFNDIR

Datblygwyd papur cynnig yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), gan amlinellu'r prif heriau oedd yn wynebu Ysgol y Fro, gan gynnwys:

- Nifer isel o ddisgyblion
- Nifer fawr o ddisgyblion yn y dalgylch yn mynychu ysgolion eraill
- Nifer uchel o leoedd gwag
- Amcanestyniadau disgyblion yn dangos mai bach yw'r tebygolrwydd o dwf sylweddol yn y niferoedd ar y gofrestr dros y blynyddoedd nesaf
- Diffyg o ran y gyllideb, gan ragweld gwaethygiad cyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol
- Adeilad ysgol gyda sgôr addasrwydd gwael

Cafodd y papur cynnig ei ystyried gan y Cabinet ar 17 Tachwedd 2025, lle penderfynodd y Cabinet fwrw ymlaen â'r ymgynghoriad ffurfiol ar y cynnig canlynol:

- **Cau Ysgol y Fro ar 31 Rhagfyr 2026, gyda'r holl ddisgyblion yn symud i Ysgol y Dderwen o 1 Ionawr 2027.**

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r adborth a gasglwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori o 16 Ionawr i 2 Mawrth 2026. Mae'r adroddiad yn nodi'r broses ymgynghori, yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd ac yn dadansoddi'r materion allweddol a gyflwynwyd gan randdeiliaid.

## 3. Y BROSES YMGYNGHORI

Dilynodd y broses ymgynghori ganllawiau Llywodraeth Cymru, yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 (Adran 3). Rhoddodd y broses ymgynghori gyfle i ymgyngoreion rhagnodedig ddysgu am y cynnig a rhoi adborth.

Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori yn Gymraeg a Saesneg ar 16 Ionawr 2026 ac roedd ar agor am 46 diwrnod tan 2 Mawrth 2026. Cafodd y ddogfen ymgynghori ei dosbarthu'n electronig i ymgyngoreion rhagnodedig a'i chyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Roedd copïau papur o'r ddogfen ymgynghori ar gael ar gais. Roedd y ddogfen ymgynghori yn amlinellu'r cynnig dan sylw, y rhesymau dros y cynnig a manylion yr ymarfer ymgynghori. Roedd y ddogfen ymgynghori hefyd yn cynnwys ffurflen ymateb unigol. Rhoddwyd gwybod i'r ymgyngoreion fod modd llenwi fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r ffurflen ar-lein a ble y dylid anfon llythyrau ysgrifenedig neu ymatebion drwy e-bost.

Ymgynghorwyd â disgyblion Ysgol y Fro ar 23 Chwefror, pryd cyflwynodd aelodau'r Cyngor Ysgol eu sylwadau ar ffurflen ymateb ar-lein. Ymgynghorwyd â'r ysgol dderbyn arfaethedig, sef Ysgol y Dderwen, mewn sesiwn bwrpasol gydag aelodau o'r Cyngor Ysgol ar 27 Chwefror 2026. Rhoddwyd cyfle hefyd i ddisgyblion Ysgol y Fro gyflwyno ymatebion unigol drwy arolwg penodedig ar-lein.

## 4. DADANSODDI'R YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD

Mae'r ymatebion a ddaeth i law rhwng 16 Ionawr a 2 Mawrth wedi'u hamlinellu isod:

| Arolwg ar-lein | E-bost | Llythyr | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 71* | 8 | 0 | 79 |

* *Y ffigur o 71 yw'r ymatebion (wedi'u gwirio) i'r arolwg ar-lein gan oedolion a gafodd eu cyfrif yn y cyfansymiau ymgynghori ffurfiol. Casglwyd ymatebion disgyblion trwy broses ymgysylltu ar wahân ac maent yn cael eu hadrodd ar wahân yn Adran 7 o'r adroddiad hwn.*

Derbyniwyd cyfanswm o 74 o ymatebion ar-lein i'r prif arolwg snap yn ystod y cyfnod ymgynghori. Nodwyd bod un ymateb a gyflwynwyd drwy'r arolwg ar-lein yn ddyblygiad o ymateb gafwyd trwy e-bost gan yr un sefydliad. O ganlyniad, fe'u cofnodwyd fel un ymateb a ddaeth i law trwy e-bost.  Daeth dau sylw i law'r Awdurdod Lleol ar ôl y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad, ar 3 Mawrth 2026. Er na chafodd y sylwadau hyn eu cyfrif yng nghyfanswm yr ymatebion i'r ymgynghoriad ffurfiol, mae eu pwyntiau wedi'u hystyried yn ansoddol ac wedi'u hadlewyrchu yn y dadansoddiad thematig lle bo'n berthnasol. Mae'r ffigurau ar gyfer ymatebion i'r arolwg ar-lein wedi'u newid i 71 o ganlyniad*. Yn dilyn adolygiad o'r atebion i'r cwestiwn, "Ydych chi'n cefnogi'r cynnig?" cafodd sawl ymateb eu hailddosbarthu i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'n gywir gynnwys y sylwadau cysylltiedig.

O'r ymatebion terfynol a wiriwyd i'r arolwg, roedd 65 yn gwrthwynebu'r cynnig, 5 yn cefnogi'r cynnig ac 1 yn niwtral. Cafwyd wyth e-bost, ac roeddent i gyd yn gwrthwynebu'r cynnig.

Yn ogystal â'r uchod, rhoddodd Estyn ymateb i'r ymgynghoriad a chasglwyd adborth gan y disgyblion drwy sesiynau â'r ysgolion fel y disgrifir yn Adran 3.

## 5. Y SYLWADAU A DDAETH I LAW

Bydd yr adran hon yn crynhoi'r ymatebion / sylwadau a ddaeth i law a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig, gan dynnu sylw at y themâu sydd wedi dod i'r amlwg ac ymatebion yr Awdurdod Lleol.

### Dadansoddiad Thematig o'r Adborth

O'r ymatebion a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, daeth y themâu canlynol i'r amlwg:

- Effaith ar y Gymuned
- Effaith ar yr Iaith Gymraeg
- Effaith ar y Cylch Meithrin
- Pryderon ynghylch Cludiant / yr Amgylchedd
- Llesiant disgyblion, staff a phryderon am effeithiau ar ddisgyblion ADY
- Problemau y broses ymgynghori
- Problemau dehongli Estyn
- Problemau ariannol

- Addasrwydd yr ysgol dderbyn
- Pryderon am y dyddiad trosglwyddo
- Cefnogaeth dros y cau
- Effaith ar deuluoedd, rhieni, gwarcheidwaid
- Barn am ysgolion bach a'r profiad addysgol

## 6. CRYNODEB O'R SYLWADAU DDAETH I LAW AC YMATEBION YR AWDURDOD LLEOL

Mae'r tabl canlynol yn nodi themâu'r sylwadau ddaeth i law. Mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried yn gydwybodol yr holl sylwadau ddaeth i law yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, ac yn ymateb i'r themâu a godwyd. Mae'r cyfrifiad ar gyfer pob thema yn adlewyrchu nifer yr ymatebion penodol sy'n crybwyll y thema honno:

| **Pennawd Thematig:** Effaith ar y Gymuned | **Nifer yr Ymatebion**<br>**Canran** | **56**<br>**70.89%** |
|---|---|---|
| **Crynodeb o'r Ymatebion:** Mynegwyd pryderon sylweddol gan ymatebwyr ynghylch effaith bosibl y cynnig ar gymuned Llangyndeyrn. Disgrifiwyd yr ysgol yn aml fel calon y pentref, a thynnwyd sylw at ei rôl yn cefnogi cydlyniant cymdeithasol, cyswllt rhwng cenedlaethau, ac ymdeimlad o hunaniaeth leol. Nodwyd y cysylltiadau cryf ag ystod o sefydliadau a grwpiau lleol, gan gynnwys yr Eglwys, Cymdeithas Les y Pentref (yn cynnwys llain dyfu gymunedol), ffermydd lleol, cynhyrchwyr mêl, a'r clwb bowlio. Mynegwyd pryderon hefyd am y posibilrwydd o golli rhyngweithio cymdeithasol rheolaidd, mwy o ynysu ymhlith trigolion hŷn, llai o weithgareddau codi arian, a bod yr ardal yn mynd i fod yn llai deniadol i deuluoedd â phlant bach. Tynnwyd sylw pellach gan yr ymatebwyr at y posibilrwydd o golli digwyddiadau cymdeithasol lleol, treftadaeth a chyfleoedd i hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. Roedd y sylwadau a gefnogai'r cynigion yn dweud, er bod ysgolion yn cyfrannu at hunaniaeth y gymuned, nid cynnal y gymuned yw eu prif ddiben, ond darparu addysg o safon. Awgrymodd un ymatebydd fod caniatâd cynllunio wedi'i roi yn Llangyndeyrn ar gyfer tai newydd, gan sôn am yr effaith ar unrhyw deuluoedd newydd fyddai'n symud i'r ardal pan fyddai'r tai hyn wedi eu cwblhau. | | |

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod cryfder y teimlad a rhan ystyrlon Ysgol y Fro yn y gymuned leol. Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) a'r ystyriaethau ychwanegol sy'n berthnasol i ysgolion gwledig, mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned wedi'i gynnal, a bydd yn cael ei ddiweddaru, lle bo angen, i adlewyrchu'r adborth i'r ymgynghoriad.

Caniateir i ysgolion gefnogi gweithgareddau cymunedol, ac fe'u hanogir i wneud hynny. Mae'n ofynnol i gyrff llywodraethu, o dan Reoliadau Rheoli Mangreoedd Ysgol (Cymru) 2008, ystyried pa mor ddymunol fyddai trefnu bod safle'r ysgol ar gael at ddefnydd cymunedol. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol yn statudol i ysgolion fod yn brif ysgogydd cynaliadwyedd neu ddatblygiad cymunedol. Er y gall ysgolion wneud cyfraniad pwysig i fywyd cymunedol, eu prif bwrpas statudol o hyd yw darparu addysg a chyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru, ochr yn ochr â dyletswyddau ehangach sy'n ymwneud â diogelu, cynhwysiant, llywodraethu a llesiant dysgwyr.

Felly, rhaid i'r Awdurdod Lleol ystyried effeithiau cymunedol ochr yn ochr â'i gyfrifoldebau statudol ehangach i sicrhau darpariaeth addysg gynaliadwy o ansawdd da, sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau cyhoeddus, a darparu addysg cyfrwng Cymraeg yn unol â'r polisi cenedlaethol a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Roedd y sylwadau a gefnogai'r cynnig yn nodi, er bod ysgolion yn cyfrannu at hunaniaeth gymunedol, mai eu swyddogaeth graidd yw darparu addysg yn hytrach na chynnal cymunedau.

Mewn perthynas ag Ysgol y Fro yn benodol, mae'r ddogfennaeth ymgynghori a'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn cydnabod cysylltiadau sefydledig yr ysgol â sefydliadau lleol a bod y Cylch Meithrin yn yr un lleoliad.  Os caiff y cynnig ei weithredu, cydnabyddir y byddai'n effeithio ar y trefniadau hyn a byddai angen ystyried darpariaeth arall. Gall asedau cymunedol presennol yn y pentref, gan gynnwys yr Eglwys a lleoliadau eraill, barhau i ddarparu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau cymunedol ac ymgysylltu.

Os bydd y cynigion yn cael eu gweithredu ac nad oes angen adeilad yr ysgol mwyach o ran gofynion addysgol yr Awdurdod Lleol, ymagwedd gyffredinol y Cyngor yw ystyried yn gyntaf a oes angen y safle at unrhyw ddiben corfforaethol mewnol arall. Pan nad oes unrhyw ofynion o'r fath yn cael eu nodi, mewn rhai amgylchiadau gallai fod yn briodol ystyried y potensial i'r gymuned barhau i ddefnyddio'r adeilad. Gallai hyn gynnwys defnydd gan sefydliadau gwirfoddol neu elusennol neu fentrau cymdeithasol, yn amodol ar angen lleol clir gyda thystiolaeth.

Byddai unrhyw ddefnydd o'r fath yn cael ei ystyried ar wahân i'r cynnig trefniadaeth ysgolion, a byddai'n rhaid cadw at drefniadau llywodraethu a rheoli asedau y Cyngor. Lle bo hynny'n briodol, byddai angen cynllun busnes i ddangos hyfywedd, fforddiadwyedd, a chynaliadwyedd hirdymor unrhyw ddefnydd arall, gan gynnwys sut gallai gyfrannu at wydnwch cymdeithasol neu economaidd y gymuned wledig. Nid oes unrhyw benderfyniad wedi'i wneud ar hyn o bryd ynglŷn â'r defnydd o'r safle yn y dyfodol.

Mynegwyd pryderon hefyd am effaith bosibl y cynnig ar y Gymraeg yn y gymuned. Mae Ysgol y Fro a'r ysgol dderbyn arfaethedig, Ysgol y Dderwen, yn ysgolion cyfrwng Cymraeg sydd yn yr un categori iaith, ac nid yw'r cynnig yn lleihau mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg. Gall cyfuno'r ddarpariaeth gefnogi staffio mwy sefydlog, cyfleoedd cwricwlaidd ac allgyrsiol ehangach, a rhagor o ryngweithio â chyfoedion drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd disgyblion yn parhau i ddysgu am eu hardal leol, eu diwylliant a'u hunaniaeth drwy'r Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys dysgu sydd wedi'i wreiddio mewn cyd-destun lleol.

Cydnabyddir hefyd nad yw bywyd cymunedol a'r defnydd o'r Gymraeg yn dibynnu ar safle'r ysgol yn unig. Mae cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu parhaus yn bod trwy deuluoedd, sefydliadau cymunedol a grwpiau lleol, gan gynnwys y rhai a nodwyd gan ymgyngoreion. Er y byddai cau'r ysgol yn newid sylweddol i'r pentref, nid yw'r Awdurdod Lleol o'r farn y byddai hynny, ar ben ei hun, yn atal gweithgarwch cymunedol na'r defnydd o'r Gymraeg rhag parhau yn Llangyndeyrn.

Mynegodd ymatebydd bryderon hefyd ynghylch datblygiad tai posibl yn y dalgylch yn y dyfodol, a'r effaith y gallai cau'r ysgol ei chael ar deuluoedd sy'n symud i'r gymuned. Mae'r Awdurdod Lleol wedi adolygu'r sefyllfa gynllunio bresennol, gan nodi bod dwy annedd â chaniatâd cynllunio yn y dalgylch. Yn ogystal, rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol yn flaenorol i safle am naw annedd, ond mae hwnnw wedi dod i ben. Mae lle ar y safle i hyd at ddeuddeg annedd. Er bod yr Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd ystyried datblygiadau'r dyfodol, cymedrol ac ansicr yw'r cynnydd posibl yn nifer y tai, ac nid oes arwydd o gynnydd yn y boblogaeth i'r fath raddau fyddai'n newid yn sylweddol hyfywedd yr ysgol yn y tymor hir.

Awgrymodd rhai ymatebwyr hefyd fod amcanestyniadau disgyblion yn dangos cynnydd posibl yn y niferoedd yn y dyfodol, a dylid cadw'r ysgol o ganlyniad. Mae'r Awdurdod Lleol wedi adolygu'n ofalus y data amcanestyniadau disgyblion, gan gynnwys gwybodaeth am enedigaethau gan yr Awdurdod Lleol ar gyfer dalgylch Ysgol y Fro, fel rhan o'r cynnig a'r ailasesiad ar ôl ymgynghori. Er bod amcanestyniadau yn defnyddio gwybodaeth hysbys fel niferoedd disgyblion yn y gorffennol, maent yn ansicr mewn dalgylchoedd gwledig bach iawn, lle gall mân newidiadau yn y

| | | | |
|---|---|---|---|
| rhifau arwain at amrywiad canrannol sylweddol. Mae data genedigaethau'r Awdurdod Lleol yn dangos nad yw genedigaethau a gofnodwyd bob amser yn gyfystyr â niferoedd ar gofrestr yr ysgol. Er enghraifft, er cofnodi bod saith o blant wedi'u geni yng nghodau post y dalgylch yn 2019 (sy'n cyfateb i ddisgyblion oedran derbyn, neu flwyddyn gyntaf oedran ysgol statudol, yn 2024), dim ond pump disgybl oedd ar y gofrestr yn y grŵp blwyddyn yn Ysgol y Fro. Mewn carfanau dilynol, nid yw genedigaethau yn y dalgylch wedi arwain at unrhyw ddisgyblion yn cofrestru yn yr ysgol. Mae'r patrwm hwn yn adlewyrchu dewis rhieni a'r arfer o symud plant y dalgylch i ysgolion eraill.<br><br>O'u hystyried ochr yn ochr â'r twf cymedrol ac ansicr o ran tai a niferoedd presennol sy'n mynychu ysgolion y tu allan i'r dalgylch, nid yw'r amcanestyniadau yn dangos cynnydd realistig neu barhaus yn nifer y disgyblion a fyddai'n ddigonol i fynd i'r afael â chynaliadwyedd addysgol, ariannol a sefydliadol yr ysgol yn y tymor hir. Felly er ei fod wedi ei ystyried, mae'r Awdurdod yn fodlon nad yw'r cynnydd a ragwelir yn newid yn sylweddol yr asesiad o hyfywedd yr ysgol, na'r casgliadau cyffredinol y daethpwyd iddynt.<br><br>Ar ôl ystyried y materion a godwyd o dan y thema effaith gymunedol, mae'r Awdurdod Lleol yn fodlon bod yr effeithiau hyn wedi'u nodi, eu cydnabod a'u hystyried yn briodol fel rhan o'r broses benderfynu gyffredinol, yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). | | | |
| **Pennawd Thematig:** Yr Effaith ar yr Iaith Gymraeg | | **Nifer yr Ymatebion**<br><br>**Canran** | **51**<br><br>**64.56%** |
| **Crynodeb o'r Ymatebion:** Rhoddodd yr ymatebwyr bwyslais cryf ar rôl Ysgol y Fro fel canolfan i'r iaith Gymraeg yn Llangyndeyrn. Tynnodd yr ymgyngoreion sylw at statws Siarter Iaith Aur yr ysgol, y defnydd dyddiol o'r Gymraeg fel iaith rhyngweithio cymdeithasol a chwarae, a phwysigrwydd y Cylch Meithrin ar y safle o ran darparu llwybr cyfrwng Cymraeg di-dor i blant rhwng 2 ac 11 oed. Mynegwyd pryderon y byddai cau'r ysgol yn lleihau'r defnydd o'r Gymraeg yn y pentref, yn gwanhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol fyw, ac yn cynyddu'r risg bod rhieni yn dewis ysgolion cyfrwng Saesneg neu ysgolion deuol yn hytrach na'r ysgol dderbyn arfaethedig. Mynegodd rhai ymatebwyr bryder hefyd na allai'r amgylchedd ieithyddol mewn ysgolion mwy o faint mewn trefi ail-greu'r diwylliant Cymraeg cryf a fodolai ar hyn o bryd yn Ysgol y Fro, yn enwedig mewn lleoliadau anffurfiol fel y maes chwarae. | | | |
| | | | |

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod cryfder a chysondeb y farn a fynegwyd ynglŷn â phwysigrwydd Ysgol y Fro fel ysgol cyfrwng Cymraeg a chanolfan i'r iaith yng nghymuned Llangyndeyrn. Mae'r ymgyngoreion wedi mynegi'n glir rôl yr ysgol o ran cefnogi'r defnydd dyddiol, naturiol o'r Gymraeg, gan gynnwys drwy ryngweithio cymdeithasol anffurfiol, ei statws Siarter Iaith Aur, a'i pherthynas agos â'r Cylch Meithrin ar y safle. Gyda'i gilydd maent yn darparu llwybr cyfrwng Cymraeg gwerthfawr i blant a theuluoedd.

Wrth ystyried y materion hyn, mae'r Awdurdod wedi rhoi sylw llawn i ofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), sy'n gosod disgwyliad clir ar awdurdodau lleol i asesu effeithiau tebygol cynigion ar y Gymraeg, gan gynnwys effeithiau ar gymunedau lle mae'n bosibl bod gan ysgolion rôl gymdeithasol a diwylliannol ehangach. Felly, cydnabyddir cyfraniad Ysgol y Fro at y defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol a'r gymuned ehangach fel ystyriaeth berthnasol wrth asesu'r cynnig.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gall ysgolion cyfrwng Cymraeg chwarae rhan bwysig wrth atgyfnerthu'r Gymraeg fel iaith gymunedol fyw, ac wrth normaleiddio ei defnyddio o ddydd i ddydd y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae hyn yn cynnwys y diwylliant ieithyddol anffurfiol sy'n cael ei greu trwy ryngweithio cymdeithasol - yn y maes chwarae ac mewn lleoliadau allgyrsiol er enghraifft. Mae'r ffactorau hyn wedi'u hystyried yn ofalus fel rhan o'r asesiad. Ar yr un pryd, mae'n ofynnol i'r Awdurdod ystyried cynigion mewn cyd-destun strategol a statudol ehangach, gan gynnwys cynaliadwyedd, gwydnwch, a hygyrchedd hirdymor y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr presennol a dysgwyr y dyfodol yn yr ardal.

Mae polisi cenedlaethol, gan gynnwys Cymraeg 2050 a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin 2022–2032, yn canolbwyntio ar sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg nid yn unig yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr gan gymunedau ond hefyd yn hyfyw, yn wydn, ac yn gallu cyflawni canlyniadau ieithyddol cryf dros amser. Yn y cyd-destun hwn, rhaid i'r Awdurdod ystyried ai dibynnu ar un safle ysgol yw'r ffordd orau o gefnogi'r amcanion tymor hwy ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, ynteu rhwydwaith o ddarpariaeth ehangach sydd wedi'i gynllunio'n strategol, gan gydnabod yr ymlyniad cymunedol clir ag Ysgol y Fro.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gyfrannu at “Gymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu” a chymhwyso egwyddorion meddwl yn y tymor hir ac atal wrth wneud penderfyniadau. Yn unol â'r dyletswyddau hyn, mae'r Awdurdod wedi ystyried nid yn unig yr effeithiau uniongyrchol a nodwyd gan ymgyngoreion, ond hefyd a fydd dysgwyr yn parhau i elwa ar addysg cyfrwng

Cymraeg o ansawdd da, a chanlyniadau ieithyddol cryf mewn lleoliadau addysgol sefydlog a gwydn dros amser.

Mynegwyd pryderon na allai amgylchedd ieithyddol ysgol dderbyn fwy o faint ail-greu'r ethos o ran y Gymraeg sydd yn Ysgol y Fro ar hyn o bryd, a'r defnydd anffurfiol o'r iaith. Mewn ymateb, mae'r Awdurdod wedi ystyried tystiolaeth sy'n ymwneud â'r ysgol dderbyn arfaethedig. Mae arolygiad diweddaraf Estyn o Ysgol y Dderwen yn cadarnhau ei bod yn darparu amgylchedd dysgu cyfrwng Cymraeg cryf ac effeithiol, lle mae disgyblion yn cyfathrebu'n hyderus yn y Gymraeg ac yn defnyddio'r iaith yn naturiol mewn cyd-destunau ffurfiol wrth ddysgu a rhai anffurfiol wrth gymdeithasu. Dengys y dystiolaeth hon y byddai disgyblion sy'n mynd o Ysgol y Fro dal yn cael cyfleoedd dyddiol i ddefnyddio, datblygu ac ymestyn eu sgiliau Cymraeg mewn amgylchedd lle siaredir Cymraeg yn bennaf.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod y pryderon y gallai'r cynnig arwain at rai teuluoedd yn dewis darpariaeth cyfrwng Saesneg neu ddeuol o ran iaith. Mae dewis y rhieni yn hawl statudol, ac mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn ymrwymedig i hyrwyddo manteision addysg Gymraeg. Nod sicrhau bod llwybr cyfrwng Cymraeg 3–11 ar gael yn barhaus yn lleol yw cefnogi parhad ieithyddol a throchi parhaus yn y Gymraeg i ddysgwyr.

Er bod yr Awdurdod yn cydnabod bod Ysgol y Fro wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol at y defnydd o'r Gymraeg yng nghymuned Llangyndeyrn, mae'r Gymraeg hefyd yn cael ei chynnal drwy ystod ehangach o ddylanwadau, gan gynnwys teuluoedd, darpariaeth Cylch Meithrin, sefydliadau cymunedol, a gweithgareddau chwaraeon a diwylliannol lle mae plant ac oedolion yn siarad yn Gymraeg â'i gilydd. Mae'r Awdurdod o'r farn felly fod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ymestyn y tu hwnt i un safle ysgol.

Cydnabyddir y gallai'r cynnig arwain at rywfaint o newid yn y ffordd y mae gweithgarwch cyfrwng Cymraeg yn cael ei strwythuro'n lleol, o ystyried rôl yr ysgol fel elfen weladwy o'r bywyd Cymraeg lleol. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod o'r farn y gall y nodweddion craidd sy'n cefnogi'r defnydd bob dydd o'r Gymraeg barhau trwy ddarpariaeth gydgysylltiedig a gweithio mewn partneriaeth. Gan hynny, rhoddwyd ystyriaeth i fesurau lliniaru addas, sy'n cynnwys gweithio gyda'r ysgol dderbyn a phartneriaid perthnasol i annog rhyngweithio cymdeithasol yn y Gymraeg, cryfhau cysylltiadau â gweithgareddau Cymraeg, a chynnal ymgysylltiad â'r blynyddoedd cynnar a'r ddarpariaeth gymunedol, gan gefnogi'r defnydd naturiol parhaus o'r Gymraeg o ddydd i ddydd.

Bydd yr Awdurdod yn monitro effeithiau'r cynnig ar y defnydd o'r Gymraeg os caiff y cynnig ei weithredu, gan ymgysylltu â'r ysgol dderbyn a phartneriaid perthnasol i sicrhau bod cefnogaeth barhaus i gyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus ac yn naturiol, yn unol â dyletswyddau statudol ac amcanion polisi lleol.

Ar ôl pwyso a mesur yn ofalus gyfraniad Ysgol y Fro at y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned yn erbyn yr angen i sicrhau darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg wydn a chynaliadwy dros y tymor hwy, mae'r Awdurdod Lleol o'r farn y gellir gweithredu'r cynnig, gyda chamau lliniaru priodol ac ymgysylltu parhaus, heb danseilio mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg na'r rhagolygon o ran y Gymraeg yn yr ardal yn y dyfodol.

| | | |
|---|---|---|
| **Pennawd Thematig:** Effaith ar y Cylch Meithrin | **Nifer yr Ymatebion** | **15** |
| | **Canran** | **18.99%** |

**Crynodeb o'r Ymatebion:** Mynegodd yr ymatebwyr bryderon sylweddol ynglŷn ag effaith bosibl y cynnig ar y Cylch Meithrin sy'n gweithredu ar hyn o bryd o Ysgol y Fro. Pwysleisiwyd gan yr ymgyngoreion pa mor bwysig oedd y Cylch Meithrin fel rhan o'r cynnig blynyddoedd cynnar lleol, ac fel elfen allweddol o'r llwybr trochi cyfrwng Cymraeg cynnar i blant yn Llangyndeyrn a'r cymunedau cyfagos. Mynegwyd pryderon bod y Cylch Meithrin yn dibynnu ar fynediad i adeilad yr ysgol a'r cyfleusterau, a phe bai'r ysgol yn cau byddai hynny'n tarfu ar y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yn yr ardal. Tynnodd yr ymatebwyr sylw hefyd at yr effeithiau posibl ar blant sy'n mynychu'r Cylch Meithrin ar hyn o bryd, ar deuluoedd sy'n gwerthfawrogi parhad yn y ddarpariaeth, ac ar y ddau aelod lleol o staff sy'n cael eu cyflogi gan y lleoliad.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod cryfder y teimlad a fynegwyd ac yn cydnabod rôl bwysig y Cylch Meithrin wrth gefnogi dysgu'r iaith Gymraeg yn gynnar ac wrth ddarparu gofal plant a dysgu cynnar hygyrch yn y gymuned. Mae rôl darpariaeth Cylch Meithrin wrth gefnogi Cymraeg 2050, Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin, a throchi'n gynnar yn y Gymraeg yn cael ei chydnabod fel rhan allweddol o'r ecosystem addysg cyfrwng Cymraeg ehangach.

Nodwyd effaith bosibl y cynnig ar y Cylch Meithrin yn y ddogfen ymgynghori, ac adlewyrchir hynny yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, cydnabyddir y bydd angen i'r Cylch Meithrin ystyried trefniadau eraill efallai, a allai arwain at darfu yn y tymor

byr neu hyd yn oed gau. Mae'r Awdurdod Lleol yn deall bod symud yn cyflwyno heriau i ddarparwyr blynyddoedd cynnar; heriau megis cynnal niferoedd, sicrhau parhad i blant a theuluoedd, a chadw staff. Mae'r Cylch yn lleoliad cymeradwy Gofal Plant yn unig Dechrau'n Deg, ac yn lleoliad Cynnig Gofal Plant cofrestredig, a phe bai'n cau o ganlyniad i weithredu'r cynigion, byddai'n effeithio ar fynediad plant i'w horiau gofal plant wedi'u hariannu, ac ar rieni sydd mewn addysg neu waith efallai.

Y darparwr sy'n gyfrifol am weithrediad y Cylch Meithrin a'i leoliad yn y dyfodol. Fodd bynnag, byddai'r Awdurdod Lleol yn gweithio gyda phartneriaid perthnasol, gan gynnwys Mudiad Meithrin a'r gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar, i gefnogi trafodaethau ynghylch trefniadau eraill addas yn yr ardal leol pe bai angen. Mae lleoliadau cymunedol presennol yn Llangyndeyrn, gan gynnwys Neuadd yr Eglwys, wedi'u nodi yn y ddogfennaeth ymgynghori fel opsiynau posibl, os byddant yn addas ac ar gael.

Nodir hefyd fod yr ysgol dderbyn arfaethedig, Ysgol y Dderwen, yn ysgol cyfrwng Cymraeg 3–11 oed ac yn darparu addysg blynyddoedd cynnar o dair oed. Mae hyn yn rhoi cyfle i blant dalgylch Ysgol y Fro gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg o oedran iau na'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd yn yr ysgol ei hun. Er nad yw hyn yn cymryd lle rôl benodol Cylch Meithrin, mae'n sicrhau bod mynediad at addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn parhau i fod ar gael yn lleol ac yn cefnogi parhad yn y llwybr cyfrwng Cymraeg.

O ran dyfodol adeilad yr ysgol, os bydd y cynigion yn cael eu gweithredu ac nad oes angen Ysgol y Fro mwyach o ran gofynion addysgol yr Awdurdod Lleol, ymagwedd gyffredinol y Cyngor yw ystyried yn gyntaf a oes angen y safle at unrhyw ddiben corfforaethol mewnol arall. Pan nad oes unrhyw ofynion o'r fath yn cael eu nodi, mewn rhai amgylchiadau gallai fod yn briodol ystyried y potensial i'r gymuned barhau i ddefnyddio'r adeilad. Gallai hyn gynnwys defnydd gan sefydliadau gwirfoddol neu elusennol neu fentrau cymdeithasol, fel y Cylch Meithrin, ar yr amod bod angen lleol clir gyda thystiolaeth.

Byddai unrhyw ystyriaeth o'r fath yn cael ei gwneud ar wahân i'r cynnig trefniadaeth ysgolion trwy brosesau llywodraethu a rheoli asedau y Cyngor. Lle bo hynny'n briodol, byddai angen cynllun busnes i ddangos hyfywedd, fforddiadwyedd a chynaliadwyedd hirdymor unrhyw ddefnydd arfaethedig, gan gynnwys sut y gallai gefnogi anghenion cymunedol neu wydnwch economaidd y gymuned wledig. Nid oes unrhyw benderfyniad wedi'i wneud hyd yma ynghylch y defnydd o'r safle yn y dyfodol, a dim ond ar ôl cwblhau'r broses cludiant ysgolion statudol y gellid ystyried unrhyw ddefnydd arall.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Wrth ystyried y pryderon a godwyd, mae'r Awdurdod Lleol yn fodlon bod yr effaith bosibl ar y ddarpariaeth Cylch Meithrin a blynyddoedd cynnar wedi cael ei nodi, ei chydnabod a'i chloriannu'n glir fel rhan o'r asesiad cyffredinol o'r cynnig. Er cydnabod y byddai symud yn cyflwyno heriau y byddai angen eu goresgyn i sicrhau parhad y ddarpariaeth, nid yw'r Awdurdod o'r farn y byddai'r cynnig yn dileu mynediad i addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn llwyr yn yr ardal, nac yn tanseilio cynaliadwyedd hirdymor y llwybr cyfrwng Cymraeg o'i ystyried yn y cyd-destun strategol a statudol ehangach. | | | |
| **Pennawd Thematig:** Pryderon Cludiant ac Amgylcheddol | | **Nifer yr Ymatebion**<br>**Canran** | **19**<br>**24.05%** |
| **Crynodeb o'r Ymatebion:** Mynegwyd pryderon am deithiau hirach, cost trafnidiaeth, ac, yn sgil rhagor o deithio, effaith carbon ar yr amgylchedd. Dywedodd rhai ymatebwyr na fyddent yn dewis symud eu plant i Ysgol y Dderwen, gan nodi amgylchiadau unigol neu bryderon am addasrwydd y lleoliad o ran effaith y teithio ar eu bywydau bob dydd. | | | |
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol**<br>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y pryderon hyn ac wedi eu hystyried yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Os caiff y cynnig ei weithredu, darperir cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddisgyblion cymwys, yn unol â Pholisi Cludiant Ysgol Cyngor Sir Caerfyrddin . Sylweddolir bod plant gan rai teuluoedd nad ydynt o bosibl yn gymwys i gael cludiant am ddim, ac felly gallai fod newidiadau i'w trefniadau teithio dyddiol. Mae'r effeithiau hyn wedi'u cydnabod yn y ddogfennaeth ymgynghori.<br>Dywedodd rhai ymatebwyr na fyddent yn dewis symud eu plant i Ysgol y Dderwen, gan nodi amgylchiadau unigol neu bryderon am addasrwydd ac effaith y trefniadau teithio. Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y safbwyntiau hyn ac yn nodi bod rhieni'n cadw'r hawl statudol i ddweud eu bod yn ffafrio unrhyw ysgol, yn unol â'r Cod Derbyn i Ysgolion.<br>Fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, Ysgol y Dderwen sydd wedi'i nodi fel yr ysgol dderbyn at ddibenion cynllunio. Fodd bynnag, dewis y rhieni a'r lleoedd sydd ar gael fydd, yn y pen draw, yn penderfynu ar symudiadau disgyblion mewn gwirionedd. O ganlyniad, gall dosbarthiad terfynol y disgyblion a'r effaith gysylltiedig ar gludiant, capasiti a threfniadau cymorth fod yn wahanol i'r rhagdybiaethau eglurhaol a nodwyd yn y cynnig. Mae'r amrywiadau posibl hyn | | | |

wedi'u cydnabod a byddent yn cael eu rheoli trwy'r prosesau derbyn, cludiant a chymorth presennol pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu.

Byddai costau ychwanegol yn gysylltiedig â darparu cludiant o'r cartref i'r ysgol os aiff y cynnig rhagddo. Mae'r costau hyn wedi'u nodi fel amcangyfrifon yn y Ddogfen Ymgynghori ac maent yn parhau i fod mor gywir â phosibl ar hyn o bryd. Byddai cost derfynol cludiant ysgol yn dibynnu ar nifer y disgyblion, maint cerbydau a chanlyniadau caffael. Byddai unrhyw drefniadau cludiant newydd yn destun proses dendro gystadleuol i sicrhau gwerth am arian.  Er bydd gweithredu'r cynigion yn arwain at gostau cludiant ychwanegol, bydd y rhain yn cael eu gwrthbwyso gan arbedion effeithlonrwydd eraill, a fydd yn arwain at arbediad blynyddol net i'r Cyngor.

Mewn perthynas â theithio llesol, mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried a fyddai cerdded neu feicio rhwng Llangyndeyrn a Chaerfyrddin yn opsiwn realistig a diogel i ddisgyblion oedran cynradd. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw lwybrau Teithio Llesol dynodedig sy'n bodloni gofynion Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Mae'r llwybr yn cynnwys lonydd gwledig cul, rhannau heb balmentydd, ffyrdd prysur, a cherbydau yn teithio ar gyflymder na fyddai'n cael ei ystyried yn ddiogel i ddisgyblion ar eu pennau eu hunain neu rai ifanc. Yn y cyd-destun hwn, nid yw teithio llesol yn cael ei ystyried yn opsiwn ymarferol ar gyfer y daith i'r ysgol. Ar hyn o bryd mae pedwar disgybl sy'n cerdded, yn beicio, neu'n mynd ar sgwter i Ysgol y Fro yn rheolaidd, ac ni fyddent yn gallu gwneud hynny'n ddiogel. Lle bo'n briodol, byddai'r Awdurdod Lleol yn ystyried mannau casglu dynodedig yn Llangyndeyrn fel bod disgyblion yn gallu parhau i gerdded pellteroedd byr fel rhan o'u taith.

Yn amgylcheddol, mynegwyd pryderon gan yr ymgyngoreion am yr effaith fyddai'r teithio ychwanegol yn ei chael ar garbon. Er byddai allyriadau cludiant yn cynyddu, mae'r Awdurdod Lleol yn credu bod gostyngiad net cyffredinol mewn allyriadau carbon yn debygol os caiff y cynnig ei weithredu, yn amodol ar ffigurau terfynol.

Cofnododd Ysgol y Fro, a adeiladwyd yn 1858 ac sy'n cael ei gwresogi gan system olew, ôl troed carbon o 10.46 tunnell o allyriadau CO2 yn 2024/25. O gymharu, cofnododd Ysgol y Dderwen, lle mae nifer o flociau cymharol fodern yn dyddio o 1984, ac sydd bellach wedi'i chynhesu drwy dechnoleg pwmp gwres carbon isel a gefnogir gan baneli solar ffotofoltäig, ôl troed carbon o 66.89 tunnell o allyriadau $CO_2$ yn 2024/25. Wedi dweud hynny, mae ôl troed Ysgol y Dderwen llawer yn fwy nag Ysgol y Fro. O ystyried defnydd ynni fesul m2, roedd Ysgol y Fro yn gyfrifol am 187.4 kWh/m2 yn ystod 2024/25 o gymharu â 133.7 kWh/m2 Ysgol y

Dderwen. Mae'r ffigurau hyn yn amlygu'r allyriadau anghymesurol o uchel sy'n gysylltiedig â chynnal adeiladau ysgol hŷn, nad ydynt yn ynni-effeithlon a lle mae niferoedd isel o ddisgyblion.

Mae'r allyriadau cludiant sy'n gysylltiedig â symud disgyblion dal yn gymharol isel. Byddai bws mini a rennir sy'n teithio 12.4 milltir bob diwrnod ysgol am 190 diwrnod addysgu yn cynhyrchu oddeutu 3.53 tunnell o allyriadau $CO_2$ y flwyddyn ar sail ffactorau sy'n deillio o DEFRA (~18.6 kg $CO_2$ fesul taith). Nid yw'r amcangyfrif hwn yn cynnwys allyriadau o daith y cerbyd i gyrraedd y man casglu, ond mae'n parhau i fod yn sylweddol is na'r allyriadau blynyddol sy'n gysylltiedig â chynnal hen adeilad ysgol.

Ar hyn o bryd mae Ysgol y Fro yn darparu ar gyfer nifer fach iawn o ddisgyblion mewn adeilad hŷn sy'n aneffeithlon yn thermol. Mae gweithredu adeilad o'r maint hwn gyda niferoedd isel o ddisgyblion yn arwain at ddefnydd ynni anghymesurol o uchel fesul disgybl, yn enwedig ar gyfer gwresogi a goleuadau. Mae tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru a chanllawiau sector cyhoeddus y DU yn nodi'n gyson fod defnydd ynni adeiladau yn un o'r prif ffynonellau allyriadau carbon yn yr ystad addysg.

Byddai cau ysgol nad yw'n llawn yn golygu na fyddai angen gwresogi a chynnal a chadw adeilad sy'n cael ei ddefnyddio'n aneffeithlon, gan arwain at ostyngiad sylweddol mewn allyriadau cysylltiedig ag adeiladau. Er y byddai cludiant ysgol a rennir yn cynhyrchu allyriadau ychwanegol, disgwylir i'r rhain fod yn gymharol fach. Mae taith fer gan gerbyd a rennir, dros gyfnod o flwyddyn ysgol, yn cynhyrchu tipyn llai o allyriadau na'r hyn sy'n gysylltiedig â gweithredu adeilad ysgol nad oes defnydd llawn yn cael ei wneud ohono.

Mae'r ysgol dderbyn, sef Ysgol y Dderwen, yn gweithredu mewn modd mwy cynaliadwy, gan ddarparu ar gyfer mwy o ddisgyblion mewn adeilad sydd wedi'i ddylunio'n well ar gyfer defnyddio ynni'n effeithlon. Mae cyfuno'r ddarpariaeth mewn lleoliad o'r fath yn gwella effeithlonrwydd ynni cyffredinol ac yn cyd-fynd â'r disgwyliadau cenedlaethol ar gyfer rheoli ystad ysgolion yn gynaliadwy.

Mae datgan Argyfwng Hinsawdd yn 2019 gan Gyngor Sir Caerfyrddin, ynghyd ag ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i ddatgarboneiddio ystad y sector cyhoeddus, yn atgyfnerthu pwysigrwydd lleihau'r defnydd o ynni os oes modd gwneud hynny. Mae lleihau allyriadau adeiladau aneffeithlon yn rhan allweddol o'r agenda hon.

O ystyried y ffactorau hyn at ei gilydd, er ei fod yn cydnabod yr effeithiau cludiant a'r angen i'w rheoli'n ofalus, mae'r Awdurdod Lleol o'r farn bydd y cynnig yn debygol o ddarparu budd

| | | |
|---|---|---|
| amgylcheddol cyffredinol trwy leihau allyriadau cysylltiedig ag adeiladau. Mae sylw wedi'i roi i'r ystyriaethau hyn ochr yn ochr â ffactorau addysgol, cymunedol ac ariannol yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). | | |
| **Pennawd Thematig:** Llesiant disgyblion a staff, a phryderon am yr effaith ar ddisgyblion ADY | **Nifer yr Ymatebion**<br>**Canran** | **17**<br>**21.52%** |
| **Crynodeb o'r Ymatebion:** Cododd yr ymatebwyr bryderon am effaith bosibl y cynnig ar blant ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys dysgwyr ag ADHD, Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth ac anghenion eraill a nodwyd neu sy'n dod i'r amlwg. Soniodd yr ymgyngoreion fod disgyblion Ysgol y Fro ar hyn o bryd yn elwa ar arferion sefydlog, oedolion cyfarwydd, strwythurau cadarn ac amgylcheddau dysgu tawelach, gan ddweud bod yr holl bethau hyn yn hynod bwysig wrth gefnogi rheolaeth emosiynol, ymgysylltu a llesiant. Mynegwyd pryderon y gallai symud i ysgol fwy o faint fod yn ormod i rai dysgwyr, gan arwain at orbryder, colli tir yn addysgol, neu lai o allu i gael mynediad at ddysgu yn effeithiol. Roedd rhai rhieni'n teimlo, pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, nad oedd opsiwn ganddynt ond ystyried addysg ddewisol yn y cartref, gan nad oeddent yn credu y gallai eu plentyn ymdopi mewn ysgol fwy. Tynnodd sawl ymatebydd sylw at yr effeithiau andwyol posibl y gallai'r bwriad i gau eu cael ar lesiant disgyblion a staff. | | |
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol**<br>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod graddau'r pryderon a fynegwyd ynghylch effaith bosibl y cynnig ar lesiant disgyblion a staff, yn enwedig dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Cydnabyddir yn llawn bwysigrwydd sefydlogrwydd, adnabod eraill, perthnasoedd dibynadwy ac arferion cyson ar gyfer plant ag ADY gan gynnwys y rhai ag ADHD, Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth ac anghenion eraill a nodwyd neu sy'n dod i'r amlwg.<br>Mae anghenion dysgwyr agored i niwed yn ystyriaeth allweddol yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), ac mae'r Awdurdod wedi rhoi sylw dyledus i'w ddyletswyddau statudol o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a Chod ADY Cymru. Mae'r fframweithiau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ac ysgolion nodi anghenion dysgwyr, cynllunio ar eu cyfer a'u diwallu, ynghyd â sicrhau bod darpariaeth briodol ar waith i gefnogi llesiant, cynnydd a chynhwysiant dysgwyr. Yn benodol, mae Cod ADY Cymru yn nodi egwyddorion clir (Pennod 3) fod gan bob dysgwr hawl i fynediad teg at gymorth priodol, addysgu | | |

o ansawdd uchel a darpariaeth gynhwysol, waeth beth fo math neu faint yr ysgol y mae'n ei mynychu. Mae Pennod 15 yn cadarnhau ymhellach fod yn rhaid rhoi trefniadau effeithiol ar gyfer nodi anghenion, cynllunio darpariaeth a chefnogi dysgwyr ar waith yn gyson ar draws pob ysgol a gynhelir.

Mae'r Awdurdod o'r farn y gellid diwallu anghenion unrhyw ddisgybl yn briodol yn yr ysgol dderbyn arfaethedig ac ysgolion cyfagos eraill, drwy fframweithiau ADY presennol, addasiadau rhesymol a mynediad at wasanaethau cymorth priodol.

Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn cydnabod y gall ADY fod dros dro, yn rhai sy'n dod i'r amlwg neu'n rhai heb ddiagnosis, a bod dealltwriaeth rhieni a barn broffesiynol yn ystyriaethau pwysig ochr yn ochr â data ffurfiol. Pe bai'r cynigion yn cael eu gweithredu, a phan fo teuluoedd yn dymuno edrych ar sut y gellid rheoli proses bontio â chymorth i ysgol arall, byddai'r Awdurdod yn gallu hwyluso trafodaeth a chynllunio unigol drwy fecanweithiau cymorth priodol, gan gynnwys ymgysylltu â Swyddog Cyswllt â Theuluoedd.  Felly, mae'r Awdurdod yn derbyn y gallai rhai disgyblion sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd elwa'n benodol ar agweddau ar amgylchedd ysgol llai, megis mannau dysgu tawelach, staffio cyson a chymorth personol iawn, ac mae'n derbyn y gallai proses bontio i leoliad gwahanol fod yn heriol os na chaiff ei chynllunio a'i chefnogi'n ofalus.

Cydnabyddir y gallai symud i amgylchedd ysgol mwy o faint a mwy prysur deimlo’n ormod i rai dysgwyr, yn enwedig i'r rheiny sydd â gorbryder, sensitifrwydd synhwyraidd neu sy'n gweld newid yn anodd, ac ar y dechrau gallai hyn effeithio ar lesiant emosiynol neu ymgysylltu â dysgu. Ar y llaw arall, i ddysgwyr eraill gall symud i leoliad mwy o faint gynnig manteision i'w datblygiad, gan gynnwys mynediad at grŵp cyfoedion ehangach, arbenigedd staff ehangach a mwy o gyfleoedd i ddatblygu annibyniaeth, y gallu i addasu a gwydnwch, yn enwedig wrth baratoi i gamu ymlaen i addysg uwchradd. Mae'r Awdurdod yn cydnabod na fydd y profiadau hyn yr un peth i bob dysgwr, a bod addasrwydd unrhyw amgylchedd ysgol yn dibynnu ar anghenion ac amgylchiadau unigol.

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'r disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol y Dderwen, oni bai bod rhieni'n dweud y byddai'n well ganddynt ysgol arall. Fel pob ysgol arall ar draws y sir, mae gan Ysgol y Dderwen fframwaith ADY sefydledig, arweinyddiaeth ADY bwrpasol, a mynediad at ystod eang o wasanaethau cymorth arbenigol drwy'r Awdurdod Lleol. Ar y cyfan mae gan ysgolion mwy o faint ragor o gapasiti o ran staff a rhagor o arbenigedd, ac fel ysgolion eraill, gallant fanteisio ar wasanaethau cynghori allanol, gan gefnogi nodi anghenion yn gadarn,

gweithredu Cynlluniau Datblygu Unigol yn effeithiol, a mynediad amserol at ymyriadau wedi'u targedu lle bo angen. Canfu penderfyniad Tribiwnlys Addysg Cymru dyddiedig 1 Ebrill 2021 nad maint dosbarthiadau yn unig sy'n penderfynu ar ymarfer cynhwysol a darpariaeth effeithiol, ond hefyd ansawdd y strategaethau addysgu, gwahaniaethu, ymyrraeth a chymorth sydd ar waith. Mae ymarfer addysgol seiliedig ar dystiolaeth yn dangos ymhellach fod canlyniadau cadarnhaol i ddysgwyr ag anghenion ychwanegol yn gysylltiedig fwyaf â defnyddio staff yn effeithiol, ymarfer o ansawdd da yn yr ystafell ddosbarth a chymorth wedi'i dargedu, yn hytrach na maint dosbarth yn unig. Disgwylir i bob ysgol a gynhelir wneud addasiadau rhesymol i ddiwallu anghenion dysgwyr, gan gynnwys defnyddio amgylcheddau pwrpasol sy'n cefnogi'r synhwyrau a mannau dysgu hyblyg. Mae llawer o ysgolion ar draws yr awdurdod eisoes wedi gweithredu mesurau amgylcheddol a bugeiliol i gefnogi llesiant a rheolaeth emosiynol, ac mae'r disgwyliadau hyn yn berthnasol ta beth yw maint yr ysgol.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y gall pontio fod yn gyfnod hynod sensitif i ddysgwyr, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion ychwanegol. Felly, os yw'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai cynlluniau pontio unigol yn hanfodol. Byddai hyn yn cynnwys ymgysylltu'n gynnar ac yn barhaus â rhieni a gofalwyr, cyswllt rhwng staff y ddwy ysgol, rhannu gwybodaeth fugeiliol a dysgu, a, lle bo'n briodol, trefniadau pontio graddol, â chymorth neu estynedig. Byddai disgwyl i unrhyw ysgol dderbyn wneud addasiadau rhesymol lle bo angen, a sicrhau bod cymorth priodol ar waith fel bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u cynnwys drwy gydol y broses bontio a thu hwnt.

Hefyd roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn dwyn sylw at bryderon am lesiant staff, yn enwedig yn ystod cyfnodau hir o ansicrwydd a newid, a'r effaith gallai hyn ei chael ar ddisgyblion. Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod llesiant, sefydlogrwydd a morâl staff yn ffactorau pwysig wrth gefnogi disgyblion, yn enwedig dysgwyr agored i niwed sy'n dibynnu ar berthnasoedd dibynadwy a gofal cyson. Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, bydd staff yn cael eu cefnogi trwy brosesau ymgynghori a chyflogaeth ffurfiol yn unol â pholisïau a gweithdrefnau awdurdod lleol. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i gyfathrebu clir, triniaeth deg a mynediad at ddulliau cymorth priodol, a bydd yn ceisio, lle bynnag y bo modd, lleihau tarfu a sicrhau parhad cefnogaeth i ddisgyblion yn ystod unrhyw gyfnod pontio.

Dywedodd rhai rhieni hefyd eu bod yn teimlo efallai y byddai'n rhaid iddynt ystyried addysg ddewisol yn y cartref pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, oherwydd pryderon am allu eu plentyn i ymdopi mewn lleoliad ysgol mwy o faint. Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y pryderon hyn.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dewis rhieni o hyd yw penderfyniadau ynghylch addysg ddewisol yn y cartref, ond mae'r Awdurdod yn parhau i hyrwyddo addysg gynhwysol mewn ysgolion a gynhelir ac yn cadw ei ddyletswydd statudol i sicrhau bod darpariaeth addas ar gael i ddiwallu anghenion dysgwyr a nodwyd o fewn y system ysgol lle bo hynny'n bosibl.<br><br>Ar ôl ystyried yn ofalus y pryderon a godwyd drwy'r broses ymgynghori, mae'r Awdurdod Lleol yn fodlon bod effaith bosibl y cynnig ar lesiant disgyblion a staff, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, wedi cael ei nodi, ei chydnabod, a'i chloriannu'n briodol. Trwy gynlluniau pontio cadarn, ymgysylltu parhaus â theuluoedd, a mynediad at systemau ADY sefydledig a gwasanaethau cymorth arbenigol, mae'r Awdurdod o'r farn y byddai'r ysgol dderbyn yn gallu cefnogi dysgwyr yn unol â gofynion statudol a bod y cynnig yn cyd-fynd â disgwyliadau'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) a Chod ADY Cymru. | | | |
| **Pennawd Thematig:** Materion proses ymgynghori | | **Nifer yr Ymatebion**<br><br>**Canran** | **8**<br><br>**10.13%** |
| **Crynodeb o'r Ymatebion:** Codwyd nifer o bryderon gan ymatebwyr ynglŷn â'r broses ymgynghori ei hun. Roedd y rhain yn cynnwys ceisiadau am ymgysylltu cynharach, cryfach a mwy tryloyw, gan gynnwys ymgysylltu â rhieni'r ysgolion derbyn posibl, eglurder ynghylch sut roedd llais disgyblion yn cael ei geisio a'i ystyried, a gwell mynediad at dystiolaeth a gwybodaeth sy'n ymwneud â'r cynnig a lliniaru posibl. Roedd rhai ymatebwyr hefyd wedi cwestiynu elfennau o'r ymgysylltiad "Cam 0" cyn-ymgynghori, wedi rhoi gwybod am anawsterau wrth gyfathrebu â'r Awdurdod Lleol, ac wedi nodi nad oedd rhieni'r ysgol dderbyn arfaethedig wedi cael gwybodaeth ddigonol. Yn ogystal codwyd pryderon ynghylch cywirdeb y data oedd wedi'i gynnwys yn y ddogfen ymgynghori, a gwnaed awgrymiadau nad oedd yr Awdurdod wedi cydymffurfio'n llawn â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), yn enwedig mewn perthynas ag ystyried dewisiadau eraill yn hytrach na chau ysgol wledig. | | | |
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol**<br><br>Mae'r Awdurdod Lleol yn cymryd y pryderon hyn o ddifrif ac yn sylweddoli bod cael ffydd a hyder yn y broses ymgynghori yn hanfodol. Pwrpas yr ymgynghoriad yw darparu digon o wybodaeth i randdeiliaid fel eu bod yn deall y cynnig ac yn gallu mynegi eu barn, a sicrhau bod y farn honno'n cael ei hystyried yn iawn cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud. | | | |

Mae'r ymgynghoriad wedi'i wneud yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Mae'r Cod yn nodi gofynion statudol clir ynghylch pwy y mae'n rhaid ymgynghori â nhw, y wybodaeth y mae'n rhaid ei chyhoeddi ac erbyn pryd mae'n rhaid ymgysylltu. Mae'r gofynion hyn wedi'u bodloni drwy gyhoeddi dogfen ymgynghori gynhwysfawr, ymgynghoriad ysgrifenedig ffurfiol gyda'r holl randdeiliaid (gan gynnwys rhieni, staff, llywodraethwyr, cynrychiolwyr etholedig a chyrff partner) a darparu nifer o sianelau ar gyfer cyflwyno ymatebion.

O ran ymgysylltu cyn ymgynghori, mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod nad yw gweithgarwch "Cam 0" yn statudol, a'i fwriad yw llywio'r broses o ystyried opsiynau yn fewnol. Er bod ymgysylltu cynnar â rhanddeiliaid perthnasol wedi bod, mae'r Awdurdod yn derbyn bod barn wahanol ynghylch pa mor weladwy neu effeithiol oedd y cam hwn, a bod disgwyliadau ynghylch ymgysylltu anffurfiol yn gallu amrywio. Y broses ymgynghori ffurfiol yw'r mecanwaith statudol a ddefnyddir i gasglu ac asesu sylwadau, a'r cam hwn yw'r sail statudol ar gyfer gwneud penderfyniadau.

Codwyd pryderon am y cyfathrebu yn ystod y cyfnod ymgynghori, a oedd yn cynnwys y canfyddiad nad oedd yr Awdurdod wedi ymateb i'r holl ohebiaeth. Noda'r Awdurdod Lleol y bydd yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad ffurfiol sy'n dod i law o fewn y terfyn amser a gyhoeddwyd yn cael eu cofnodi, eu crynhoi, ac yn cael sylw yn yr Adroddiad Ymgynghori. Yr adroddiad hwn yw ymateb ffurfiol yr Awdurdod i'r materion a godwyd, a bydd yn cael ei gyhoeddi cyn unrhyw benderfyniad, yn unol â'r Cod.

O ran rhieni'r ysgol dderbyn arfaethedig, mae'r Awdurdod Lleol yn cadarnhau bod cyrff llywodraethu'r ysgolion y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arnynt wedi cael eu cynnwys yn y grŵp rhanddeiliaid gafodd wybod am yr ymgynghoriad, fel sy'n ofynnol gan y Cod. Mae'r Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd cyfathrebu'n glir â'r holl gymunedau y gallai'r cynnig effeithio arnynt, a bydd yn ystyried sut y gellir cryfhau'r broses rhannu gwybodaeth os bydd y cynnig yn mynd rhagddo.

O ran cywirdeb data, mae'r ddogfen ymgynghori yn seiliedig ar y ffynonellau data diweddaraf sydd ar gael ar yr adeg gyhoeddi, gan gynnwys niferoedd disgyblion CYBLD 2025, amcanestyniadau disgyblion, asesiadau capasiti a gwybodaeth ariannol sy'n gywir ar yr adeg gyhoeddi. Mae'r setiau data yn cael eu cymhwyso'n gyson ar draws yr ystad ysgolion. Mae data CYBLD yn darparu set ddata gyson, gynhwysfawr a safonedig ar draws pob ysgol yng Nghymru. Mae CYBLD yn cael ei gasglu'n flynyddol o bob ysgol a gynhelir yng Nghymru, gan sicrhau cipolwg unffurf a chyfredol o niferoedd disgyblion, demograffeg a nodweddion ysgolion. Mae'r

cysondeb hwn yn golygu bod modd dadansoddi tueddiadau a gwneud cymariaethau cywir ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol. Mae Llywodraeth Cymru ac Estyn yn defnyddio data CYBLD fel llinell sylfaen ar gyfer dyrannu cyllid, monitro perfformiad, a chynllunio strategol. Mae defnyddio'r un set ddata mewn adroddiadau awdurdodau lleol yn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â fframweithiau polisi cenedlaethol ac yn osgoi anghysondebau. Mae CYBLD yn ffynhonnell ddata swyddogol sy'n destun prosesau dilysu trylwyr. Mae defnyddio CYBLD mewn adroddiadau ffurfiol yn cefnogi tryloywder ac atebolrwydd, yn enwedig wrth gyfiawnhau penderfyniadau ynghylch trefniadaeth ysgolion, cyllid, neu ddeilliannau addysgol. Mae cyfeirio at un ffynhonnell ddata gydnabyddedig, fel CYBLD, yn creu eglurder ac yn sicrhau bod yr holl randdeiliaid, ysgolion, rhieni, arolygwyr a llunwyr polisi yn gweithio o'r un sylfaen dystiolaeth. Mae'r Awdurdod Lleol yn gwrthod unrhyw awgrym bod data wedi'i gyflwyno'n fwriadol mewn modd oedd yn camliwio sefyllfa Ysgol y Fro. Fodd bynnag, cydnabyddir bod data yn gallu cael ei ddehongli mewn ffyrdd gwahanol, a bydd y pwyntiau a godwyd ynghylch rhagdybiaethau data a sut cafodd y data ei gyfleu yn cael eu hadolygu fel rhan o broses yr Adroddiad Ymgynghori.

Dywedodd rhai ymatebwyr nad oedd yr Awdurdod wedi bodloni gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion wrth ystyried dewisiadau eraill yn hytrach na chau, yn enwedig o ystyried statws Ysgol y Fro fel ysgol wledig. Mae'r Awdurdod Lleol yn cadarnhau bod ystod o opsiynau wedi'u harchwilio a'u hasesu cyn ymgynghori, gan gynnwys cadw'r *status quo,* newidiadau i ystod oedran, ffedereiddio a dewisiadau strwythurol eraill. Mae'r opsiynau hyn, a'r rhesymau dros beidio â'u ffafrio, wedi'u nodi yn y ddogfen ymgynghori yn unol â gofynion y Cod ar gyfer ysgolion gwledig. Mae'r Awdurdod yn derbyn y gall ymgyngoreion anghytuno â'r casgliadau hyn, a bydd sylwadau o'r fath yn cael eu hadrodd a'u hystyried fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

Os bydd y Cabinet yn penderfynu symud ymlaen i gyhoeddi hysbysiad statudol, bydd rhanddeiliaid yn cael cyfle ffurfiol pellach i wneud sylwadau yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol. Rhaid i unrhyw wrthwynebiadau yn y cyfnod hwnnw gael eu hystyried gan yr Awdurdod Lleol, a rhaid ymateb iddynt mewn Adroddiad Gwrthwynebu cyn y penderfyniad terfynol, yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Mae hyn yn sicrhau bod gan ymgyngoreion gyfle ychwanegol i godi pryderon neu ddarparu rhagor o wybodaeth cyn i benderfyniad terfynol gael ei wneud.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i ystyried mewn modd agored yr adborth sy'n dod i law am y broses ymgynghori ei hun. Er bod yr Awdurdod yn fodlon bod gofynion statudol y Cod

| | | | |
|---|---|---|---|
| Trefniadaeth Ysgolion (2018) wedi'u bodloni, mae'n cydnabod bod meysydd lle gellid gwella cyfathrebu, eglurder ac ymgysylltu. Bydd y materion hyn yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'r ymatebion i'r cynnig a byddant yn llywio arferion ymgynghori yn y dyfodol. | | | |
| **Pennawd Thematig:** Materion dehongli adroddiad Estyn | **Nifer yr Ymatebion**<br>**Canran** | **10**<br>**12.66%** | |

**Crynodeb o'r Ymatebion:** Cododd ymatebwyr bryderon ynghylch sut mae canlyniad arolygiad Estyn ar gyfer Ysgol y Fro wedi'i gyfeirio a'i ddehongli yn y ddogfen ymgynghori. Yn benodol, mynegodd rhai ymatebwyr y farn y dylai cael eich gosod mewn mesurau arbennig roi bod i ragor o gymorth a gwelliant wedi'i dargedu, yn hytrach nag ystyried cau'r ysgol. Dywedodd yr ymgyngoreion hefyd fod cynllun gwella ar waith, ac awgrymu bod arwyddion cynnar o gynnydd, gan gynnwys gwelliannau mewn sgiliau cyfathrebu, datblygu diwylliant darllen, amgylchedd dysgu mwy cynhwysol a defnyddio dysgu yn yr awyr agored.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y farn hon ac mai pwrpas fframwaith arolygu Estyn, gan gynnwys defnyddio mesurau arbennig, yw sicrhau gwelliant a sicrhau bod dysgwyr yn derbyn addysg o safon dderbyniol. Mae'r Awdurdod wrthi'n cefnogi Ysgol y Fro drwy'r broses ôl-arolygu statudol, gan gynnwys datblygu a gweithredu cynllun gwella, ac mae'n parhau i weithio'n galed gyda'r ysgol i fynd i'r afael â'r argymhellion a nodwyd gan Estyn.

Mae'n bwysig egluro nad canlyniad arolygiad Estyn yw'r unig ffactor na'r ffactor pennaf yn y cynnig i gau Ysgol y Fro. Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi ystod o faterion cysylltiedig sy'n wynebu'r ysgol, gan gynnwys nifer isel iawn o ddisgyblion a'r nifer honno'n gostwng, llawer iawn o leoedd gwag, diffygion cyllidebol sylweddol sy'n cynyddu, heriau sy'n gysylltiedig â darparu ehangder y Cwricwlwm i Gymru yn llawn mewn adeilad ysgol bach iawn, a phryderon am y gallu i arwain a chynaliadwyedd hirdymor. Mae'r materion strwythurol a demograffig hyn yn rhan o'r cyd-destun ehangach y mae'r cynnig wedi'i lunio ynddo.

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried safonau addysgol a gallu ysgolion i gyflawni gwelliant parhaus, ochr yn ochr â hyfywedd ariannol, defnydd effeithlon o adnoddau, a mynediad dysgwyr at ddarpariaeth addas. Er bod gwella ysgolion yn ymateb dilys a phwysig i ganlyniadau arolygiad, nid yw'r Cod yn ei gwneud yn

ofynnol i awdurdod lleol ddiystyru ad-drefnu neu gau lle bo problemau clir a pharhaus ynghylch cynaliadwyedd sy'n annhebygol o gael eu datrys trwy gymorth i wella yn unig.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod y camau gwella yn Ysgol y Fro yn parhau a bod cynnydd yn cymryd amser. Fodd bynnag, o ystyried cyd-destun yr ysgol fel ysgol wledig fach iawn gyda chapasiti staffio cyfyngedig, nifer eithriadol o uchel y lleoedd gwag, a'r sefyllfa ariannol anghynaladwy, mae cyfyngiadau sylweddol ar ei gallu i gyflawni a chynnal gwelliant yn y tymor hwy. Ystyriwyd y cyfyngiadau hyn fel rhan o'r asesiad o opsiynau a wnaed cyn yr ymgynghoriad.

Wrth gyflwyno'r cynnig, nid yw'r Awdurdod Lleol wedi ceisio lleihau ymdrechion staff na'r cynnydd sy'n cael ei wneud yn yr ysgol.  Yn hytrach, mae'r cynnig yn adlewyrchu'r farn fod yr ystod o heriau mae'r ysgol yn eu hwynebu, hyd yn oed gyda chefnogaeth barhaus, yn risg sylweddol i hyfywedd hirdymor yr ysgol ac i ddarparu addysg o ansawdd da yn gyson.

Ar ôl ystyried yr ymatebion a gafwyd, mae'r Awdurdod Lleol yn parhau i fod yn fodlon bod canlyniad arolygiad Estyn wedi'i gyfeirio'n briodol yn y ddogfen ymgynghori fel rhan o sylfaen dystiolaeth ehangach. Mae'r Awdurdod wedi pwyso a mesur y potensial i wella ochr yn ochr â'r heriau ehangach a pharhaus wyneba'r ysgol yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018).

| **Pennawd Thematig:** Problemau Ariannol | **Nifer yr Ymatebion** | **13** |
|---|---|---|
| | **Canran** | **16.46%** |

**Crynodeb o'r Ymatebion:** Roedd pryderon gan rai ymatebwyr y byddai costau cludiant yn dileu unrhyw arbedion a ddeilliai o'r bwriad i gau'r ysgol. Dadl rhai ymatebwyr oedd y dylai'r Cyngor reoli gwariant yn fwy effeithiol mewn ysgolion mwy o faint er budd ysgolion llai. Roedd rhai ymatebwyr yn cydnabod y problemau ariannol roedd yr ysgol yn eu hwynebu, ac awgrymai'r sylwadau oedd yn cefnogi'r cynigion y byddai'r cau yn creu arbedion ariannol y gellid eu defnyddio at ddibenion eraill.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod ystyriaethau ariannol yn agwedd bwysig ar y cynnig, a bod dyletswydd statudol arno o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) i ddangos bod y cynigion yn ddefnydd effeithiol a chynaliadwy o adnoddau cyhoeddus. Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi sefyllfa ariannol bresennol Ysgol y Fro, gan gynnwys ei diffyg cyllidebol

sylweddol, parhaus ac amcanol, ei chostau uchel fesul disgybl, a'i dibyniaeth ar gael cyllid ychwanegol oherwydd nifer isel y disgyblion. At ei gilydd, mae'r ffactorau hyn yn dangos nad yw'r ysgol yn gynaliadwy yn ariannol yn y tymor canolig i'r tymor hir.

Mewn perthynas â chostau trafnidiaeth, mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y byddai gwariant ychwanegol pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu. Mae'r costau hyn wedi'u nodi a'u cynnwys yn y dadansoddiad ariannol sydd yn y ddogfen ymgynghori, ac maent yn cael eu cyflwyno fel amcangyfrifon yn seiliedig ar ragdybiaethau cyfredol. Er y byddai costau cludiant yn lleihau lefel yr arbedion net, nid yw'r Awdurdod yn credu y byddent yn gwrthbwyso'n llawn y manteision ariannol fyddai'n deillio o'r cau. Byddai dileu pwysau cyllideb ddirprwyedig yr ysgol, costau'r safle, a'r diffyg parhaus yn arwain at arbediad refeniw net, ochr yn ochr ag arbedion effeithlonrwydd ehangach trwy ddefnydd mwy effeithlon o'r ystad ysgolion.

Awgrymodd rhai ymatebwyr y gellid mynd i'r afael â phwysau ariannol yn hytrach trwy well rheolaeth ariannol mewn ysgolion mwy o faint, a thrwy hynny helpu i gadw ysgolion llai. Mae'r Awdurdod yn nodi bod pob ysgol a gynhelir yn gweithredu o fewn yr un fframwaith ariannu ac yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru). Caiff cyllid ei seilio'n bennaf ar nifer y disgyblion, ac mae ysgolion bach iawn yn wynebu anfanteision strwythurol na ellir eu lliniaru'n llawn trwy arbedion effeithlonrwydd rheoli mewn mannau eraill. Mae parhau i gymorthdalu darpariaeth cost uchel nad yw'n llawn yn rhoi pwysau ychwanegol ar y gyllideb addysg ehangach, ac yn cyfyngu ar allu'r Awdurdod i fuddsoddi'n deg ar draws y system ysgolion.

Roedd sylwadau a gefnogai'r cynnig yn cydnabod y byddai cau yn lleihau'r gwariant oedd yn gysylltiedig â chynnal adeilad nad oedd defnydd llawn yn cael ei wneud ohono ac yn galluogi'r Awdurdod i ailgyfeirio adnoddau yn fwy effeithiol. Er nad yw'r arbedion sy'n deillio o unrhyw achos o gau ysgolion yn cael eu neilltuo'n awtomatig at ddibenion penodol, maent yn cyfrannu at gyllideb gyffredinol yr ysgolion, ac yn cefnogi gallu'r Awdurdod i gynnal a gwella'r ddarpariaeth addysg ar draws y sir, gan gynnwys buddsoddi mewn staffio, gwasanaethau cymorth a gwaith gwella ysgolion lle bo angen.

Mae'r gyllideb gyffredinol a ddirprwywyd i ysgolion yr Awdurdod o dan bwysau sylweddol. Mae cyfuniad o setliadau cyllideb heriol yn genedlaethol ac yn lleol a lleihad graddol yn nifer y disgyblion yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi golygu bod maint ystad bresennol yr ysgolion cynradd, gan gynnwys sawl ysgol sydd â nifer fach iawn o ddisgyblion, yn fwyfwy anodd eu cynnal.  Mae gan nifer sylweddol o ysgolion naill ai ddiffyg neu rhagwelir y bydd ganddynt ddiffyg yn ystod y ddwy flynedd nesaf, ac mae'r gyllideb ysgolion gyffredinol yn rhagweld gorwariant yn

y flwyddyn o £8.9m yn 2026/27. Mae hyn yn golygu bod risg sylweddol i gyllideb gyffredinol y Cyngor.

Mae hefyd llawer iawn o leoedd gwag ar draws y rhwydwaith ysgolion. Gan fod cyllid ysgolion yn cael ei reoli i raddau helaeth gan niferoedd disgyblion, mae lleihau'r ôl troed cyffredinol i lefel lle mae nifer llai o ysgolion yn gallu rheoli eu cyllidebau yn effeithlon bellach yn ystyriaeth strategol bwysig.

Mae hyn wedi cael ei adlewyrchu mewn adolygiadau allanol, gan gynnwys canfyddiadau Estyn yn 2023, a wnaeth nodi bod oedi wrth wneud penderfyniadau wedi cyfyngu ar gynnydd o ran ad-drefnu a moderneiddio'r ddarpariaeth addysg, ac yn Asesiad Perfformiad y Panel (2025) a gomisiynwyd drwy CLILC, a wnaeth argymell gweithredu Rhaglen Moderneiddio Addysg yr Awdurdod er mwyn mynd i'r afael â chapasiti gormodol, optimeiddio ôl troed cyffredinol yr ystad ysgolion, lleihau diffygion cyllidebau ysgolion, a llywio penderfyniadau buddsoddi cyfalaf yn y dyfodol.

Mae'r ffigyrau diweddaraf ar gyfer 2026/27 yn amcangyfrif y bydd yr arbedion refeniw blynyddol i'r Cyngor yn sgil y cynnig hwn oddeutu £42,000. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys arbedion o £92,000 o gyllideb ddirprwyedig yr ysgol yn 2026/27, a ddarperir drwy daliadau atodol ar gyfer ardrethi annomestig, costau safle a nifer isel y disgyblion, wedi'u gwrthbwyso gan gostau cludiant ychwanegol arfaethedig o tua £50,000.

Gan fod y mwyafrif o'r cyllid ar gyfer ysgolion yn cael ei gyfrifo yn ôl nifer y disgyblion, mae'r cyllid craidd yn mynd gyda'r disgyblion i'w dewis ysgolion, a thrwy hynny yn cefnogi cyllidebau'r ysgolion derbyn. Ar gyfer Ysgol y Fro, byddai cyfanswm y cyllid cysylltiedig â disgyblion sy'n symud i ysgolion eraill yn 2026-27 yn £78,000

Yn ogystal, byddai arbedion pellach yn deillio o'r gostyngiad yn y galw ar wasanaethau cymorth canolog, gan gynnwys Adnoddau Dynol, Addysg a Chymorth ADY, TG, y ddarpariaeth Gwasanaeth Cerdd, glanhau, cynnal a chadw eiddo, cynnal a chadw tiroedd ac arlwyo. Roedd cynigion arbedion y Cyngor a gymeradwywyd ar 24 Chwefror 2025 yn cynnwys argymhelliad i'r Gwasanaeth Ysgolion adolygu hyfywedd ystad yr ysgolion yn y dyfodol wrth reoli'r pwysau hwn.

Pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt, a phe chytunid iddynt gael eu rhoi ar waith, byddai gan yr Awdurdod Lleol adeilad ysgol diangen yn ei ystad. Os nad oes diddordeb corfforaethol neu gymunedol mewn cadw'r adeilad yn unol â'r polisi Defnyddio/Gwaredu Tir ac Adeiladau Diangen

yn y Dyfodol, yna byddai'r adeiladau'n cael eu rhoi ar y farchnad agored a gallent gynhyrchu derbyniad cyfalaf o oddeutu £120,000.

Ar ôl ystyried y sylwadau a wnaed, mae'r Awdurdod Lleol dal yn fodlon bod y dadansoddiad ariannol a roddwyd yn y ddogfen ymgynghori yn gadarn a bod y cynnig yn ddefnydd mwy cynaliadwy o adnoddau cyhoeddus. Mae ystyriaethau ariannol wedi'u pwyso a'u mesur ochr yn ochr ag ansawdd yr addysg, effaith gymunedol, goblygiadau cludiant a llesiant dysgwyr, yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018).

| **Pennawd Thematig:** Addasrwydd yr ysgol dderbyn | **Nifer yr Ymatebion** | **20** |
|---|---|---|
| | **Canran** | **28.1%** |

**Crynodeb o'r Ymatebion:** Cododd ymatebwyr bryderon ynghylch addasrwydd Ysgol y Dderwen fel yr ysgol dderbyn arfaethedig ar gyfer disgyblion sy'n mynychu Ysgol y Fro ar hyn o bryd. Roedd y materion a nodwyd yn cynnwys canfyddiadau bod Ysgol y Dderwen eisoes yn llawn ac yn methu â darparu ar gyfer disgyblion ychwanegol, ynghyd â phryderon bod maint y dosbarthiadau yn fwy nag Ysgol y Fro ac na fyddai amgylchedd yr ysgol yn briodol ar gyfer disgyblion sy'n trosglwyddo o leoliad llawer llai. Cododd rhai ymatebwyr bryderon hefyd ynghylch mynediad at frecwast a darpariaeth ar ôl ysgol, gan awgrymu y byddai'r galw presennol a'r rhestrau aros yn cyfyngu ar unrhyw fudd i deuluoedd. Yn fras, mynegwyd pryderon nad oedd y cynnig yn cynllunio'n ddigonol ar gyfer y galw yn y dyfodol, a gwnaed awgrymiadau y dylid ystyried ysgolion derbyn eraill, fel Ysgol Bancffosfelen neu ysgolion lleol eraill, gydag ysgolion llai yn cael eu hystyried yn fwy addas i ddisgyblion os yw'r cynnig yn mynd rhagddo.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y pryderon hyn ac yn cydnabod bod addasrwydd y ddarpariaeth sy'n derbyn yn ystyriaeth allweddol o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Mae Ysgol y Dderwen wedi'i nodi fel yr ysgol dderbyn arfaethedig oherwydd ei statws fel ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Cymraeg o fewn pellter teithio rhesymol, oherwydd ei bod yn yr un categori iaith ag Ysgol y Fro, ac oherwydd ei gallu addysgol a'i chynaliadwyedd cyffredinol.

O ran capasiti, mae'r Awdurdod yn cydnabod bod Ysgol y Dderwen yn ysgol boblogaidd a bod nifer y disgyblion yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi'r niferoedd disgyblion arfaethedig ac yn cydnabod, pe bai holl ddisgyblion Ysgol y Fro yn dewis trosglwyddo, y gallai fod pwysau yn y tymor byr mewn grwpiau blwyddyn penodol. Pe bai'r

cynnig yn cael ei weithredu, byddai'r Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos gyda chorff llywodraethu ac arweinwyr Ysgol y Dderwen i reoli derbyniadau yn unol â'r Cod Derbyn i Ysgolion ac i sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i ddarparu ar gyfer disgyblion heb effeithio'n andwyol ar safonau na llesiant. Lle bo angen, byddai adnoddau neu adeiladau ychwanegol yn cael eu hystyried trwy brosesau sefydledig.

Nodwyd hefyd bryderon ynghylch maint dosbarthiadau. Er bod maint dosbarthiadau yn Ysgol y Dderwen yn fwy efallai na'r rhai yn Ysgol y Fro, mae carfanau mwy hefyd yn darparu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio â chyfoedion o'r un oedran, dysgu cydweithredol, a datblygiad cymdeithasol. Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod disgyblion yn ymateb yn wahanol i wahanol amgylcheddau dysgu. Mae ysgolion mwy o faint mewn sefyllfa dda i gynnig cwricwlwm eang, cyfleoedd allgyrsiol ehangach, mynediad at staff arbenigol, a strwythurau arwain a chefnogi mwy gwydn. Ystyriwyd y ffactorau hyn wrth nodi'r ysgol dderbyn arfaethedig. Daeth penderfyniad Tribiwnlys Addysg Cymru dyddiedig 1 Ebrill 2021 i'r casgliad nad maint y dosbarth sy'n pennu natur addysgu, dysgu a'r ddarpariaeth. Mae ymarfer cynhwysol yn Sir Gaerfyrddin yn cynnwys addysgu a dysgu o ansawdd uchel gan gynnwys gwahaniaethu, ymyriadau a strategaethau i sicrhau bod disgyblion yn gallu gwneud cynnydd yn y cwricwlwm. Nid yw maint y dosbarthiadau yn berthnasol i ddulliau cynhwysol a deilliannau effeithiol i ddisgyblion.

O ran brecwast a darpariaeth ar ôl ysgol, cydnabyddir y gall y galw am ofal plant cofleidiol fod yn fwy na'r capasiti mewn ysgolion poblogaidd. Er nad yw'r gwasanaethau hyn yn ofynnol yn statudol, nodwyd y gallai darpariaeth o'r fath yn Ysgol y Dderwen fod o fudd posibl i deuluoedd. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'r Awdurdod Lleol yn gweithio gyda'r ysgol dderbyn i ddeall y galw ac i ystyried a ellid addasu neu ehangu'r ddarpariaeth dros amser, yn amodol ar ddichonoldeb gweithredol a chyllid.

Felly, roedd dynodi Ysgol y Dderwen fel yr ysgol dderbyn arfaethedig yn seiliedig ar amryw ffactorau, gan gynnwys parhad iaith, ansawdd addysg, y gallu i gefnogi gwelliant, a chynaliadwyedd hirdymor, yn hytrach na maint yn unig.

Mae awgrymiadau ynghylch ysgolion derbyn eraill, gan gynnwys Ysgol Bancffosfelen ac ysgolion llai eraill, wedi'u hystyried yn ofalus. Bydd gan rieni'r hawl o hyd i fynegi ffafriaeth ar gyfer unrhyw ysgol, yn unol â'r Cod Derbyn i Ysgolion. Dynodwyd Ysgol y Dderwen fel yr ysgol dderbyn arfaethedig at ddibenion cynllunio ac nid yw'n cyfyngu ar ddewis rhieni. Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y gall symudiadau go iawn disgyblion amrywio yn ôl amgylchiadau unigol, a byddai'r amrywiadau hyn yn cael eu rheoli trwy drefniadau derbyn, cludiant a chymorth

presennol.  Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn ymwybodol mai nad yr ysgol arfaethedig fydd dewis y rhieni o bosibl, gan ei fod wedi derbyn nifer o ymholiadau ynghylch lleoedd posibl mewn ysgolion eraill.

Ar ôl ystyried y pryderon a godwyd, mae'r Awdurdod Lleol yn fodlon bod Ysgol y Dderwen yn ysgol dderbyn addas o'i hystyried yn erbyn gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), a byddai mesurau priodol yn cael eu rhoi ar waith i reoli capasiti, pontio a chymorth i ddisgyblion pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu.

| **Pennawd Thematig:** Barn am Ysgolion Bach a Phrofiad Addysgol | **Nifer yr Ymatebion**<br>**Canran** | **10**<br>**12.66%** |
|---|---|---|

**Crynodeb o'r Ymatebion:** Mynegodd rhai ymatebwyr y farn fod ysgolion llai yn darparu profiad addysgol gwell i ddisgyblion nag ysgolion mwy o faint. Yn ôl rhai o'r ymgyngoreion, gall ysgolion llai gynnig monitro agosach o'r disgyblion, perthnasoedd cryfach rhwng staff a dysgwyr, a dealltwriaeth fanylach o anghenion unigol. Awgrymwyd bod y ffactorau hyn o fudd penodol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, gan fod staff yn gallu rhoi sylw a chymorth mwy personol iddynt. Nododd yr ymatebwyr hefyd fod maint a chyd-destun gwledig Ysgol y Fro yn cynnig amgylchedd addysgol unigryw nad oedd modd ei ail-greu mewn ysgol fwy yn y dref. Yn ogystal, gwnaed sylwadau ynglŷn â'r defnydd o'r Gymraeg, gyda'r ymatebwyr yn awgrymu bod ysgolion llai yn cefnogi defnydd mwy cyson a naturiol o'r Gymraeg ym mhob lleoliad, tra bo'r Saesneg yn fwy amlwg mewn ysgolion mwy o faint.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y sylwadau hyn a'r cryfderau sy'n aml yn gysylltiedig ag ysgolion llai, gan gynnwys perthnasoedd cryf, naws gymunedol glos ac amgylchedd meithringar ar gyfer rhai dysgwyr. Derbynnir y gall lleoliadau ysgol llai roi profiadau addysgol cadarnhaol i ddisgyblion penodol, yn enwedig rhai y mae cysondeb a phethau sy'n gyfarwydd yn bwysig iddynt.

Rhaid i'r Awdurdod Lleol ystyried y buddion hyn ochr yn ochr â'i gyfrifoldebau statudol o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth addysg yn gynaliadwy, yn cynnig ehangder a chydbwysedd addas o gyfleoedd dysgu, ac yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau cyhoeddus. Er y gall ysgolion llai gynnig amgylchedd personol, gallant hefyd wynebu heriau sylfaenol, yn enwedig lle mae nifer y disgyblion yn isel iawn. Gall yr heriau hyn gynnwys

capasiti staffio cyfyngedig, ehangder cwricwlwm cyfyngedig, llai o gyfleoedd i ryngweithio â chyfoedion o fewn yr un grŵp oedran, a mwy o anhawster o ran cadw arweinyddiaeth a chefnogaeth arbenigol.

Mewn perthynas ag anghenion dysgu ychwanegol, mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod rhai disgyblion ar eu hennill o fod mewn amgylcheddau llai. Fodd bynnag, gall ysgolion mwy fel Ysgol y Dderwen hefyd gynnig manteision, gan gynnwys mynediad at ystod ehangach o staff arbenigol, arweinyddiaeth ADY benodol, systemau cymorth mwy strwythuredig, a mwy o hyblygrwydd wrth gyflawni ymyriadau wedi'u targedu. Mae addasrwydd unrhyw leoliad ysgol yn dibynnu ar anghenion unigol disgyblion, ac nid oes unrhyw fodel unigol cyffredinol sy'n cael ei ystyried yn un gwell i'r holl ddysgwyr.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg ac yn cydnabod bod Ysgol y Fro yn darparu amgylchedd cyfrwng Cymraeg cryf mewn cyd-destun gwledig. Ar yr un pryd, mae'r ysgol dderbyn arfaethedig hefyd yn ysgol cyfrwng Cymraeg o fewn yr un categori iaith, sydd â threfniadau sefydledig i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn addysgu ac mewn bywyd ysgol o ddydd i ddydd. Gall Ysgol y Dderwen ddarparu cyfleoedd ychwanegol i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg ar draws ystod ehangach o gyd-destunau cymdeithasol, allgyrsiol a diwylliannol.

Wrth ddod i'r penderfyniad hwn, nid yw'r Awdurdod Lleol wedi diystyru nodweddion cadarnhaol ysgolion bach. Yn hytrach, mae wedi gorfod pwyso a mesur y rhain yn erbyn ystyriaethau ehangach, gan gynnwys cynaliadwyedd hirdymor, gwydnwch addysgol, niferoedd disgyblion, hyfywedd ariannol a'r gallu i wella'n gyson dros amser. Mae'r ffactorau hyn yn hynod berthnasol lle bo gan ysgol nifer fach iawn ar y gofrestr a lle bo'r ysgol yn wynebu heriau strwythurol sylweddol.

Ar ôl ystyried y safbwyntiau a fynegwyd, mae'r Awdurdod Lleol dal yn fodlon, er y gall ysgolion bach gynnig manteision penodol i rai disgyblion, fod yn rhaid cydbwyso'r rhain yn erbyn yr angen i sicrhau darpariaeth addysg gynaliadwy o ansawdd da i bob dysgwr. Cynhaliwyd yr asesiad hwn yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) ac mae wedi llywio'r modd mae'r cynnig wedi cael ei ystyried yn gyffredinol.

| **Pennawd Thematig:** Pryderon am y dyddiad trosglwyddo | **Nifer yr Ymatebion**<br><br>**Canran** | **2**<br><br>**2.53%** |
|---|---|---|

**Crynodeb o'r Ymatebion:** Cododd rhai ymatebwyr bryderon ynglŷn â'r dyddiad trosglwyddo arfaethedig ym mis Ionawr 2027, gan nodi y gallai symud ar ganol blwyddyn academaidd

| | | | |
|---|---|---|---|
| amharu ar lesiant, dysgu a diogelwch emosiynol disgyblion. Roedd rhai ymgyngoreion yn credu y gallai trosglwyddo i ysgol newydd hanner ffordd drwy'r flwyddyn fod yn anymarferol i deuluoedd ac ysgolion, a gallai fod yn heriol iawn i ddisgyblion iau neu'r rhai sy'n gweld newid yn anodd. Awgrymodd nifer o ymatebwyr, pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, y byddai dyddiad trosglwyddo ym mis Medi yn fwy priodol a theg, gan ganiatáu i ddisgyblion symud ar ddechrau blwyddyn academaidd, fel eu cyfoedion. | | | |
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol**<br><br>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y pryderon a godwyd a bod trosglwyddo yn ddigwyddiad sydd o bwys mawr i blant a theuluoedd. Byddai angen amseru unrhyw drosglwyddo gan roi ystyriaeth i barhad addysgol, llesiant disgyblion, ac elfennau ymarferol ar gyfer yr ysgolion dan sylw a'r teuluoedd yr effeithir arnynt. Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) yn caniatáu hyblygrwydd o ran trefniadau gweithredu lle caiff cynigion eu cymeradwyo, ac nid yw'n ofynnol yn statudol i drosglwyddiadau ddigwydd ar adeg benodol yn y flwyddyn academaidd.<br><br>Cafodd y dyddiad trosglwyddo dangosol o Ionawr 2027 ei gynnwys yn y ddogfen ymgynghori i gyd-fynd â'r dyddiad cau arfaethedig ar 31 Rhagfyr 2026 ac i roi eglurder at ddibenion cynllunio pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo. Mae cynnwys dyddiad trosglwyddo canol blwyddyn yn adlewyrchu awydd i leihau ansicrwydd hirdymor i ddisgyblion a staff yn dilyn penderfyniad, ac i osgoi ymestyn cyfnod trosglwyddo dros fwy nag un tymor. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod na fydd trosglwyddo yn Ionawr yn addas i bob dysgwr, a bod angen ystyried yr effaith ar unigolion.<br><br>Os cymeradwyir symud y cynnig ymlaen i'r cam Hysbysiad Statudol, bydd angen i'r Cabinet edrych ar yr amser mwyaf addas i drosglwyddo fel rhan o'r cam cynllunio gweithredu, gan ystyried yr adborth o'r ymgynghori, llesiant disgyblion, parhad y cwricwlwm ac ymarferoldeb gweithredol. Byddai hyn yn cynnwys ystyried a allai trosglwyddo ym Medi 2027 fod yn fwy ffafriol. | | | |
| **Pennawd Thematig:** Cefnogaeth gyffredinol dros gau | **Nifer yr Ymatebion**<br><br>**Canran** | **4**<br><br>**5.06%** | |
| **Crynodeb o'r Ymatebion:** Nid yw ysgolion yn gyfrifol am gynnal bywiogrwydd cymunedau, gellid defnyddio arbedion / adnoddau ariannol i gyflogi rhagor o athrawon, ni all ysgolion â dau | | | |

athro gynnig yr un ystod o brofiadau addysgol ag ysgolion mwy o faint, mae cymunedau eraill wedi addasu a ffynnu ar ôl i'r ysgol gau e.e. Hermon yn Sir Benfro.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod sawl ymateb wedi dod i law a oedd yn cefnogi'r cynnig i gau Ysgol y Fro. Mynegodd yr ymatebwyr hyn y farn y byddai'r cynnig yn cefnogi darparu addysg fwy cynaliadwy o ansawdd da, ac yn galluogi defnyddio adnoddau cyhoeddus yn fwy effeithiol ar draws y system ysgolion.

Roedd y sylwadau cefnogol yn cydnabod pwysigrwydd canolbwyntio ar ansawdd addysgol, cynaliadwyedd a gwerth am arian, ac yn nodi y gallai ysgolion mwy fod mewn sefyllfa well i gynnig ystod ehangach o brofiadau dysgu a chyfleoedd i ddisgyblion. Hefyd dywedodd rhai ymatebwyr y gallai cymunedau addasu dros amser ar ôl i ysgolion gau, ac nad oedd bywiogrwydd cymunedol yn dibynnu'n llwyr ar yr ysgol leol.

Mae'r safbwyntiau hyn wedi'u nodi a'u hystyried ochr yn ochr ag ymatebion sy'n mynegi pryderon am y cynnig. Bydd yr holl adborth a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori yn llywio asesiad yr Awdurdod Lleol o'r cynnig a'r broses benderfynu ddilynol, yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018).

| | | |
|---|---|---|
| **Pennawd Thematig:** Effaith ar rieni / teuluoedd / gwarcheidwaid | **Nifer yr Ymatebion**<br>**Canran** | **7**<br>**8.86%** |

**Crynodeb o'r Ymatebion:** Cododd ymatebwyr bryderon ynghylch effaith bosibl y cynnig ar deuluoedd â phlant sy'n mynychu Ysgol y Fro ar hyn o bryd. Ymhlith y materion a nodwyd oedd pellteroedd teithio hirach i'r ysgol dderbyn arfaethedig, tarfu ar waith rhieni a threfniadau teithio, a phryderon am y pwysau ariannol cynyddol oedd yn gysylltiedig â theithio ychwanegol. Mynegodd rhai rhieni hefyd y farn y gallai'r newidiadau arfaethedig gael effaith negyddol ar lesiant eu plant, gan deimlo byddai'n rhaid iddynt ystyried addysg ddewisol yn y cartref pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y pryderon hyn a bod newidiadau i ddarpariaeth ysgol yn gallu cael effaith sylweddol ar drefniadau dyddiol teuluoedd, ymrwymiadau gwaith a threfniadau gofal plant. Mae llesiant disgyblion a'r effaith ymarferol ar deuluoedd yn ystyriaethau pwysig o fewn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), ac mae'r materion hyn wedi'u hystyried fel rhan o'r asesiad cyffredinol o'r cynnig.

Mewn perthynas â theithio, mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y byddai disgyblion sy'n trosglwyddo i'r ysgol dderbyn arfaethedig yn wynebu teithiau hirach nag ar hyn o bryd. Byddai cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol yn cael ei ddarparu i ddisgyblion sy'n bodloni'r meini prawf yn unol â Pholisi Cludiant yr Awdurdod. Cydnabyddir y gallai fod angen i rai rhieni wneud trefniadau ychwanegol ar gyfer plant nad ydynt yn gymwys i gael cludiant am ddim, a gallai hyn arwain at ragor o amser a chostau ariannol. Mae'r effeithiau hyn wedi'u cydnabod yn y ddogfennaeth ymgynghori.

Mae'r Awdurdod hefyd yn gwybod y gall newidiadau i leoliad ysgol effeithio ar batrymau gwaith rhieni ac arferion dyddiol. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'r Awdurdod Lleol yn ceisio cefnogi teuluoedd trwy gyfathrebu clir a chynllunio trosglwyddo, a byddai'n gweithio gyda'r ysgol dderbyn i helpu disgyblion i addasu lle bo hynny'n briodol. Byddai trefniadau trosglwyddo yn dibynnu ar anghenion unigol disgyblion ac yn ystyried llesiant.

Dywedodd rhai rhieni y byddent yn ystyried addysg ddewisol yn y cartref o ganlyniad i'r cynnig. Mae'r Awdurdod Lleol yn parchu hawl rhieni i ddewis sut mae eu plentyn yn cael ei addysgu, ac mae prosesau statudol ar waith i gefnogi a monitro addysg ddewisol yn y cartref lle bo hynny'n digwydd. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod yn parhau i hyrwyddo cynhwysiant mewn ysgolion a gynhelir ac nid yw'n credu y byddai'r cynnig yn dileu mynediad at ddarpariaeth addysg addas i ddisgyblion, yn enwedig gan y byddai disgyblion yn parhau i gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg trwy ysgolion a gynhelir yn yr ardal leol.

Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn dymuno egluro, er bod Ysgol y Dderwen wedi'i nodi fel yr ysgol dderbyn arfaethedig at ddibenion cynllunio, fod rhieni'n cadw'r hawl statudol i ffafrio unrhyw ysgol a gynhelir, yn unol â'r Cod Derbyn i Ysgolion. Os bydd y cynnig yn cael ei weithredu, efallai y bydd teuluoedd am ystyried ysgolion addas eraill yn yr ardal leol lle mae lleoedd ar gael ac sy'n gweddu'n well ym marn y teuluoedd i'w hamgylchiadau unigol. Nid yw nodi ysgol dderbyn arfaethedig yn cyfyngu ar ddewis rhieni, ac felly gall gwir symudiadau'r disgyblion amrywio, ac mae hyn wedi'i gydnabod yn yr asesiad o'r effeithiau posibl.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod na fydd yr effeithiau a ddisgrifir yn dod i ran yr holl deuluoedd i'r un graddau a bod amgylchiadau unigol yn amrywio. Mae'r effeithiau hyn wedi'u pwyso a'u mesur ochr yn ochr ag ansawdd addysgol, cynaliadwyedd, ystyriaethau ariannol ac effeithiau cymunedol ehangach. Ar ôl ystyried y farn a fynegwyd, mae'r Awdurdod Lleol yn fodlon bod yr effaith bosibl ar deuluoedd wedi ei nodi'n briodol a'i hystyried fel rhan o'r broses ymgynghori, yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018).

## 7. CANFYDDIADAU'R YMGYNGHORI Â'R DISGYBLION AC YMATEBION YR AWDURDOD LLEOL

Mae'r adran hon yn crynhoi barn disgyblion Ysgol y Fro ac Ysgol y Dderwen a gymerodd ran mewn gweithgarwch ymgynghori priodol i'w hoedran ynghylch y bwriad i gau Ysgol y Fro a symud y disgyblion i Ysgol y Dderwen. Mae'r dadansoddiad yn adlewyrchu'r themâu a godwyd gan ddisgyblion yn y ddwy ysgol, ac yn cyflwyno ymatebion strwythuredig gan yr Awdurdod Lleol i bob categori o faterion. Ceir manylion am ymatebion y disgyblion yn Atodiad C.

**Dull Ymgynghori ar gyfer Ymgysylltu â'r Disgyblion**

Aethpwyd ati i ymgysylltu â'r disgyblion yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018, er mwyn sicrhau bod yr ymgynghori â'r dysgwyr yn digwydd mewn ffyrdd oedd yn briodol i'w hoedran a'u dealltwriaeth.

**Ysgol y Fro:** Casglwyd pedwar ymateb unigol ac ymateb grŵp gan aelodau'r Cyngor Ysgol drwy'r arolwg ar-lein.

**Ysgol y Dderwen:** Trefnodd yr Awdurdod Lleol a'r ysgol sesiwn strwythuredig gydag wyth disgybl Blwyddyn 5–6 (cynrychiolwyr y cyngor ysgol).

Roedd y dulliau yn caniatáu i ddisgyblion fynegi eu teimladau, eu pryderon a'u syniadau.

**Crynodeb o Ymatebion y Disgyblion**

Ar draws y ddwy ysgol, mynegi cyfuniad o bryderon wnaeth y disgyblion yn bennaf, gyda rhai disgwyliadau cadarnhaol a cheisiadau am gymorth.

Roedd y canlynol ymhlith y prif themâu:

- Ymatebion emosiynol i'r bwriad i gau
- Pryderon am ffrindiau a pherthnasoedd
- Cysylltiad ag athrawon
- Addasu i amgylchedd ysgol mwy o faint
- Pryderon am ymddygiad a deinameg gymdeithasol
- Effeithiau yn ymwneud ag adnoddau, gweithgareddau a lle
- Colli hunaniaeth ac amgylchedd lleol (Ysgol y Fro)
- Pryderon am deithio a hygyrchedd (Ysgol y Fro)
- Disgwyliadau cadarnhaol ynghylch gwneud ffrindiau newydd a rhagor o weithgareddau

**Dadansoddiad Thematig**

Cyflwynir themâu ar wahân i bob ysgol.

**Themâu a godwyd gan ddisgyblion Ysgol y Fro**

| | |
|---|---|
| **Trallod Emosiynol a Gwrthwynebu'r Cau**<br>Mynegodd disgyblion dristwch, pryder a rhwystredigaeth am y posibilrwydd byddai'r ysgol yn cau. | **Ofni Colli Ffrindiau ac Oedolion Cyfarwydd**<br>Un o'r pryderon mwyaf oedd y posibilrwydd o golli grwpiau o ffrindiau a cholli athrawon cyfarwydd. |
| **Ofni'r Anghyfarwydd mewn Ysgol Fwy**<br>Cododd y disgyblion faterion megis cael trafferth ymdopi yn yr ysgol newydd, adeiladau mwy o faint yn eu drysu, ac ansicrwydd am arferion dyddiol. | **Pryderon am Ymddygiad a Pherthynas â Chyfoedion**<br>Roedd rhai disgyblion yn poeni am gwrdd â phlant oedd yn ddieithr iddynt neu ddod ar draws ymddygiad negyddol. |
| **Cysylltiad â'r Amgylchedd Ysgol Presennol a'r Gymuned** | **Colli Gwaith, Prosiectau ac Eitemau Personol** |

| | |
|---|---|
| Pwysleisiodd y disgyblion pa mor werthfawr oedd cael lleoliad mewn pentref, y llecynnau awyr agored, a'r profiadau dysgu lleol. | Roedd rhai disgyblion yn ofni na fyddai gwaith neu brosiectau personol yn cael eu trosglwyddo yn ystod y symud. |
| **Pryderon am Deithio a Hygyrchedd**<br>Roedd y disgyblion yn sylweddoli na fyddai cerdded i'r ysgol newydd yn bosibl, a soniwyd am bryderon ynghylch teithio. | **Disgwyliadau Cadarnhaol**<br>Roedd nifer fach o'r ymatebion yn crybwyll manteision posibl fel rhagor o blant i chwarae gyda nhw neu ragor o weithgareddau. |

**Themâu a godwyd gan ddisgyblion Ysgol y Dderwen**

| | |
|---|---|
| **Teimladau Cadarnhaol a Rhagweld Manteision Cymdeithasol**<br>Roedd y disgyblion yn gyffrous, hapus a chwilfrydig am groesawu cyfoedion newydd a chryfhau cyfleoedd cymdeithasol. | **Pryderon Emosiynol am y Newid**<br>Roedd rhai disgyblion yn teimlo'n ansicr neu'n bryderus am lesiant y disgyblion oedd yn symud o Ysgol y Fro. |
| **Pryderon am Adnoddau a Chyfleoedd**<br>Roedd nifer fach o ddisgyblion yn poeni y gallai cynnydd yn nifer y disgyblion leihau mynediad at weithgareddau, lle neu adnoddau. | **Ymddygiad ac Integreiddio Cymdeithasol**<br>Mynegwyd rhai pryderon y gallai disgyblion newydd fod yn annymunol neu y gallai grwpiau cymdeithasol gymryd amser i setlo. |
| **Strategaethau Cymorth a Awgrymwyd gan Ddisgyblion** | **Effaith Emosiynol ar yr Ysgol Ehangach** |

| | |
|---|---|
| Awgrymodd y disgyblion fesurau cymorth fel systemau cyfeillio, teithiau o gwmpas yr ysgol, a gweithgareddau ymgyfarwyddo. | Roedd y disgyblion yn annog oedolion i ystyried effaith emosiynol y newid ar bob plentyn dan sylw. |

**Ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Themâu (Ar gyfer y Ddwy Ysgol)**

Isod ceir ymatebion cyfunol i bob categori thema, sy'n cwmpasu disgyblion Ysgol y Fro ac Ysgol y Dderwen.

**Categori Thema 1 — Effaith Emosiynol**

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod newid yn gallu achosi i ddisgyblion deimlo'n drist, yn bryderus ac yn ansicr. Mae'r sylwadau hyn wedi cael eu hystyried yn unol â'r canllawiau statudol. Bydd trefniadau pontio cadarn yn cael eu gweithredu i gefnogi llesiant disgyblion cyn y newid, yn ystod y newid, ac ar ôl y newid os caiff ei weithredu.

**Categori Thema 2 — Ffrindiau a Pherthnasoedd**

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y pryderon am golli ffrindiau neu addasu i grwpiau cymdeithasol newydd. Mae'r cynnig yn caniatáu i garfan lawn Ysgol y Fro drosglwyddo gyda'i gilydd, gan helpu i gadw perthnasoedd presennol. Fodd bynnag gall dewis rhieni olygu bydd rhai disgyblion yn symud i ysgolion eraill. Byddai cymorth fel gweithgareddau strwythuredig yn yr ysgol dderbyn yn helpu i ddatblygu cyfeillgarwch o'r newydd.

**Categori Thema 3 — Staff Cyfarwydd a Pharhad**

Mae pryderon am golli athrawon cyfarwydd yn ddealladwy. Er na ellir gwarantu staffio ar draws ysgolion, bydd cymorth yn cael ei roi i ddisgyblion feithrin perthynas â staff Ysgol y Dderwen os caiff y cynigion eu gweithredu ac os byddant yn dewis trosglwyddo. Bydd cyfleoedd i gwrdd â staff ymlaen llaw yn cael eu cynnwys yn y rhaglen bontio ar gyfer disgyblion sy'n dymuno symud i Ysgol y Dderwen ac unrhyw ysgol arall.

**Categori Thema 4 — Amgylchedd Ysgol Mwy ac Arferion**

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y pryderon am ymdopi â lleoliad ysgol mwy o faint. Mae Ysgol y Dderwen yn darparu amgylchedd strwythuredig a chefnogol a bydd y cynlluniau pontio yn cynnwys teithiau o gwmpas yr ysgol, gweithgareddau ymgyfarwyddo ac arweiniad gweledol i helpu disgyblion i setlo.

**Categori Thema 5 — Ymddygiad, Diogelwch ac Integreiddio Cymdeithasol**

Nodwyd y pryderon ynglŷn â dod ar draws ymddygiad annymunol. Dengys tystiolaeth fod safonau bugeiliol ac ymddygiadol cryf yn yr ysgol dderbyn. Os caiff y cynigion eu gweithredu, bydd staff yn monitro'n ofalus sut mae disgyblion yn integreiddio yn ystod y pontio a'r misoedd dilynol. Byddai cymorth fel gweithgareddau strwythuredig yn yr ysgol dderbyn yn helpu i ddatblygu cyfeillgarwch o'r newydd. Bydd cyfathrebu agored, tryloyw a pharhaus rhwng y staff ysgol a'r rhieni os gweithredir y cynigion.

**Categori Thema 6 — Adnoddau, Gweithgareddau a Mynediad at Gyfleoedd**

Mae'r Awdurdod yn fodlon y gall Ysgol y Dderwen ddarparu ar gyfer y disgyblion fydd yn dod i mewn heb leihau mynediad at adnoddau neu weithgareddau. Yn ymarferol, mae disgyblion yn debygol o gael ystod ehangach o gyfleoedd allgyrsiol a chymdeithasol.

**Categori Thema 7 — Colli'r Amgylchedd Lleol a Hunaniaeth Gymunedol**

Mae'r Awdurdod yn sylweddoli y gallai symud o ysgol bentref wledig arwain at golli cysylltiad lleol yn achos rhai disgyblion. Serch hynny, mae hefyd yn cydnabod bod hunaniaeth gymunedol yn cael ei chreu a'i chynnal drwy amryw rwydweithiau a sefydliadau cymunedol ehangach, y tu hwnt i gatiau'r ysgol. Mae grwpiau fel y Ffermwyr Ifanc, Urdd Gobaith Cymru a sefydliadau diwylliannol, chwaraeon ac ieuenctid lleol eraill yn bwysig iawn o ran cynnal cysylltiadau cymunedol, hyrwyddo'r Gymraeg, a chefnogi synnwyr cryf o berthyn i'r ardal leol ymysg plant a phobl ifanc. Mae'r Awdurdod yn disgwyl y bydd y disgyblion yn parhau i ymwneud â'r grwpiau cymunedol hyn, ta ble byddant yn mynd i'r ysgol. Yn ogystal, mae'r ysgol dderbyn yn cynnig cyfleoedd dysgu a chyfoethogi amgen yn yr awyr agored, a bydd profiadau cymunedol yn parhau i gael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi.

**Categori Thema 8 — Teithio a Hygyrchedd**

Mae pryderon am deithio wedi cael eu hystyried. Nid yw cerdded i'r ysgol dderbyn yn ymarferol a darperir cludiant am ddim lle bo'r disgyblion yn gymwys. Mae amseroedd teithio o fewn yr hyn sy'n cael ei ystyried yn dderbyniol, a bydd disgyblion yn derbyn gwybodaeth glir am drefniadau teithio yn unol â Pholisi Cludiant Ysgol yr Awdurdod.

**Categori Thema 9 — Cadw Gwaith y Disgyblion ac Eitemau Personol**

Bydd trefniadau'n cael eu gwneud i sicrhau bod gwaith a phrosiectau personol ystyrlon gan ddisgyblion yn cael eu trosglwyddo neu eu dychwelyd i'r disgyblion cyn i'r ysgol gau, os gweithredir y cynigion.

**Categori Thema 10 — Disgwyliadau Cadarnhaol**

Mae'r Awdurdod yn croesawu disgwyliadau cadarnhaol gan y ddwy ysgol ynghylch ffrindiau newydd, chwaraeon, clybiau a phrofiadau dysgu. Mae'r rhain yn adlewyrchu'r manteision gwirioneddol sy'n gysylltiedig ag ymuno â chymuned ysgol fwy.

**Crynodeb**

Mynegodd disgyblion y ddwy ysgol gyfuniad o bryderon a disgwyliadau cadarnhaol. Mae'r Awdurdod wedi ystyried yn ofalus yr holl themâu a godwyd, ac wedi ymrwymo i gryfhau cymorth pontio, cyfathrebu, a threfniadau bugeiliol er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn cael cefnogaeth dda os aiff y cynigion rhagddynt.

Byddai Cynllun Pontio manwl yn cael ei lunio ar y cyd ag Ysgol y Fro ac unrhyw ysgolion eraill y gallai disgyblion fod yn trosglwyddo iddynt. Byddai'r Cynllun yn cael ei rannu ymhlith disgyblion a theuluoedd os gweithredir y cynnig.

## 8. YMATEB ESTYN

Mae ymateb Estyn yn cynnwys tri safbwynt gwerthusol penodol. Mae Estyn yn dod i'r casgliad bod y cynnig yn debygol o gynnal safonau addysg, yn nodi'r effaith andwyol bosibl ar fynediad at ddarpariaeth cofleidiol oherwydd y trefniadau teithio gofynnol, ac yn pwysleisio pwysigrwydd lliniaru amserol i ddiogelu ansawdd addysgol os bydd nifer y disgyblion yn yr ysgol dderbyn dros y capasiti am gyfnod dros dro. Mae'r

Awdurdod wedi ystyried y sylwadau hyn yn ofalus a bydd yn cymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018).

Mae themâu allweddol ymateb Estyn yn cael eu crynhoi yn y tablau sy'n dilyn. Mae ymateb llawn Estyn wedi'i gynnwys yn Atodiad A.

| |
|---|
| **Pennawd Thematig:** Y Cynnig yn debygol o gynnal safonau addysgol |
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol**<br><br>Mae'r Awdurdod yn croesawu safbwynt Estyn fod y cynnig yn debygol o gynnal safonau addysgol ar gyfer disgyblion yn yr ardal. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i sicrhau parhad darpariaeth o ansawdd da drwy gydol y cyfnod pontio a thu hwnt os caiff y cynigion eu gweithredu. |
| **Pennawd Thematig:** Gall trefniadau teithio gyfyngu ar fynediad i glybiau brecwast a chlybiau ar ôl ysgol. |
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol**<br><br>Mae'r Awdurdod yn cydnabod pryder Estyn y gall trefniadau teithio gyfyngu ar allu rhai disgyblion i gael mynediad at weithgareddau cyn i'r ysgol ddechrau ac ar ôl ysgol. Bydd yr Awdurdod yn ystyried mesurau lliniaru ymarferol, gan gynnwys adolygu amserlenni cludiant ac edrych ar opsiynau i wella mynediad at ddarpariaeth gofleidiol. |
| **Pennawd Thematig:** Angen lliniaru amserol os yw niferoedd yr ysgol dderbyn yn fwy na'r capasiti |
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol**<br><br>Mae'r Awdurdod yn nodi safbwynt Estyn ynglŷn â phwysigrwydd lliniaru amserol os bydd gwasgfeydd o ran capasiti. Er nad yw addasiadau i'r ysgol dderbyn yn cael eu hystyried yn angenrheidiol ar hyn o bryd, bydd unrhyw addasiadau sydd eu hangen yn y dyfodol yn cael eu rheoli'n rhagweithiol i sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar addysgu, dysgu neu brofiad disgyblion yn Ysgol y Dderwen. Mae'r awdurdod lleol |

yn cydnabod ac yn parchu hawl rhieni i ddewis ysgol arall, a allai olygu bydd disgyblion yn mynychu ysgolion eraill, heb drosglwyddo fel carfan gyfan.

## 9. OPSIYNAU ERAILL

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cyflwynwyd ystod eang o opsiynau ac awgrymiadau eraill gan ymgyngoreion. Cafodd yr holl sylwadau eu hystyried yn ofalus yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion, sy'n nodi bod yn rhaid i'r Awdurdod Lleol ystyried dewisiadau rhesymol eraill yn hytrach na chau, ac asesu a fyddai dewisiadau eraill o'r fath yn mynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd yn y cynnig.

Roedd llawer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn ailadrodd neu'n ymhelaethu ar yr opsiynau eraill oedd eisoes wedi'u hasesu a'u cyhoeddi yn y ddogfen ymgynghori. Roedd y rhain yn cynnwys cynigion i gadw'r *status quo* gyda chefnogaeth ychwanegol, newid ystod oedran yr ysgol, ffedereiddio neu gydweithio ag ysgolion eraill, sefydlu trefniadau aml-safle neu safle cysylltiedig, a gwneud defnydd mwy llawn o'r adeilad ysgol fel adnodd cymunedol neu addysgol. Roedd pob un o'r opsiynau hyn yn destun asesiad manwl, a oedd yn cynnwys dadansoddiad SWOT, ac nid yw'r rhesymau dros eu diystyru wedi newid.

Yn ogystal, awgrym nifer o ymgyngoreion oedd y gallai ffederasiwn neu gydweithio ag ysgolion eraill hwyluso datblygu model ysgol wledig, lle byddai Ysgol y Fro yn ganolfan arbenigol ar gyfer dysgu cefn gwlad, dysgu amaethyddol neu ddysgu gwledig. Awgrymwyd y gallai disgyblion o ysgolion mwy mewn trefi fynychu Ysgol y Fro ar gyfer lleoliadau tymor byr, ar gyfer mynd ar secondiad neu ar gyfer gweithgareddau allgymorth, gan eu galluogi i elwa ar leoliad gwledig a chysylltiadau cymunedol yr ysgol tra'n cadw eu prif leoliad ysgol yn rhywle arall.

Ystyriwyd y cysyniad hwn fel rhan o asesiad yr Awdurdod Lleol o’r trefniadau ffedereiddio, cydweithio, allgymorth ac aml-safle, ac ymdrinnir â phob un ohonynt yn benodol yn y ddogfen ymgynghori. Er bod yr Awdurdod Lleol yn cydnabod gwerth addysgol dysgu yn yr awyr agored, profiadau addysg wledig a chydweithio traws-ysgol, ni fyddai'r model hwn yn ddewis arall realistig na chynaliadwy i'r cau. Ni fyddai trefniadau o'r fath yn creu poblogaeth graidd sefydlog o ddisgyblion yn Ysgol y Fro, ni fyddent yn lleihau nifer y lleoedd gwag yn sylweddol, ac ni fyddent yn mynd i'r

afael â diffyg anghynaliadwy yr ysgol o ran ei chyllideb na'r gost uchel fesul disgybl. Ar ben hynny, ni fyddai darpariaeth tymor byr neu allgymorth yn datrys yr heriau arweinyddiaeth, capasiti staffio a chyflawni'r cwricwlwm a nodwyd gan Estyn, ac ni fyddai ychwaith yn cyfiawnhau costau gweithredol parhaus cynnal yr ysgol yn barhaol.

Roedd nifer o awgrymiadau eraill a godwyd drwy'r ymgynghori yn ymwneud â mesurau gweithredol neu alluogi, megis penodi pennaeth parhaol, cyflwyno cynlluniau adfer strwythuredig, hyrwyddo'r ysgol yn fwy i deuluoedd lleol, neu addasu trefniadau cludiant i ddenu disgyblion ychwanegol. Er bod y sylwadau hyn yn cael eu nodi a'u gwerthfawrogi, nid ydynt yn ddewisiadau eraill strwythurol i'r cau o fewn cwmpas y broses trefnu ysgolion statudol. Hyd yn oed pe baent yn cael eu gweithredu, ni fyddai mesurau o'r fath yn mynd i'r afael â'r heriau sylfaenol sy'n wynebu'r ysgol, megis niferoedd isel y disgyblion, nifer fawr o leoedd gwag, diffyg cynyddol o ran y gyllideb, a phryderon am addasrwydd yr adeilad.

Un opsiwn ychwanegol a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad oedd newid Ysgol y Fro i fod yn Ysgol Wirfoddol a Reolir (yr Eglwys yng Nghymru), o bosibl fel rhan o drefniant ffederal. Mae'r opsiwn hwn wedi'i asesu'n benodol yn dilyn yr ymgynghoriad. Er y gallai gadw darpariaeth o fewn y gymuned a chyflwyno trefniadau llywodraethu amgen, ni fyddai'n mynd i'r afael â'r prif heriau a nodwyd yn y cynnig, gan gynnwys nifer isel y disgyblion, nifer fawr o leoedd gwag, cynaliadwyedd ariannol, a'r materion ansawdd ac arweinyddiaeth y tynnwyd sylw atynt yn arolygiad diweddar Estyn. Am y rhesymau hyn, mae'r opsiwn hwn wedi'i ddiystyru.

I grynhoi, mae'r Awdurdod Lleol yn fodlon bod yr holl ddewisiadau eraill sy'n rhesymol yn hytrach na chau wedi'u nodi, eu hystyried a'u hasesu yn gymesurol. Er i ymgyngoreion gyflwyno ystod eang o syniadau sy'n adlewyrchu gwerth Ysgol y Fro a'i rôl yn y gymuned, ni fyddai dim un o'r opsiynau eraill yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r heriau addysgol, ariannol a gweithredol sy'n wynebu'r ysgol. O ganlyniad, yr opsiwn a ffefrir o hyd yw'r cynnig i gau Ysgol y Fro a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol y Dderwen.

## 10. AILASESIAD AR ÔL YR YMGYNGHORIAD MEWN PERTHYNAS Â STATWS YSGOL WLEDIG

Yn unol ag adran 1.8 ac adran 3.6 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), mae'r Awdurdod Lleol wedi cynnal ailasesiad pellach a phenodol o'r cynnig ers diwedd y cyfnod ymgynghori, gan roi sylw penodol i ddynodi Ysgol y Fro yn ysgol wledig a'r rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau. Mae'r adolygiad hwn wedi ystyried yn llawn yr holl sylwadau a ddaeth i law, gan gynnwys gwybodaeth newydd, gwybodaeth leol, ac awgrymiadau eraill a wnaed drwy ymgynghori.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ailedrych ar bob dewis arall rhesymol a nodwyd yn flaenorol yn hytrach na chau, gan gynnwys cadw'r *status quo*, newidiadau i ystod oedran, ffedereiddio neu gydweithio ag ysgolion eraill, trefniadau aml-safle neu allgymorth, a gwell defnydd cymunedol o adeilad yr ysgol. Ar gyfer pob dewis arall, mae'r Awdurdod wedi ailwerthuso'r effaith debygol ar (i) ansawdd a safonau addysg, (ii) y gymuned leol, a (iii) trefniadau teithio, gan ystyried adborth yr ymgynghoriad ochr yn ochr â'r farn broffesiynol ddiweddaraf.

Er bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad wedi atgyfnerthu cryfder y cysylltiad cymunedol â'r ysgol a gwerth diwylliannol ac ieithyddol ei phresenoldeb yn Llangyndeyrn, nid yw'r asesiad ar ôl yr ymgynghoriad wedi nodi tystiolaeth newydd na newid o bwys yn y dystiolaeth a fyddai'n newid gwerthusiad gwreiddiol yr Awdurdod o gynaliadwyedd addysgol, ariannol a sefydliadol yr ysgol yn y tymor hir. Yn benodol, nid oes unrhyw newid o ran y ffactorau mae'r cynnig wedi ei seilio arnynt, sef nifer gostyngol ac isel iawn y disgyblion, nifer fawr o leoedd gwag, diffyg cynyddol heb drwydded o ran y gyllideb, cyfyngiad ar gapasiti staff, a'r heriau o ran cynnal gwelliant a nodwyd drwy'r arolygiad.

Felly, ar ôl ystyried yn gydwybodol dystiolaeth yr ymgynghoriad a chynnal y broses graffu ychwanegol sy'n ofynnol ar gyfer cynigion ysgolion gwledig, mae'r Awdurdod wedi dod i'r casgliad na fyddai unrhyw un o'r opsiynau eraill a nodwyd yn datrys yn ddigonol yr heriau allweddol wyneba Ysgol y Fro mewn ffordd gynaliadwy. Mae'r Awdurdod yn fodlon mai'r cynnig i gau'r ysgol yw'r ymateb mwyaf priodol o hyd i'r heriau hynny, o bwyso a mesur y sefyllfa a'r effaith bosibl ar y gymuned a threfniadau teithio, a chyd-destun ehangach sicrhau addysg cyfrwng Cymraeg sy'n gydnerth ac o ansawdd da i ddysgwyr yn yr ardal.

## 11. NEWIDIADAU SY'N DEILLIO O'R YMGYNGHORI

Ar ôl pwyso a mesur yn ofalus yr holl sylwadau ddaeth i law yn ystod y cyfnod ymgynghori, gan gynnwys gwrthwynebiadau, cynigion eraill, ac awgrymiadau ar gyfer lliniaru, mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried a oes angen diwygio'r cynnig o gwbl.

Er bod yr adborth i'r ymgynghori wedi rhoi dealltwriaeth gliriach o'r effeithiau posibl ar y gymuned, dysgwyr a theuluoedd, nid oes tystiolaeth newydd neu dystiolaeth sy'n sylweddol wahanol wedi dod i'r fei a fyddai'n cyfiawnhau newid y cynnig craidd i gau Ysgol y Fro a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol y Dderwen.

O ganlyniad, nid oes unrhyw newidiadau i'r cynnig ei hun. Fodd bynnag, bydd y Cabinet yn ystyried y materion a godwyd drwy'r ymgynghoriad, gan gynnwys pryderon am y trefniadau trosglwyddo a'u hamseriad, cymorth i ddysgwyr agored i niwed, cludiant, a mynediad at ddarpariaeth gofleidiol. Os aiff y cynnig rhagddo, bydd y materion hyn yn llywio'r trefniadau cynllunio, lliniaru a gweithredu manwl a wneir i leihau'r effeithiau andwyol ac i gefnogi disgyblion, teuluoedd a staff.

## 12. CASGLIAD

I grynhoi, mae'r Awdurdod Lleol yn fodlon bod yr holl ddewisiadau eraill sy'n rhesymol yn hytrach na chau wedi'u nodi, eu hystyried a'u hasesu yn gymesurol. Er i ymgyngoreion gyflwyno ystod eang o syniadau sy'n adlewyrchu gwerth Ysgol y Fro a'i rôl yn y gymuned, ni fyddai dim un o'r opsiynau eraill yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r heriau addysgol, ariannol a gweithredol sy'n wynebu'r ysgol. O ganlyniad, yr opsiwn a ffefrir o hyd yw'r cynnig i gau Ysgol y Fro a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol y Dderwen.

Mae pob dyletswydd statudol wedi cael eu hystyried a'u cyflawni, gyda'r opsiwn ffafriol o gau yn cael ei werthuso yn erbyn yr holl opsiynau eraill.

## 13. ARGYMHELLIAD

Ar ôl adolygu'r Adroddiad Ymgynghori ac ystyried yn gydwybodol yr holl sylwadau ddaeth i law, gan gynnwys y rhai gan rieni, disgyblion, staff, cyrff llywodraethu, Estyn a rhanddeiliaid eraill, argymhellir bod y Cabinet;

- yn nodi'r materion a godwyd drwy'r broses ymgynghori ac ymatebion yr Awdurdod Lleol i'r materion hynny;
- yn fodlon bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), gan gynnwys y gofynion gweithdrefnol ychwanegol sy'n berthnasol i gynigion sy'n effeithio ar ysgol wledig; ac
- yn cytuno, yn amodol ar ystyriaeth y Cabinet ei hun ac unrhyw addasiadau terfynol y mae'n ystyried eu bod yn briodol mewn perthynas â'r gweithredu, y dylid cyhoeddi Hysbysiad Statudol i gynnig cau Ysgol y Fro.

Byddai cyhoeddi Hysbysiad Statudol yn caniatáu i'r broses statudol symud yn ei blaen i'r cam nesaf, lle gellir gwneud sylwadau pellach yn y cyfnod gwrthwynebu, a'u hystyried cyn unrhyw benderfyniad terfynol.

## 14. Y CAMAU NESAF

Bydd y Cabinet yn cael yr Adroddiad Ymgynghori ac yn penderfynu a yw am gymeradwyo y cynnig i symud ymlaen i'r Hysbysiad Statudol ai peidio, neu ei gymeradwyo gyda diwygiadau. Bydd yr Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin o leiaf bythefnos cyn cyhoeddi Hysbysiad Statudol os yw'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen. Hysbysir yr holl ymgyngoreion y mae'n ofynnol rhoi gwybod iddynt fod yr adroddiad ar gael.

## 15. ATODIAD A – YMATEB ESTYN

Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru | For learners, for Wales

**Cyflwyniad**

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

**Crynodeb/Casgliad**

Mae Cyngor Sir Gâr yn ymgynghori ar y cynnig i gau Ysgol y Fro o 31 Rhagfyr 2026, gyda'r disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol y Dderwen o 1 Ionawr 2027.

Barn Estyn yw bod y cynnig hwn yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg a'r safonau ar gyfer disgyblion yn yr ardal. Fodd bynnag, gall y trefniadau teithio arfaethedig gyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol y Fro fynd i glybiau brecwast a gweithgareddau ar ôl ysgol yn Ysgol y Dderwen pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu.

**Disgrifiad a manteision**

Mae'r Cyngor wedi cynnig rhesymwaith clir ar gyfer yr ymgynghoriad. Maent wedi nodi fod ganddynt heriau yn ymwneud ag Ysgol y Fro i sicrhau darpariaeth addysgol effeithiol ac effeithlon. Mae'r rhain yn cynnwys:

1) Niferoedd isel o ddisgyblion
2) Nifer uchel o leoedd dros ben
3) Cyllideb yr ysgol
4) Ansawdd a safonau mewn addysg
5) Diffyg arweinyddiaeth sefydlog

Mae'r Cyngor wedi darparu disgrifiad pwrpasol o'r cynnig. Maent wedi cyflwyno gwybodaeth gefndirol effeithiol gydag amserlen gadarn ar gyfer cwblhau gweithdrefnau statudol pe bai'r awdurdod yn parhau gyda'r cynnig.

Mae'r Cyngor wedi nodi'n glir prif fanteision ac anfanteision disgwyliedig y cynnig, i gymharu â'r sefyllfa bresennol. Mae'r manteision yn cynnig gwella cyfleoedd a chyfleusterau i ddisgyblion, cynnig darpariaeth i ddisgyblion 3 oed a sicrhau effeithlonrwydd ariannol ar draws dwy ysgol. Mae'r Cyngor wedi cydnabod anfanteision y cynnig, sef yr effaith ar staffio, costau cludiant i'r Cyngor a'r effaith posibl ar wasanaethau lleol fel y cylch meithrin. Maent hefyd yn cadarnhau bydd siwrne teithio bellach i ddisgyblion wrth iddynt drosglwyddo ysgol. Mae unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynnig wedi amlygu ac mae'r Cyngor wedi cadarnhau sut y maen nhw am reoli'r risgiau yma'n briodol.

Mae'r Cyngor wedi ystyried ystod o opsiynau amgen dilys, sy'n cynnwys cadw'r trefniadau presennol, newid ystod oedran Ysgol y Fro i dderbyn disgyblion 3-11oed, ffederasiwn rhwng Ysgol y Fro ag Ysgol y Dderwen a chau Ysgol y Fro a throsglwyddo'r disgyblion i'r ysgol agosaf. Maent wedi llunio rhesymeg glir dros pam mae'r opsiynau wedi diystyru. Mae'r rhain yn cynnwys y ffaith ni fyddent yn mynd i'r afael ar niferoedd disgyblion isel, yn lleihau'r nifer o leoedd dros ben, na mynd i'r afael â materion mewn perthynas ag addasrwydd yr adeilad a'r diffyg yng nghyllideb yr ysgol.

Mae'r Cyngor wedi ystyried yn ofalus, effaith y newid ar drefniadau teithio. Mae'r cynllun yn nodi'r glir mae'n bosibl bydd disgyblion Ysgol y Fro angen teithio 6.2 milltir i Ysgol y Dderwen. Er hyn, bydd cludiant am ddim yn cael eu darparu fel rhan o bolisi cludiant y Cyngor. Mae'r Cyngor yn rhagweld cost o £50,000 y flwyddyn i gludo disgyblion. Mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth gadarn i effaith y cynllun ar lwybrau cerdded. Oherwydd y pellter, a diffyg llwybrau parhaus, diogel wedi ei oleuo'n dda, nid ydynt yn rhagweld bydd hi'n bosibl i ddisgyblion cerdded neu feicio i Ysgol y Dderwen. Yn ogystal, nodir bod Estyn o'r farn y gallai trefniadau cludiant arfaethedig gyfyngu ar fynediad rhai disgyblion o ddalgylch Ysgol y Fro at glybiau brecwast a gweithgareddau ar ôl ysgol yn Ysgol y Dderwen, er gwaethaf cryfder y ddarpariaeth honno.

Mae'r Cyngor wedi dangos yn briodol sut bydd lleoedd dros ben yn cael eu heffeithio. Yn bresennol mae gan Ysgol y Fro 61% o leoedd dros ben, sy'n lleihau i 41% erbyn 2030, ac mae gan Ysgol y Dderwen 0.8%. Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i addasu adeilad Ysgol y Dderwen i dderbyn mwy o ddisgyblion. Maent yn cydnabod hawliau rhieni i ddewis ysgol wahanol, sydd yn gwneud rhagfynegiadau cadarn yn anodd. Mae Estyn hefyd yn nodi bod y Cyngor wedi cydnabod y posibilrwydd y gallai capasiti Ysgol y Dderwen gael ei orbwyso dros dro mewn rhai grwpiau blwyddyn. Mae'n bwysig bod unrhyw fesurau lliniaru angenrheidiol yn cael eu gweithredu'n amserol er mwyn sicrhau nad oes effaith andwyol ar ansawdd y ddarpariaeth addysgol.

Mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad effaith ar y Gymraeg ynglŷn a'r cynnig. Maent nodi nad yw'r cynnig yn effeithio ar dargedau yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Cyngor gan fod y ddwy ysgol yn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Mae'r Cyngor wedi nodi'n addas arbedion posibl o'r cynnig. Maent yn amcangyfrif arbedion net o £57,594 bob blwyddyn.

**Agweddau addysgol ar y cynnig**

Mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth fanwl ar effaith y cynnig ar ansawdd a safonau dysgu disgyblion. Maent yn cyfeirio at wybodaeth o adroddiadau diweddaraf Estyn ble nodwyd pum argymhelliad i Ysgol y Fro yn 2025, a phedwar argymhelliad yn Ysgol y Dderwen ym Mawrth 2017. Yn dilyn arolygiad Ysgol y Fro, bu Estyn o'r farn bod angen mesurau arbennig mewn perthynas â'r ysgol hon. Mae'r Cyngor wedi nodi bydd symud i ysgol gyda charfan mwy o ddisgyblion yn sicrhau caiff disgyblion eu haddysgu mewn dosbarthiadau gyda cyfoedion o ystod oedran agosach. Nodir y bydd mynediad at adnoddau gwell yn ogystal ag amrywiaeth o weithgareddau addysgol ac allgyrsiol o ganlyniad i'r symud.

Mae'r ymgynghoriad wedi ystyried effaith y cynnig ar safonau a chynnydd, lles ac agweddau at ddysgu, profiadau dysgu ac addysgu, ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae'r Cyngor yn nodi'n glir nid yw'r cynllun yn debygol o gael effaith negyddol ar grwpiau o ddysgwyr fel rheiny sydd ag ADY. Er hyn, mae'r Cyngor yn cydnabod efallai byddai'r cynllun yn effeithio ar ddisgyblion o gefndiroedd economaidd difreintiedig. Maent yn nodi'n llwyddiannus dulliau pwrpasol i leihau'r effaith hyn ar ddisgyblion.

Mae'r Cyngor wedi ystyried effaith debygol y cynnig i sicrhau bod y cwricwlwm llawn yn cael ei gyflwyno. Maent yn nodi bydd mwy o staff gyda gwybodaeth arbenigol a

chyfleoedd i ddisgyblion elwa ar fod yn rhan o grŵp cyfoedion ehangach o fewn dosbarthiadau mwy yn cefnogi eu cynnydd academaidd a'u datblygiad cymdeithasol.

Mae'r Cyngor wedi ystyried yn briodol ffactorau penodol wrth ystyried cau ysgolion, gan gynnwys y rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig. Mae'r cynnig yn rhoi sylw addas i'r canllaw sy'n cynnwys ystyried canlyniadau asesiad o effaith ar y gymuned. Mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaethau priodol i opsiynau amgen yn y cod.

Yn ogystal, nodir bod Estyn o'r farn y gallai trefniadau cludiant arfaethedig gyfyngu ar fynediad rhai disgyblion o nalgylch Ysgol y Fro at glybiau brecwast a gweithgareddau ar ôl ysgol yn Ysgol y Dderwen, er gwaethaf cryfder y ddarpariaeth honno.

## 16. ATODIAD B – DADANSODDIAD SWOT O'R OPSIYNAU ERAILL A YSTYRIWYD

| **Dewis Arall – Newid Ysgol y Fro i fod yn Ysgol Wirfoddol a Reolir (yr Eglwys yng Nghymru), mewn ffederasiwn gydag Ysgol Gynradd Glanyfferi, Ysgol Gynradd Abergwili ac Ysgol Gynradd Llanddarog** | |
|---|---|
| **Cryfderau** | **Gwendidau** |
| Cadw'r ddarpariaeth addysg yng nghymuned Llangyndeyrn. | Ni fyddai'n mynd i'r afael â niferoedd isel y disgyblion, y rhagwelir y byddant yn parhau'n isel. |
| Gallai ffederasiwn ganiatáu rhywfaint o rannu arweinyddiaeth ac adnoddau. | Byddai nifer uchel o leoedd gwag o hyd. |
| Cynnal y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. | Ni fyddai'r diffyg anghynaliadwy o ran y gyllideb yn cael ei unioni, hyd yn oed gyda thaliadau atodol ffedereiddio. |
| Dim newid ar hyn o bryd i drefniadau teithio disgyblion | Os nad yw'r ffederasiwn yn llwyddo i fynd i'r afael â'r heriau allweddol, gallai arwain at broblemau parhaus yn yr ysgol a risg o ddirywiad pellach. |
| Mae'n dangos bod yr Awdurdod Lleol yn barod i ystyried opsiynau eraill. | Ni fyddai sylw'n cael ei roi i'r adeilad o ran pa mor anaddas ydyw (Gradd C). |
| Potensial i gryfhau llywodraethu drwy bartneriaeth â'r Eglwys yng Nghymru. | Nid yw newid i statws Gwirfoddol a Reolir yn unig yn denu disgyblion na chyllid ychwanegol. |
| | Angen prosesau statudol ar wahân a chydsyniad yr Esgobaeth |

| | |
|---|---|
| | Byddai'r cynnig hwn yn dod â'r trefniadau rhannu arweinyddiaeth presennol gydag ysgolion mwy o faint a mwy sefydlog i ben, ac yn eu lle byddai partneriaeth o ysgolion gwledig bach yn unig. Mae dwy o'r tair ysgol wirfoddol a reolir eisoes yn dibynnu ar drefniadau rhannu arweinyddiaeth ar gyfer cynaliadwyedd; gallai gwaredu'r trefniadau hyn wanhau arweinyddiaeth rhywle arall yn y system. |
| **Cyfleoedd** | **Bygythiadau** |
| Potensial i gryfhau hunaniaeth gymunedol a chysylltiadau â darpariaeth eglwysig. | Efallai na fydd yn gwella niferoedd disgyblion yn yr ysgol na nifer y lleoedd gwag |
| Er y gallai gefnogi cydweithio ar draws grŵp bach o ysgolion, nid yw'r ysgolion yn ddaearyddol agos a byddai'r cydweithio'n digwydd ar-lein yn bennaf neu'n cael ei gyfyngu i ddiwrnodau Hyfforddiant mewn Swydd. | Risg o ddirywiad pellach os nad yw nifer y disgyblion yn cynyddu. |
| Cyfleoedd i rannu staff, rhannu arferion gorau, rhannu adnoddau o'r ysgol gyfagos | Posibilrwydd y bydd oedi o ran gwneud penderfyniadau tra bo'r problemau sylfaenol yn para heb eu datrys. |

| | |
|---|---|
| Gallai ffederasiwn gynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol | Mae'n annhebygol y bydd y cynnig yn lleddfu rhyw lawer ar bryderon Estyn am arweinyddiaeth a safonau, gan na fydd newid i'r capasiti o ddydd i ddydd. |
| Mae ysgolion sy'n rhan o ffederasiynau ffurfiol neu anffurfiol yn derbyn tâl atodol ffederasiwn o £12,000 neu £6,000 yn y drefn honno, a allai helpu i leddfu rhai o'r pwysau cyllidebol mae'r ysgol yn eu hwynebu. | Cymhlethdod pellach o ran llywodraethu, heb fod budd addysgol neu ariannol clir. |
| | Efallai y bydd rhieni, staff a'r corff llywodraethu yn gwrthwynebu'r cynnig i newid |
| | Mae'n rhaid cynnal ymgynghoriad yn unol â'r Broses Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir yng Nghymru i ffedereiddio ysgol. |
| | Mae tynnu ysgolion o bartneriaethau arweinyddiaeth presennol yn effeithio ar gyllid a gwydnwch arweinyddiaeth ysgolion eraill. |
| **Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg**<br>Disgwylir i'r trefniant arfaethedig gael effaith niwtral / lled gadarnhaol ar safonau, yn bennaf oherwydd goruchwyliaeth strategol gryfach a pharhad o ran arweinyddiaeth yn hytrach na gallu i wella o ddydd i ddydd. | |

Mae'r pedair ysgol yn lleoliadau bach, gwledig gyda niferoedd isel iawn o ddisgyblion a chapasiti staffio cyfyngedig, ac mae'r tair ysgol wirfoddol a gynorthwyir yn gweithredu'n annibynnol ar ei gilydd ar hyn o bryd; pob un ohonynt mewn trefniadau rhannu arweinyddiaeth sefydledig gydag ysgolion partner mwy o faint sy'n agosach yn ddaearyddol.

Yn y cyd-destun hwn, mae'r cynnig yn cyfuno trefniadau arweinyddiaeth ar draws ysgolion gwledig bach, gan gefnogi sefydlogrwydd a pharhad, yn hytrach na newid sylfaenol yn y strwythur arweinyddiaeth neu gynnydd sylweddol o ran gallu gwella ysgolion. Fodd bynnag, er mwyn gweithredu'r cynnig hwn, byddai angen i'r trefniadau rhannu arweinyddiaeth presennol gydag ysgolion mwy o faint ddod i ben, gan ddod â'r lleoliadau unigol hyn at ei gilydd i ffurfio partneriaeth newydd o ysgolion bach yn unig. O ganlyniad, er y byddai'r oruchwyliaeth o'r arweinyddiaeth dal yn ddiogel, byddai mynediad i'r capasiti arweinyddiaeth ehangach, y systemau sefydledig, a'r manteision agosrwydd a gynigir ar hyn o bryd gan ysgolion partner mwy yn llai.

Byddai penodi pennaeth nad yw'n addysgu, wedi'i gefnogi gan dîm uwch-arweinwyr ehangach, yn cryfhau arweinyddiaeth strategol trwy ddarparu atebolrwydd cliriach, gwell goruchwyliaeth o safonau, a mwy o gysondeb o ran cynllunio gwelliant a hunanwerthuso. Disgwylir i'r strwythur arweinyddiaeth gwell hwn gefnogi gwelliant ar lefel strategol, yn enwedig mewn perthynas â monitro perfformiad a chynnal cydymffurfiaeth statudol.

Byddai cyfleoedd i wella safonau a datblygu sgiliau yn deillio o'r cydweithio cynyddol rhwng y pedair ysgol, gan alluogi staff i rannu eu profiad a rhoi sylw ar y cyd i ymarfer. Fodd bynnag, oherwydd y pellter daearyddol rhwng yr ysgolion, byddai'r cydweithio'n digwydd i raddau helaeth ar-lein neu yn ystod diwrnodau Hyfforddiant mewn Swydd, sy'n debygol o gyfyngu ar amlder, dyfnder ac effeithiolrwydd y dysgu proffesiynol, o gymharu â chydweithio wyneb yn wyneb rheolaidd. Yn ogystal, mae'r timau staff bach iawn ar draws yr holl ysgolion yn cyfyngu ar gyfleoedd i gael arweinyddiaeth benodol ar gyfer pynciau, herio mewnol a datblygu'r cwricwlwm yn barhaus.

Byddai arweinyddiaeth a rheolaeth weithredol o ddydd i ddydd ym mhob ysgol yn aros yr un peth. Byddai'r pennaeth ar y safle yn rhan-amser, a byddai'r staff

| |
|---|
| presennol yn parhau i reoli arferion dyddiol ac ymarfer yn yr ystafell ddosbarth. Gan mai dim ond ysgolion bach â strwythurau staffio cyfyngedig fyddai'n rhan o'r bartneriaeth, ni fyddai'n ymestyn yn sylweddol y capasiti arweinyddiaeth neu addysgu y tu hwnt i'r hyn sy'n bodoli ar hyn o bryd ym mhob lleoliad.<br><br>Ni fyddai unrhyw newid i drefniadau llesiant, gofal, cymorth na diogelu, a fyddai'n parhau o dan y strwythurau presennol. Byddai'r staff addysgu yn aros yn eu swyddi, ac ni fyddai newid i arferion dyddiol neu amgylcheddau dysgu. Felly ni ddisgwylir i'r cynnig effeithio'n negyddol ar ddysgwyr agored i niwed, gan y byddai'r ddarpariaeth bresennol i ddiwallu eu hanghenion ychwanegol yn parhau. |
| **Yr effaith debygol ar y gymuned**<br><br>Byddai'r ddarpariaeth addysg yn parhau yn y gymuned ac ni fyddai fawr o effaith ar bobl pentref Llangyndeyrn a'r ardal gyfagos. Byddai'r Cylch Meithrin yn gallu gweithredu o'r ysgol a byddai'r ased cymunedol hynod werthfawr yn aros yn y pentref. |
| **Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio**<br><br>Efallai y bydd angen teithio ychwanegol ad-hoc os oes cydweithrediad da rhwng yr ysgolion yn y ffederasiwn fel arall rhagwelir y byddai'r trefniadau teithio yn parhau fel y maent ar hyn o bryd. |
| **Rheswm dros ddiystyru'r opsiwn**<br><br>Mae'r rhesymau dros ddiystyru'r opsiwn hwn yn parhau i fod yn debyg iawn i'r rhesymau dros ddiystyru'r Ffederasiwn, a restrwyd yn y ddogfen ymgynghori:<br>• Ni fyddai'n mynd i'r afael â nifer isel y disgyblion.<br>• Ni fyddai'n mynd i'r afael â nifer uchel y lleoedd gwag.<br>• Ni fyddai'n datrys diffyg yr ysgol o ran ei chyllideb.<br>• Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r gost uchel fesul disgybl yn yr ysgol.<br>• Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r problemau o ran addasrwydd yr adeilad. |

- Byddai'n barhad o'r model gweithredu presennol, yn hytrach nag ateb cynaliadwy yn y tymor hir.
- Byddai'n rhaid dod â'r trefniadau rhannu arweinyddiaeth presennol gydag ysgolion partner mwy o faint i ben, ac, yn eu lle, cael partneriaeth o ysgolion gwledig bach yn unig, a thrwy hynny leihau mynediad i gapasiti arweinyddiaeth ehangach a systemau cymorth sefydledig.
- Prin fyddai'r cyfleoedd i gydweithio a gwella oherwydd daearyddiaeth, maint ysgol a chapasiti staffio, gan gyfyngu ar yr effaith ar safonau ac ansawdd.
- Byddai cyllid ffederasiwn yn darparu lliniaru tymor byr yn unig, a fyddai'n annigonol i fynd i'r afael â phwysau ariannol strwythurol.
- Mae'r cynnig yn cyflwyno cymhlethdod pellach o ran llywodraethu, heb fod budd addysgol neu ariannol clir.
- Mae risg y gallai mabwysiadu'r opsiwn hwn achosi oedi o ran gwneud penderfyniadau, gan hwyhau'r ansicrwydd tra bo'r problemau sylfaenol yn para heb eu datrys.
- Am y rhesymau hyn, bernir nad yw'r cynnig yn ateb digon cadarn neu gynaliadwy i sicrhau ansawdd addysgol hirdymor, hyfywedd ariannol neu system gydnerth.

## 17. ATODIAD C – ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMUNED

**Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned.**

**Y Pwnc: Y cynnig i gau Ysgol y Fro a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol y Dderwen.**

Mae'r Asesiad hwn o'r Effaith ar y Gymuned wedi'i ddiweddaru yn dilyn y cyfnod ymgynghori statudol a gynhaliwyd rhwng Ionawr a Mawrth 2026. Mae'n adleisio'r materion a'r dystiolaeth a godwyd gan ymgyngoreion, a oedd yn cynnwys rhieni, aelodau o'r gymuned, disgyblion a rhanddeiliaid eraill, yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (Cymru) 2018.

### *1. Gwybodaeth am gyfran y disgyblion o'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol:*

Mae'r tabl isod yn tynnu sylw at gyfran y disgyblion o'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol, cyfran y disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol, cyfran y disgyblion o'r dalgylch sy'n mynychu ysgolion eraill a pha ysgolion y maent yn eu mynychu.

| Blwyddyn | Nifer y Disgyblion | Yn y dalgylch | Y tu allan i'r dalgylch | Yn y dalgylch mewn ysgolion eraill* |
|---|---|---|---|---|
| Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) 2026 | 15 | 12 | 3 | 66 |
| ***Ysgolion Eraill** Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Abergwili, Ysgol Bancyfelin, Ysgol Gymraeg Gwenllian, Ysgol Gynradd Tre Ioan, Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Llanddarog, Ysgol Gynradd Llangynnwr, Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Model, Ysgol Gynradd Mynyddygarreg, Ysgol Gynradd Nantgaredig, Ysgol Pen-bre, Ysgol y Castell, Ysgol y Dderwen. | | | | |

### *2. Clybiau ar ôl ysgol a gweithgareddau allgyrsiol a ddarperir gan yr ysgol:*

Mae Ysgol y Fro yn cynnig clwb ar ôl ysgol unwaith yr wythnos. Nid yw'n cynnig clwb brecwast ar hyn o bryd.

### *3. Unrhyw gyfleusterau neu wasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol neu wasanaethau y mae'r ysgol yn eu darparu:*

Mae Ysgol y Fro yn gartref i Gylch Meithrin, sy'n rhan bwysig iawn ac annatod o gymuned yr ysgol ac yn dibynnu ar gyfleusterau a chefnogaeth yr ysgol. Mae'r Cylch Meithrin yn lleoliad Gofal Plant Dechrau'n Deg cymeradwy ac yn lleoliad Cynnig Gofal Plant cofrestredig.

### *4. Defnydd arall gan y gymuned o adeilad yr ysgol*

Er nad oedd y wybodaeth gychwynnol a ddarparwyd gan yr ysgol wedi nodi defnydd ffurfiol helaeth gan y gymuned o'r adeilad y tu allan i oriau ysgol, mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi dangos yn glir rôl gymunedol ehangach a mwy anffurfiol. Disgrifiodd yr ymatebwyr ymgysylltiad rheolaidd drwy wirfoddoli, gweithgareddau pontio cenedlaethau, codi arian i elusennau, digwyddiadau Cymraeg a chysylltiadau agos â sefydliadau lleol. Mae'r mathau hyn o ddefnydd cymunedol, er nad ydynt yn cael eu cofnodi bob amser, yn cyfrannu at gydlyniant cymdeithasol a hunaniaeth gymunedol.

### *5. Cysylltiadau eraill rhwng yr ysgol a'r gymuned:*

Mae'r ysgol yn falch o'i chysylltiadau cryf â'r ardal leol. Mae cysylltiadau agos â'r Eglwys leol a Chymdeithas Les y Pentref lle mae gan yr ysgol ddarn o dir i dyfu ffrwythau a llysiau.

Mae'r ysgol hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Eglwys leol, ffermydd, cynhyrchwyr mêl, a'r clwb bowlio.

Mae cymuned yr ysgol wedi ymrwymo i gefnogi achosion da, gan godi arian yn rheolaidd ar gyfer elusennau fel Macmillan, gyda chefnogaeth ragorol gan rieni a'r gymuned ehangach.

Mae'r ysgol yn mynd ati i hyrwyddo'r Gymraeg trwy ddigwyddiadau'r ysgol a gweithgareddau anffurfiol. Mae plant yn cael eu hannog i rannu a defnyddio'r Gymraeg gyda'u teuluoedd gartref, gan helpu rhieni i ddysgu ochr yn ochr â nhw mewn ffordd naturiol a diddorol. Er nad yw'r ysgol yn cynnig gwersi Cymraeg ffurfiol i rieni, mae'r dull hwn yn cefnogi ac yn cryfhau'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned.

### *6. Os darperir adeiladau, ystafelloedd, cyfleusterau neu wasanaethau gan ysgol, ble fydden nhw'n cael eu darparu pe bai'r ysgol yn cau?*

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y gall symud Cylch Meithrin fod yn heriol dros ben yn ymarferol ac yn ariannol, a bod risg o darfu ar y staff a'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar os na chaiff ei reoli'n ofalus. I gydnabod y pryderon a godwyd drwy'r ymgynghori, byddai'r Awdurdod yn cysylltu'n gynnar â darparwr y Cylch, Mudiad Meithrin a'r gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar, er mwyn edrych ar yr opsiynau ymarferol ar gyfer parhau â'r gwasanaeth yn Llangyndeyrn neu'r cyffiniau, pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu.

Ceir neuadd eglwys Sant Cyndeyrn yn y pentref y gellid ei defnyddio o bosibl i ddarparu unrhyw gyfleusterau neu wasanaethau cymunedol a ddarperir gan yr ysgol fel y Cylch Meithrin. Nid yw'n glir a oes unrhyw gyfleusterau cymunedol eraill yn y pentref yn dilyn y wybodaeth a ddarparwyd gan yr ysgol.

O ran dyfodol adeilad yr ysgol, os bydd y cynigion yn cael eu gweithredu ac na fydd angen Ysgol y Fro mwyach o ran gofynion addysgol yr Awdurdod Lleol, ymagwedd gyffredinol y Cyngor yw ystyried yn gyntaf a oes angen y safle at unrhyw ddiben

corfforaethol mewnol arall. Os na fydd unrhyw ofyniad o'r fath yn cael ei nodi, mewn rhai amgylchiadau gallai fod yn briodol ystyried y potensial i'r gymuned barhau i ddefnyddio'r adeilad. Gallai hyn gynnwys defnydd gan sefydliadau gwirfoddol neu elusennol neu fentrau cymdeithasol, megis y Cylch Meithrin, yn amodol ar angen lleol clir gyda thystiolaeth.

7. ***P'un a gaiff neu p'un a ellid gwella'r cyfleusterau eraill sydd ar gael yn y gymuned leol neu'r gymuned ehangach pe cai’r ysgol ei chau (e.e. gwella neuaddau pentref, meysydd chwarae, y cynlluniau chwarae a ddarperir yn ystod y gwyliau):***

Nid oes unrhyw gynlluniau i wella cyfleusterau eraill yn y gymuned leol neu'n ehangach fel rhan o'r cynigion presennol.

8. ***Gwybodaeth am y cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir mewn unrhyw ysgol arall;***

Ysgol y Dderwen yw'r ysgol dderbyn arfaethedig. Mae'n ysgol gynradd Gymraeg i ddisgyblion rhwng 3 a 11 oed. Mae'r ysgol yn elwa ar adeilad modern ac ardal chwarae â chyfarpar da ac mae'n darparu amgylchedd dysgu cefnogol a diddorol lle mae'r ffocws ar lesiant disgyblion, datblygiad personol, a chyflawniad academaidd.

Mae gan yr ysgol ganolfan chwaraeon bwrpasol ar y safle, sydd hefyd yn hygyrch i'r cyhoedd yn gyffredinol, a thrwy hynny mae modd meithrin cysylltiadau cryf â'r gymuned leol. Mae disgyblion yn elwa ar sesiynau addysg gorfforol rheolaidd yn y ganolfan chwaraeon, ac ar hyn o bryd mae rhieni yn cael cynnig aelodaeth i'r gampfa am ddim yn ystod y cyfnod y mae eu plant wedi'u cofrestru yn yr ysgol.

Yn ogystal â'i chyfleusterau craidd, mae gan Ysgol y Dderwen Lyfrgell Goetir sydd wedi'i chynllunio i hyrwyddo cariad at ddarllen ymhlith disgyblion. Mae'r cyfleuster hwn yn cael ei ddefnyddio'n bennaf yn ystod oriau ysgol ond weithiau yn agor i rieni ar gyfer digwyddiadau arbennig.

Mae'r ysgol hefyd yn gweithredu fel ysgol goedwig ddynodedig, gan gynnig sesiynau dysgu awyr agored yn aml. Mae'r dull dysgu trwy brofiad hwn yn cefnogi llesiant corfforol a meddyliol disgyblion, yn annog datblygiad cymdeithasol a phersonol, ac yn helpu i adeiladu gwytnwch a hunanhyder.

Mae ymwybyddiaeth amgylcheddol yn cael ei hyrwyddo trwy gyfrwng gardd Eco ar y safle, lle gall disgyblion gymryd rhan yn yr Eco Gyngor yn ystod amser cinio ac ar ôl ysgol. Defnyddir yr ardd i dyfu planhigion, ffrwythau a llysiau, ac mae'r disgyblion yn cael y cyfrifoldeb o ofalu amdani.

Mae Ysgol y Dderwen yn rhoi gwerth mawr ar ddarpariaeth allgyrsiol, gan gydnabod ei rôl wrth gefnogi cynnydd academaidd a datblygiad personol. Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o glybiau a gweithgareddau ar ôl ysgol, gan gynnwys:

Clwb Coginio, Clwb Dawns, Clybiau Chwaraeon (pêl-droed, criced, pêl-rwyd, rygbi, hoci, rownderi), Clwb Eco, Clwb yr Urdd, Clwb Drama, Clwb Celf, Côr, Clwb Menter, Clwb Llyfrgell.

Mae gan Ysgol y Dderwen glwb brecwast a chlwb ar ôl ysgol.

### *9. Pellter ac amser teithio i ysgol arall yn yr un categori iaith:*

Y cynnig yw cau Ysgol y Fro a throsglwyddo disgyblion i Ysgol y Dderwen sydd tua 6.2 milltir ar hyd y B403 a'r A484. Mae'r amser teithio tua 15 munud. Amcan yw'r amser hwn a gallai'r union amser amrywio yn dibynnu ar y traffig a ffactorau eraill fel amodau gyrru a gwaith ffordd.

### *10. Sut y gellid cefnogi'r rhieni a'r disgyblion i fanteisio ar yr ysgol arall ac unrhyw gyfleusterau y gall eu cynnig*

Pe bai'r cynnig i gau Ysgol y Fro yn mynd rhagddo, bydd yr Awdurdod Lleol yn sicrhau bod trefniadau ar waith i helpu rhieni a disgyblion i ymgysylltu â'r ysgol arall i sicrhau cyfnod pontio hwylus. Bydd anghenion unigol yn cael eu rheoli drwy gydweithio â'r pennaeth a'r Ymgynghorydd Cymorth Addysg yn yr ysgol dderbyn, gan sicrhau bod y trefniadau mwyaf priodol ar waith i sicrhau bod rhieni a disgyblion yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r ysgol arall. Os bydd rhieni'n dewis anfon eu plant i ysgol arall heblaw Ysgol y Dderwen, bydd angen iddynt ddilyn y polisi a'r broses Derbyn i Ysgolion, sydd i'w gweld ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

### 11. Yr effaith ar iechyd a llesiant, ee pe bai disgyblion yn llai abl i gerdded neu feicio i'r ysgol:

O ganlyniad i'r cynnig arfaethedig i gau'r ysgol, byddai disgyblion yn llai abl i gerdded neu feicio i'r ysgol dderbyn oherwydd mwy o bellter a phryderon ynghylch diogelwch ar y ffyrdd. Gallai hyn leihau cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol dyddiol, a allai gael effaith negyddol ar iechyd a llesiant rhai disgyblion. Fodd bynnag, mae'r ysgol dderbyn yn cynnig ystod eang o glybiau chwaraeon fel y nodir uchod ac mae ganddi fynediad at gampfa, a fyddai'n helpu i liniaru rhai o'r effeithiau posibl trwy ddarparu cyfleoedd rheolaidd ar gyfer gweithgarwch corfforol yn ystod oriau ysgol a thu allan i oriau ysgol. Ar hyn o bryd mae pedwar disgybl sy'n mynychu Ysgol y Fro yn cerdded, beicio neu'n mynd ar sgwter i'r ysgol yn rheolaidd. Byddai'r Awdurdod Lleol yn archwilio'r defnydd o fannau casglu cymunedol dynodedig lle bo'n briodol, i gefnogi teithio llesol rhannol a lleihau'r golled o ran cyfleoedd i gerdded i'r ysgol.

### *12. Unrhyw oblygiadau ehangach e.e. effaith ar ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus, materion ehangach yn ymwneud â diogelwch cymunedol*

Nid oes unrhyw effeithiau disgwyliedig ar wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus. Mae'n ofynnol yn ôl y polisi cludiant ysgol i ddarparu cludiant am ddim i unrhyw blentyn sy'n byw mwy na dwy filltir o'r ysgol briodol agosaf, felly bydd cludiant yn cael ei ddarparu i'r rhai sy'n gymwys.

Gallai colli adeilad yr ysgol hefyd olygu colli lle diogel dynodedig a ddefnyddir mewn argyfyngau cymunedol (e.e. fel lloches neu fan cyfarfod) ond nid yw'n glir a yw'r ysgol yn cael ei defnyddio at y diben hwn ar adeg ysgrifennu.

### *13. Ystyriaethau ychwanegol ar gyfer ysgolion gwledig*

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn cynnwys nifer o ystyriaethau eraill sydd hefyd yn debygol o fod yn berthnasol o ran asesu effaith cau ysgol wledig ar y gymuned. Gan fod Ysgol y Fro yn cael ei nodi fel ysgol wledig, ystyrir y ffactorau hyn isod:

- ***A fyddai cau'r ysgol yn annog teuluoedd â phlant o oedran ysgol i adael y gymuned neu'n golygu bod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned.***

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'n gadael Llangyndeyrn heb ysgol leol ac o ganlyniad gallai'r pentref ddod yn llai deniadol i deuluoedd â phlant ifanc, gan gyflymu'r dirywiad demograffig a heneiddio'r boblogaeth. Wrth i deuluoedd o bosibl geisio mynediad haws at wasanaethau ac addysg, gall trosiant eiddo godi, ond gall y galw am dai gan deuluoedd ifanc ostwng.

- ***Pa effaith y gallai cau'r ysgol ei chael ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol, er enghraifft os mai'r ysgol yw'r unig adeilad cyhoeddus yn y gymuned***

Pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt a bod yr ysgol yn cau, gallai hyn gael effaith ar wasanaethau lleol, yn enwedig y Cylch Meithrin. Mae'r pentref yn elwa ar neuadd Eglwys Sant Cyndeyrn y gellid ei defnyddio ar gyfer digwyddiadau a digwyddiadau cymunedol ond nid yw'r wybodaeth a dderbyniwyd gan yr ysgol yn cadarnhau hyn yn benodol.

- ***Ai'r ysgol yw gwir ganolbwynt bywyd y gymuned ai peidio, ac yn cael ei defnyddio at ddibenion eraill – megis cyfarfodydd cyhoeddus, digwyddiadau lleol, ffeiriau, cyngorfeydd a chynulliadau eraill – a fyddai naill ai'n dod i ben neu'n dioddef o gael eu symud i rywle arall;***

Nid oedd y wybodaeth gychwynnol a ddarparwyd gan yr ysgol yn nodi a oedd yr ysgol yn cael ei defnyddio at ddibenion eraill heblaw'r Cylch Meithrin, y byddai'n ofynnol iddo symud o bosibl pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi nodi bod trigolion y pentref yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i ddarllen gyda'r plant, gan wella cysylltiadau sy'n pontio cenedlaethau. Mae'r ysgol yn ganolfan hefyd ar gyfer digwyddiadau elusennol, fel codi arian i Macmillan, a cheir cefnogaeth gref gan rieni a'r gymuned ehangach.

- ***A fydd colli'r ysgol, a theuluoedd o bosibl, yn cael effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned***

Gallai cau'r posibl gael goblygiadau ehangach i gadernid economaidd y gymuned leol. Mae ysgolion gwledig yn aml yn gwasanaethu fel canolbwynt cymdeithasol ac economaidd pwysig, a gall eu cau gyfrannu at ddiboblogi, llai o alw am dai, a llai o

ymwelwyr i fusnesau cyfagos. Gallai hyn, yn ei dro, leihau hyfywedd gwasanaethau a chyfleusterau lleol eraill.

- ***Effaith gyffredinol cau'r ysgol ar y gymuned leol (gan gynnwys colli cyfleusterau yn yr ysgol a ddefnyddir gan y gymuned leol)***

Pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt a bod yr ysgol yn cau, gallai fod yna effaith ar wasanaethau lleol, yn enwedig y Cylch Meithrin, ac efallai y bydd angen ei adleoli neu ei gau os na ellir dod o hyd i gyfleusterau priodol. Gallai cau'r ysgol hefyd arwain at golli cysylltiadau â nifer o sefydliadau a grwpiau cymunedol y cyfeirir atynt uchod. Er bod gan y pentref fynediad at Neuadd Eglwys Sant Cyndeyrn, a allai gynnal rhai o'r gwasanaethau a ddarperir yn yr ysgol ar hyn o bryd, nid yw'r wybodaeth gan yr ysgol a'r ymatebion o'r ymgynghoriad yn cadarnhau a yw hyn yn opsiwn hyfyw.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod, yn enwedig mewn cymunedau gwledig, y gall colli ysgol gael effaith gymdeithasol, ddiwylliannol ac emosiynol sy'n ymestyn y tu hwnt i addysg yn unig. Mae'r effeithiau posibl hyn wedi'u pwyso a'u mesur yn ofalus yn erbyn hyfywedd addysgol yr ysgol yn y tymor hir, ei chynaliadwyedd ariannol, a'i gallu i gyflawni disgwyliadau llawn y Cwricwlwm i Gymru. Er cydnabod yr effeithiau sylweddol ar y gymuned, mae'r Awdurdod wedi dod i'r casgliad nad ydynt yn drech na'r heriau sy'n wynebu'r ysgol o ran ei chynaliadwyedd, na'r angen i sicrhau darpariaeth gydnerth o ansawdd uchel i ddysgwyr yn y tymor hir.

## 14. Materion a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori

Mynegwyd pryderon sylweddol gan ymatebwyr ynghylch effaith bosibl y cynnig ar gymuned Llangyndeyrn. Disgrifiwyd yr ysgol yn gyson fel calon y pentref, a phwysleisiodd yr ymgyngoreion ei rôl o ran cefnogi cydlyniant cymdeithasol ac ymdeimlad o hunaniaeth leol, ynghyd â bod yn ganolfan ar gyfer defnydd cymunedol o'r Gymraeg a chyswllt rhwng cenedlaethau. Mae gan Ysgol y Fro gysylltiadau cryf â'r gymuned leol, gan gynnwys partneriaethau gyda'r Eglwys, Cymdeithas Llesiant y Pentref, ffermydd lleol, cynhyrchwyr mêl, a'r clwb bowlio.

Mynegwyd pryderon hefyd am y posibilrwydd o golli'r rhyngweithio cymdeithasol rheolaidd oedd yn digwydd, trigolion hŷn yn teimlo'n fwy ynysig, llai o weithgareddau codi arian, a chanfyddiad byddai'r ardal yn llai deniadol i deuluoedd â phlant ifanc. Amlygwyd ymhellach gan yr ymatebwyr y posibilrwydd o golli digwyddiadau cymdeithasol lleol, treftadaeth a chyfleoedd i hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y pryderon y gallai colli ysgol cyfrwng Cymraeg yn y pentref leihau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol yn y gymuned. Er y byddai mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei gynnal yn yr ysgol dderbyn, mae'r Awdurdod yn cydnabod bod y defnydd o'r iaith y tu hwnt i gatiau'r ysgol yn cyfrannu at fywiogrwydd cymunedol. Lle bo'n ymarferol, byddai'r Awdurdod yn ceisio gweithio gyda'r ysgol dderbyn, darparwyr blynyddoedd cynnar, a phartneriaid cymunedol i gefnogi gweithgareddau Cymraeg ac ymgysylltiad a pharhad cysylltiadau diwylliannol â Llangyndeyrn.

Roedd sylwadau a gefnogai'r cynigion yn pwysleisio, er bod ysgolion yn cyfrannu at hunaniaeth gymunedol, nid cynnal y gymuned yw eu prif ddiben, ond darparu addysg o safon uchel. Awgrymodd rhai ymatebwyr fod caniatâd cynllunio wedi'i roi yn Llangyndeyrn ar gyfer tai newydd, gan nodi'r effeithiau ar unrhyw deuluoedd newydd fyddai'n symud i'r ardal pan fyddai'r tai hyn wedi'u cwblhau.

**15. Casgliad**

Roedd llawer iawn o blith y gymuned wedi cymryd rhan yn y broses ymgynghori ac roedd gwrthwynebiad cryf i'r cynnig, gan adlewyrchu pwysigrwydd Ysgol y Fro yn Llangyndeyrn. Mae'r sylwadau hyn wedi'u hystyried yn ofalus ac wedi'u hadleisio ym mhob rhan o'r asesiad hwn. Ar ôl pwyso a mesur yr effeithiau hyn ochr yn ochr ag ansawdd addysgol, deilliannau dysgwyr, cynaliadwyedd ariannol a dyletswyddau statudol, mae'r Awdurdod Lleol o'r farn bod cyfiawnhad dros y cynnig o hyd a'i fod dal yn cydymffurfio â Chod Trefniadaeth Ysgolion (Cymru) 2018. Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a dyletswyddau tymor hir y Cyngor, mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried y goblygiadau cymdeithasol disgwyliedig o ganlyniad i'r cynnig yn erbyn yr angen am ddarpariaeth addysg gynaliadwy ac o ansawdd uchel.

## 18. ATODIAD D – ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

**Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg**
**Y cynnig i gau Ysgol y Fro a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol y Dderwen**

**Paratowyd gan: Cyngor Sir Caerfyrddin**

1. **Cyflwyniad a Phwrpas**

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn ystyried effeithiau tebygol y cynnig i gau Ysgol y Fro a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol y Dderwen ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar yr egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r asesiad wedi'i baratoi yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (Cymru) Llywodraeth Cymru, Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, Fframwaith Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg Cyngor Sir Caerfyrddin, a chanllawiau a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg wedi'i adolygu a'i ddiweddaru yn dilyn yr ymgynghoriad statudol ynghylch y cynnig i gau Ysgol y Fro. Rhoddwyd sylw arbennig i faterion a godwyd gan ymgyngoreion mewn perthynas â rôl yr ysgol fel canolbwynt y Gymraeg yng nghymuned Llangyndeyrn, pwysigrwydd defnydd anffurfiol a chymdeithasol o'r Gymraeg, parhad llwybrau trochi cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys darpariaeth y blynyddoedd cynnar, a'r effeithiau posibl ar weithgarwch Cymraeg yn y gymuned.

Mae'r asesiad yn adlewyrchu'r themâu hyn yn uniongyrchol drwy nodi'r risgiau posibl, mesurau lliniaru arfaethedig a'r trefniadau monitro, gan sicrhau cysondeb ag ymatebion cyhoeddedig yr Awdurdod Lleol i faterion o ran y Gymraeg a chydymffurfiaeth â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (Cymru) 2018.

**2. Methodoleg a sylfaen dystiolaeth**

Mae'r asesiad wedi'i lywio gan y ddogfen ymgynghori statudol ynghylch y cynnig i gau Ysgol y Fro; adroddiadau arolygu Estyn ar gyfer Ysgol y Fro ac Ysgol y Dderwen; Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032 Cyngor Sir Caerfyrddin; Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg (2023-28); data ar y Gymraeg yng Nghyfrifiad 2021; a pholisïau perthnasol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Cymraeg 2050 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**3. Y Cyd-destun: Ysgol y Fro, Ysgol y Dderwen a'r Cynnig**

Mae Ysgol y Fro yn ysgol gynradd Categori 3 (ysgol Gymraeg yn bennaf) sy'n gwasanaethu cymuned Llangyndeyrn, ar gyfer disgyblion rhwng 4 ac 11 oed. Mae Ysgol y Dderwen yn ysgol gynradd Categori 3 (ysgol Gymraeg yn bennaf) ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Y cynnig yw cau Ysgol y Fro ar 31 Rhagfyr 2026, gan drosglwyddo'r disgyblion i Ysgol y Dderwen a drwy hynny gynnal addysg cyfrwng Cymraeg a rhoi'r disgyblion mewn amgylchedd dysgu Cymraeg cynaliadwy.

**4. Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (Tabl 1)**

Mae'r adran hon yn asesu'r cynnig yn erbyn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, yn benodol y Safonau Llunio Polisi (Safonau 88–93), y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (Safonau 1–83), a'r Safonau Gweithredu (Safonau 127–135).

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws yr effaith | Dulliau Lliniaru / Mesurau Posibl i wella'r effaith gadarnhaol | Effaith derfynol (yn dilyn y dulliau lliniaru) |
|---|---|---|---|---|
| **Defnydd anffurfiol o'r Gymraeg yn yr ysgol (cyfarchion, arwyddion, arferion, cyfathrebu cyffredinol)** | Mae Ysgol y Fro ac Ysgol y Dderwen yn ysgolion cyfrwng Cymraeg Categori 3, lle mai'r Gymraeg yw'r brif iaith cyfathrebu bob dydd. Byddai trosglwyddo disgyblion yn rhoi'r dysgwyr mewn grŵp cyfoedion mwy sy'n siarad Cymraeg ac sydd ag arferion sefydledig sy'n cefnogi defnydd anffurfiol a chymdeithasol o'r Gymraeg drwy gydol y diwrnod ysgol.<br><br>Disgrifir Categori 3 fel a ganlyn - y Gymraeg yw'r brif iaith ar gyfer cyfathrebu mewnol yn yr ysgol. Mae'n cyfathrebu â rhieni a gofalwyr naill ai yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog yn ôl yr angen. Mae hon yn ysgol sydd ag ethos Cymraeg cadarn, gan gefnogi a galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun cymdeithasol yn yr ysgol a'r tu allan iddi.<br><br>Mewn lleoliad trochi mae pob dysgwr yn cael ei addysgu'n llawn yn y Gymraeg, gyda'r Saesneg yn cael ei defnyddio | Niwtral | Disgwyliadau clir a chyson ynghylch y Gymraeg wedi'u hymwreiddio mewn arferion dyddiol yn Ysgol y Dderwen, gan sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n naturiol ar gyfer cyfarchion, rheoli'r ystafell ddosbarth, arwyddion a chyfathrebu cyffredinol drwy gydol y diwrnod ysgol.<br><br>Gweithgareddau pontio wedi'u cynllunio a threfniadau ymsefydlu i sicrhau bod disgyblion sy'n trosglwyddo o Ysgol y Fro ym ymgyfarwyddo â'r arferion iaith anffurfiol a'r disgwyliadau yn Ysgol y Dderwen, gan gefnogi hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol o'r cychwyn cyntaf.<br><br>Enghreifftiau cryf o fodelu Cymraeg llafar o safon uchel gan staff mewn cyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol, | Cadarnhaol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ar brydiau i sicrhau dealltwriaeth yn ystod y cyfnod trochi cynnar.<br><br>O 7 oed ymlaen bydd o leiaf 80% o weithgareddau ysgol y dysgwr (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg. Byddai'r cynnig yn sicrhau bod darpariaeth Gymraeg ar gael.<br><br>Mae'r Siarter Iaith yn cefnogi plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar eu bywydau a'i nod yw cynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ac mae'n rhan o Ddeilliant 5 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Mae Ysgol y Fro ac Ysgol y Dderwen wedi ennill Gwobr Aur y Siarter Iaith. Byddai'r cynnig hwn felly yn sicrhau parhad yn hyn o beth.<br><br>Byddai'r cynnig hwn yn cryfhau'r cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg yn ffurfiol ac yn anffurfiol gydag ystod ehangach o gyfoedion. | | gan atgyfnerthu'r Gymraeg yn iaith naturiol rhyngweithio rhwng disgyblion ac oedolion a normaleiddio ei defnydd ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.<br><br>Atgyfnerthu'r defnydd o'r Gymraeg yn gyson drwy ddulliau gweledol, drwy arwyddion, arddangosfeydd ac amgylcheddau dysgu sy'n hybu gwelededd y Gymraeg ac yn cefnogi'r defnydd o’r iaith bob dydd.<br><br>Cymorth bugeiliol a threfniadau mentora cyfoedion, lle bo hynny'n briodol, i annog disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus yn ystod amserau cymdeithasol fel amser chwarae, amser cinio, ac yn ystod gweithgareddau allgyrsiol.<br><br>Monitro defnydd anffurfiol o'r Gymraeg gan staff yn barhaus i nodi unrhyw broblemau sy'n dod i'r amlwg yn ystod y cyfnod trosglwyddo ac i sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i fod yn iaith cyfathrebu ddiofyn ar draws amgylchedd yr ysgol. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Datblygu a hyrwyddo Fframwaith y Siarter Iaith ymhellach. | |
| **Safonau a darpariaeth gyfredol y Gymraeg** | **Ysgol y Fro**<br><br>Ym mis Chwefror 2025, nododd adroddiad arolygu Estyn ar Ysgol y Fro y canlynol: "*O'u mannau cychwyn amrywiol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau cyfathrebu yn effeithiol gan gaffael y Gymraeg yn llwyddiannus mewn gweithgareddau ysgogol yn yr amgylchedd dysgu, gan gynnwys yr ardal ddysgu allanol. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n ddigon effeithiol ar draws y meysydd dysgu. Mae ansawdd eu gwaith yn anaeddfed ac nid oes ganddynt afael digon cadarn ar elfennau sylfaenol iaith.*<br><br>*Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda â'r rhieni ac aelodau'r gymuned ac mae'n rhan bwysig o'r ardal leol. Mae hyn yn cefnogi'r disgyblion i werthfawrogi'r Gymraeg, ynghyd â hanes a thraddodiadau lleol a chenedlaethol.*"<br><br>Roedd arolygiad Estyn yn adlewyrchu'r angen i gryfhau cynllunio ar gyfer dilyniant yn Ysgol y Fro. Mae cynllun gweithredu ar waith i gefnogi'r argymhelliad hwn mewn perthynas â chodi safonau. | Cadarnhaol | Trefniadau trosglwyddo ac ymsefydlu strwythuredig i sicrhau parhad mewn dysgu cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys rhannu gwybodaeth sylfaenol am ddatblygiad Cymraeg disgyblion, eu hyder o ran llafaredd a'u sgiliau llythrennedd, rhwng Ysgol y Fro ac Ysgol y Dderwen.<br><br>Cymorth bugeiliol ac ieithyddol wedi'i dargedu yn ystod y cyfnod trosglwyddo cychwynnol i sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ac yn academaidd, yn enwedig o fewn grŵp cyfoedion mwy a charfan oedran cymysg.<br><br>Addysgeg cyfrwng Cymraeg gyson a disgwyliadau diamwys o ran iaith yn Ysgol y Dderwen, wedi'u hatgyfnerthu drwy arferion dyddiol, modelu Cymraeg llafar o safon uchel gan staff, a disgwyliadau penodol ynghylch | Cadarnhaol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | O'u mannau cychwyn amrywiol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau cyfathrebu yn effeithiol gan gaffael y Gymraeg yn llwyddiannus mewn gweithgareddau ysgogol yn yr amgylchedd dysgu, gan gynnwys yr ardal ddysgu allanol.<br><br>Mae disgyblion yn dylanwadu ar yr hyn maent yn ei ddysgu ac yn datblygu eu dealltwriaeth o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella eu gwaith. Fodd bynnag, mae hyn yn ei ddyddiau cynnar. Yn yr arfer orau, mae athrawon yn holi'r disgyblion yn fedrus er mwyn ymestyn eu dealltwriaeth o wahanol feysydd dysgu. Mae athrawon yn darparu amgylchedd dysgu cynhwysol a chefnogol i'r disgyblion sydd, er enghraifft, yn hyrwyddo diwylliant darllen gwerthfawr.<br><br>Trwy gynhaliaeth gyson yr athrawon, mae llawer o ddisgyblion yn cydweithio'n dda tra'n datblygu eu gallu i ddarllen, er enghraifft wrth ddilyn cyfarwyddiadau fel rhan o weithgareddau datrys problemau ymarferol.<br><br>Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n ddigon effeithiol ar draws y meysydd dysgu. Mae ansawdd eu gwaith yn anaeddfed ac nid oes ganddynt afael digon | | defnyddio'r Gymraeg mewn gwersi a chyd-destunau anffurfiol.<br><br>Monitro sy'n canolbwyntio ar ddilyniant disgyblion o ran y Gymraeg ar ôl trosglwyddo, er mwyn nodi unrhyw fylchau yn gynnar a sicrhau cynnydd pendant mewn llafaredd, darllen ac ysgrifennu drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Mynediad at brofiad cwricwlwm ehangach wedi'i alluogi gan garfannau mwy, gan ddarparu cyfleoedd mwy pwrpasol ar gyfer ysgrifennu estynedig, trafodaethau grŵp, dysgu ar y cyd, a defnyddio sgiliau Cymraeg ar draws meysydd dysgu.<br><br>Dysgu proffesiynol parhaus a chydweithio i staff, lle bo angen, er mwyn sicrhau disgwyliadau cyson uchel o ran datblygiad a dilyniant y Gymraeg ar draws pob gallu. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | cadarn ar elfennau sylfaenol iaith.<br><br>**Ysgol y Dderwen**<br><br>Dywed adroddiad arolygu diweddaraf Ysgol y Dderwen gan Estyn: "*Un o gryfderau'r ysgol yw'r ffordd y mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfathrebu i safon uchel yn y Gymraeg.*<br><br>*Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, maent yn gwneud cynnydd eithriadol yn eu medrau llafar.*<br><br>*Drwy'r Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n ofalus ac yn trafod eu gwaith yn hyderus gan ddefnyddio ystod gynyddol o batrymau iaith a geirfa.*<br><br>*Ar draws cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn dangos parch gwirioneddol wrth wrando ar safbwyntiau eraill. Maent yn siarad yn aeddfed yn y Gymraeg a Saesneg gan ddefnyddio iaith ffurfiol lle bo'n briodol, er enghraifft wrth gyflwyno rhaglen radio'r ysgol. Wrth drafod yn y Gymraeg, defnyddiant eu tafodiaith leol yn gwbl naturiol wrth gynnal sgwrs.*<br><br>*Mae bron pob aelod o staff yn fodelau iaith rhagorol ac yn rhoi bri ar ddatblygu ac arddel tafodiaith Sir Gaerfyrddin. Maent yn annog disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod gweithgareddau ffurfiol ac anffurfiol. O ganlyniad, mae gan lawer o ddisgyblion hŷn* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | *fedrau trawsieithu cadarn ac maent yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus.*<br><br>*Mae'r athrawon yn cynllunio ystod eang o weithgareddau ymestynnol er mwyn datblygu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad da iawn o hanes, diwylliant a thraddodiadau Cymru ymysg y rhan fwyaf o'r disgyblion."*<br><br>Gallai'r cynnig i drosglwyddo disgyblion i Ysgol y Dderwen gael effaith gadarnhaol ar gynnydd disgyblion yn y Gymraeg oherwydd bod disgyblion yn cael eu haddysgu gyda charfan o ddisgyblion o oedran tebyg.<br><br>Un o gryfderau Ysgol y Dderwen yw'r ffordd y mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfathrebu i safon uchel yn y Gymraeg. | | | |
| **Cyfleoedd ar ôl ysgol a chyfoethogi (drwy gyfrwng y Gymraeg/dwyieithog)** | **Ysgol y Fro**<br><br>Mae Ysgol y Fro yn nodi ei bod yn mynd ati i hyrwyddo'r Gymraeg drwy ddigwyddiadau'r ysgol a gweithgareddau anffurfiol. Mae'r ysgol yn cynnig clwb ar ôl ysgol unwaith yr wythnos.<br><br>**Ysgol y Dderwen**<br><br>Mae'r Gymraeg yn ganolog i werthoedd Ysgol y Dderwen | Cadarnhaol | Hyrwyddo'n weithredol a mynediad â chymorth at ddarpariaeth ar ôl ysgol a chyfoethogi cyfrwng Cymraeg a dwyieithog Ysgol y Dderwen, gan gynnwys gweithgareddau diwylliannol a chwaraeon yr Urdd, clybiau, darpariaeth gwyliau, a gofal plant, er mwyn annog cyfranogiad gan ddisgyblion sy'n | Cadarnhaol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ac yn yr un modd i werthoedd Clwb y Mes – clwb gofal yr ysgol. Yma, mae disgyblion yn cael cyfle i sgwrsio yn Gymraeg gyda'u ffrindiau cyn ac ar ôl ysgol, gan mai staff yr ysgol yn bennaf sy'n gweithio yn y Clwb, mae'r agwedd hon yn cael ei hatgyfnerthu mewn ffordd gwbl naturiol ac fel estyniad o dôn ac ethos yr ysgol. Yn ogystal â gofal yn ystod y tymor, cynhelir clwb gwyliau yn ystod pob gwyliau ysgol o ddydd Llun i ddydd Iau, ac eithrio gwyliau'r Nadolig, unwaith eto yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu a defnyddio'r Gymraeg.<br><br>Sefydliad amlwg iawn yng nghyd-destun Ysgol y Dderwen yw'r Urdd. Mae ein disgyblion yn cael ystod eang o brofiadau drwy gymryd rhan yng nghystadlaethau a gweithgareddau diwylliannol, chwaraeon ac eisteddfod y mudiad. Ym Mlynyddoedd 4–6, mae ein disgyblion hefyd yn gallu mynd ar gyrsiau preswyl i ganolfannau'r Urdd ledled Cymru – Caerdydd, Llangrannog a Glan-llyn. Mae clybiau chwaraeon ar ôl ysgol, dan ofal yr Urdd, hefyd yn cael eu cynnal yn rheolaidd ar dir yr ysgol drwy gydol y flwyddyn.<br><br>Mae Ysgol y Dderwen yn y broses o groesawu Cylch Meithrin Caerfyrddin, gyda'r nod y bydd yn cynnal sesiynau bore, prynhawn a thrwy'r dydd a fydd yn arwain | | trosglwyddo o Ysgol y Fro.<br><br>Gweithgareddau ymsefydlu ac ymgyfarwyddo wedi'u cynllunio i alluogi disgyblion i ymuno â chlybiau ar ôl ysgol a chyfleoedd cyfoethogi yn raddol ac yn hyderus, gyda chefnogaeth staff a chyfoedion, gan sicrhau ymgysylltiad parhaus ar ôl trosglwyddo.<br><br>Cyfathrebu dwyieithog clir â rhieni a gofalwyr, gan amlinellu'r ystod o gyfleoedd ar ôl ysgol a chyfoethogi sydd ar gael, gan gefnogi ymgysylltu a chyfranogi ar sail gwybodaeth y tu allan i'r diwrnod ysgol.<br><br>Defnyddio gweithgareddau cyfoethogi yn gyd-destunau dilys i ddefnyddio'r Gymraeg, gan atgyfnerthu defnydd anffurfiol a chymdeithasol o'r Gymraeg drwy chwaraeon, cerddoriaeth, perfformio a gweithgareddau cydweithredol. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | at ofal cofleidiol i blant iau yr ysgol.<br><br>Mae'r ysgol hefyd yn cael ei chynrychioli'n gyson yn y gymuned mewn gweithgareddau fel Gŵyl Canol Dre, cyngherddau cerddorol, ac ymweliadau â chartrefi gofal preswyl, sydd unwaith eto yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu Cymraeg. | | Gwaith partneriaeth parhaus gyda'r Urdd a sefydliadau Cymraeg eraill i sicrhau mynediad parhaus at gyfleoedd diwylliannol, chwaraeon a chymdeithasol o safon uchel drwy gyfrwng y Gymraeg. | |
| **Cyfleoedd cymunedol (cymorth i rieni/gofalwyr a'r gymuned ehangach)** | **Ysgol y Fro**<br><br>Mae Ysgol y Fro yn nodi ei bod yn annog disgyblion i rannu a defnyddio'r Gymraeg gyda'u teuluoedd gartref, gan helpu rhieni i ddysgu ochr yn ochr â nhw mewn ffordd naturiol a ddiddorol.<br><br>Nid yw'r ysgol yn cynnig gwersi Cymraeg ffurfiol i rieni.<br><br>Mae'r ysgol yn falch o'i chysylltiadau cryf â'r ardal leol. Mae cysylltiadau agos â'r Eglwys leol a Chymdeithas Les y Pentref lle mae gan yr ysgol ddarn o dir i dyfu ffrwythau a llysiau.<br><br>Mae'r ysgol hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Eglwys leol, ffermydd, cynhyrchwyr mêl, a'r clwb bowlio.<br>Mae cymuned yr ysgol wedi ymrwymo i gefnogi achosion da, gan godi arian yn rheolaidd ar gyfer elusennau fel Macmillan, gyda chefnogaeth ragorol gan rieni a'r gymuned ehangach.<br><br>Mae'r ysgol yn mynd ati i | Niwtral | Darparu sesiynau Cymraeg i'r Teulu.<br><br>Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau cymunedol lleol, y Fenter Iaith, yr Urdd a gwasanaethau cymorth i ymestyn cyfleoedd Cymraeg y tu hwnt i'r ysgol ac yng nghymuned Llangyndeyrn.<br><br>Gweithgareddau trosglwyddo ac ymgysylltu wedi'u cynllunio i gyflwyno disgyblion, rhieni a gwarcheidwaid o gymuned Ysgol y Fro i raglen sefydledig Ysgol y Dderwen o ddigwyddiadau cymunedol, partneriaethau a gweithgareddau cyfrwng Cymraeg, gan gefnogi hyder a pharhad o ran ymgysylltu drwy'r Gymraeg. | Niwtral |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | hyrwyddo'r Gymraeg trwy ddigwyddiadau'r ysgol a gweithgareddau anffurfiol. Mae plant yn cael eu hannog i rannu a defnyddio'r Gymraeg gyda'u teuluoedd gartref, gan helpu rhieni i ddysgu ochr yn ochr â nhw mewn ffordd naturiol a diddorol. Er nad yw'r ysgol yn cynnig gwersi Cymraeg ffurfiol i rieni, mae'r dull hwn yn cefnogi ac yn cryfhau defnydd y Gymraeg yn y gymuned.<br>**Ysgol y Dderwen:**<br>Mae Ysgol y Dderwen yn nodi bod ganddi gysylltiadau cryf â'r gymuned i gefnogi darpariaeth a phrofiadau'r ysgol a gynigir i ddisgyblion.<br><br>Byddai'r disgyblion yn cael cyfleoedd i elwa o ymgysylltu â'r gymuned i ategu gweithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol.<br><br>Os caiff y cynnig ei weithredu, gallai cau Ysgol y Fro arwain at leihad yng ngwelededdd gweithgarwch addysgol cyfrwng Cymraeg ym mhentref Llangyndeyrn a gallai amharu ar rai gweithgareddau cymdeithasol a chymunedol Cymraeg lleol sydd wedi troi o amgylch yr ysgol yn hanesyddol. O ystyried rôl yr ysgol fel canolbwynt ar gyfer defnydd anffurfiol o'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau, yn enwedig mewn cyd-destun gwledig, mae potensial ar gyfer effeithiau andwyol tymor byr ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned agos. | | Cyfathrebu dwyieithog clir â rhieni a gwarcheidwaid sy'n amlinellu'r cyfleoedd cymunedol sydd ar gael, rolau gwirfoddoli a digwyddiadau sy'n gysylltiedig ag Ysgol y Dderwen, gan alluogi teuluoedd i ymgysylltu'n ystyrlon â'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg y tu allan i'r diwrnod ysgol.<br><br>Cynnal cysylltiadau, lle bo'n ymarferol, gyda sefydliadau cymunedol, grwpiau ffydd a phartneriaid lleol a oedd yn ymgysylltu'n flaenorol ag Ysgol y Fro i gefnogi cyfleoedd parhaus i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned ehangach.<br><br>Annog cyfranogiad gan rieni a'r gymuned mewn gweithgareddau yn Ysgol y Dderwen, gan gynnwys digwyddiadau diwylliannol, perfformiadau a gweithgareddau elusennol, gan gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau mewn cyd-destunau cymdeithasol a chymunedol. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Nid ystyrir bod yr effeithiau hyn yn anochel neu nad oes modd eu dadwneud, ond maent yn adlewyrchu'r risgiau a nodwyd drwy'r ymgynghoriad sy'n gofyn mesurau lliniaru gweithredol a monitro parhaus. | | Gwaith partneriaeth parhaus gyda sefydliadau a rhwydweithiau Cymraeg lleol i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddisgyblion a theuluoedd ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol ac i atgyfnerthu gwelededd y Gymraeg yn y gymuned ehangach. | |
| **Cyd-fynd â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru** | Mae'r cynnig yn cyd-fynd â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin drwy gynnal darpariaeth cyfrwng Cymraeg (Categori 3) a chefnogi cynaliadwyedd ac ansawdd addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgol hyfyw.<br><br>Mae'n gyson â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried effaith cynigion ar y Gymraeg a sicrhau darpariaeth effeithiol, effeithlon a chynaliadwy.<br><br>Mae'r cynnig yn cynnal mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg yn lleol, gan gefnogi gwell canlyniadau addysgol a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ffurfiol ac yn anffurfiol, heb unrhyw effaith andwyol ar allu'r Awdurdod i gyflawni ei amcanion yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. | Niwtral | Monitro parhaus drwy drefniadau adrodd ac adolygu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin i sicrhau bod y cynnig yn parhau i gefnogi'r amcanion strategol o ran addysg cyfrwng Cymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.<br><br>Defnyddio hunanwerthuso a phrosesau cynllunio gwella ysgol yn Ysgol y Dderwen i fonitro safonau'r Gymraeg, darpariaeth a defnydd anffurfiol o'r iaith, gan sicrhau bod hyn yn cyd-fynd â blaenoriaethau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a disgwyliadau'r Cod Trefniadaeth Ysgolion.<br><br>Cynnal darpariaeth cyfrwng Cymraeg Categori 3, gan sicrhau bod y | Niwtral |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Gymraeg yn parhau i fod yn brif iaith addysgu, dysgu a bywyd yr ysgol o ddydd i ddydd, yn unol â'r gofynion polisi lleol a chenedlaethol.<br><br>Parhau i gynnwys canllawiau Llywodraeth Cymru a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion drwy gydol y broses weithredu, gan ddefnyddio tystiolaeth i lywio penderfyniadau ac unrhyw gynllunio yn y dyfodol sy'n ymwneud â darpariaeth cyfrwng Cymraeg.<br><br>Cyfathrebu ac ymgysylltu dwyieithog clir â rhieni, gwarcheidwaid a rhanddeiliaid drwy gydol y broses, gan atgyfnerthu hyder mewn addysg cyfrwng Cymraeg a chefnogi dewis rhieni ar sail gwybodaeth, yn unol â'r gofynion statudol.<br><br>Darparu cymorth a monitro wedi'u targedu i ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol i sicrhau bod datblygu sgiliau Cymraeg yn cael ei gefnogi'n briodol.<br><br>Cynnig sesiynau ymgysylltu â'r Gymraeg i deuluoedd i gynyddu hyder a | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.<br><br>Gweithio mewn partneriaeth â'r Fenter Iaith, yr Urdd a darparwyr cymunedol i ymestyn y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol. | |
| **Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**<br><br>Mae'r gofyniad hwn yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (Safonau 1–83), sy'n mynnu bod yr holl wasanaethau a chyfathrebu cyhoeddus ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg i safon gyfartal. | Mae'r cynnig yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, yn unol â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, yn benodol y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (Safonau 1–83).<br><br>Bydd yr holl wasanaethau, cyfathrebu ac ymgysylltu cyhoeddus sy'n ymwneud â'r cynnig ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg i safon gyfartal, gan gynnwys deunyddiau ymgynghori a gwybodaeth i rieni a gofalwyr.<br><br>Bydd yr Awdurdod Lleol a'r ysgol yn parhau i ddarparu ymatebion yn yr iaith ddewisol ac yn weithredol o ran hybu gwelededd a defnydd y Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau. | Cadarn haol | Darparu fersiwn sy'n addas i blant o'r ddogfen ymgynghori, sy'n glir, yn hygyrch ac yn briodol i'w hoedran, gan gefnogi plant a phobl ifanc i ddeall y cynnig mewn ffordd ystyrlon.<br><br>Sicrhau bod y fersiwn sy'n addas i blant ar gael yn Gymraeg a Saesneg, gan drin y ddwy iaith yn gyfartal a chefnogi dewisiadau iaith disgyblion.<br><br>Defnyddio iaith syml, delweddau a chyd-destunau cyfarwydd i annog ymgysylltu a galluogi dysgwyr i fynegi eu barn yn hyderus.<br><br>Hwyluso cyfleoedd i ddisgyblion drafod y cynnig yn Gymraeg, gan gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg mewn prosesau cyfranogol a democrataidd.<br><br>Cynnwys adborth a gasglwyd gan blant a phobl ifanc yn y broses | Cadarnhaol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | ymgynghori, gan sicrhau bod eu barn yn cael ei hystyried. | |

**5. Safonau'r Gymraeg (Tabl 2)**

Mae'r asesiad hwn yn ystyried effaith y cynnig yn erbyn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1 2015), gan gynnwys y Safonau Llunio Polisi (88–93), y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (1–83), a'r Safonau Gweithredu (127–135).

| **Gofyniad** | **A yw'r cynnig yn effeithio ar y Safonau hyn?** | **Pa dystiolaeth sydd wedi cael ei defnyddio i gefnogi'r farn hon**? | **Effeithiau cadarnhaol/negyddol** |
|---|---|---|---|
| **Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg** | **Ydy, effaith gadarnhaol.**<br><br>Aseswyd bod y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Er bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg (Categori 3) yn cael ei chynnal, byddai trosglwyddo i Ysgol y Dderwen yn gosod y disgyblion mewn amgylchedd Cymraeg sy'n fwy ac yn fwy cynaliadwy, gan gynyddu'r cyfleoedd o ddydd i ddydd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ffurfiol wrth ddysgu ac yn anffurfiol drwy ryngweithio cymdeithasol, gweithgareddau cyfoethogi ac ymgysylltu â'r gymuned.<br><br>Mae'r amrywiaeth o gyfleoedd allgyrsiol, diwylliannol a chymunedol cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn yr ysgol sy'n derbyn yn cryfhau ymhellach y cyfleoedd i ddisgyblion a theuluoedd ddefnyddio'r | Dogfen ymgynghori Ysgol y Fro, sy'n nodi'r cynnig i drosglwyddo disgyblion i Ysgol y Dderwen, gan gadarnhau y bydd darpariaeth cyfrwng Cymraeg (Categori 3) yn cael ei chynnal ac y bydd y disgyblion yn parhau i dderbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg mewn amgylchedd ysgol cynaliadwy.<br><br>Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, sy'n nodi bod yr ysgol sy'n derbyn yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd anffurfiol, allgyrsiol, diwylliannol a chymunedol cyfrwng Cymraeg.<br><br>Tystiolaeth arolygiadau Estyn ar gyfer y ddwy ysgol, sy'n nodi bod y | **Effeithiau cadarnhaol:**<br>Mae'r cynnig yn cynyddu'r cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg drwy fynediad at grŵp cyfoedion mwy sy'n siarad Cymraeg ac amrywiaeth o weithgareddau cwricwlaidd, allgyrsiol, diwylliannol a chymunedol cyfrwng Cymraeg yn Ysgol y Dderwen.<br><br>Mae mwy o gyfranogiad yng ngweithgareddau'r Urdd, darpariaeth gyfoethogi ac ymgysylltu â'r gymuned yn darparu cyd-destunau amlach a mwy dilys ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol ac yn gymdeithasol y tu allan i'r ystafell ddosbarth, gan gefnogi hyder, |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gymraeg mewn cyd-destunau bywyd go iawn ac ystyrlon, gan gyd-fynd â bwriad Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015. | Gymraeg yn cael ei defnyddio yn brif iaith addysgu a chyfathrebu a bod y disgyblion yn datblygu sgiliau Cymraeg mewn lleoliad cyfrwng Cymraeg, gyda mwy o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio â chyfoedion a dilyniant mewn cyd-destun ysgol fwy.<br><br>Gwybodaeth am ddarpariaeth ar ôl ysgol, ddiwylliannol a chymunedol yn Ysgol y Dderwen, gan gynnwys cyfranogiad rheolaidd yng ngweithgareddau diwylliannol a chwaraeon yr Urdd, darpariaeth gerddoriaeth, ac ymgysylltu â'r gymuned y mae pob un ohonynt yn darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.<br><br>Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin 2022–2032, sy'n pwysleisio pwysigrwydd cynnal darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chynyddu’r cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol. | rhuglder ac agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith.<br><br>**Effeithiau negyddol:** Nid oes unrhyw effaith negyddol o bwys wedi'i nodi. Gellir lliniaru unrhyw heriau tymor byr posibl sy'n gysylltiedig â throsglwyddo i amgylchedd ysgol newydd drwy ymsefydlu wedi'i gynllunio, cymorth bugeiliol, a chyfathrebu clir, gan sicrhau parhad o ran defnydd a dilyniant y Gymraeg. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** | **Ydy – effaith niwtral.** Mae'r cynnig yn ymwneud â Safonau'r Gymraeg ond nid yw'n rhoi'r Gymraeg o dan anfantais o'i chymharu â'r Saesneg.<br><br>Cynhelir darpariaeth cyfrwng Cymraeg (Categori 3), ac mae'r holl wasanaethau a chyfathrebu cyhoeddus sy'n ymwneud â'r cynnig yn parhau i fod ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg i safon gyfartal, yn unol â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (1–83). | Y ddogfennaeth ymgynghori statudol ar gyfer Ysgol y Fro, sy'n cadarnhau y bydd deunyddiau ymgynghori ac ymgysylltu yn cael eu darparu'n ddwyieithog drwy gydol y broses.<br><br>Yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, sy'n nodi cydymffurfiaeth barhaus â Safonau'r Gymraeg ac y bydd addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei chynnal.<br><br>Trefniadau cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yr Awdurdod Lleol, sy'n sicrhau bod cyfathrebu, gohebiaeth ac ymatebion cyhoeddus yn cael eu darparu yn yr iaith a ddewiswyd.<br><br>Gwybodaeth am gategoreiddio iaith ysgolion, sy'n cadarnhau bod yr ysgol sy'n derbyn yn gweithredu fel ysgol cyfrwng Cymraeg Categori 3, lle mai'r Gymraeg yw'r brif iaith addysgu, dysgu a chyfathrebu. | **Effeithiau cadarnhaol:** Mae'r cynnig yn diogelu cydraddoldeb ieithyddol drwy gynnal addysg cyfrwng Cymraeg a sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, gan atgyfnerthu statws cyfartal, gwelededd ac argaeledd y Gymraeg ochr yn ochr â'r Saesneg yn yr holl wasanaethau a chyfathrebu cyhoeddus.<br><br>**Effeithiau negyddol:** Nid oes unrhyw effaith negyddol wedi'i nodi. Nid yw'r cynnig yn lleihau mynediad at wasanaethau neu gyfleoedd Cymraeg, ac nid yw'n trin y Saesneg yn fwy ffafriol na'r Gymraeg. |
| **Safonau Llunio Polisi - sylw** | **Ydy, effaith gadarnhaol.** | Y ddogfen ymgynghori statudol ar gyfer Ysgol y Fro, | **Effeithiau cadarnhaol:** Mae'r cynnig yn rhoi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **dyladwy i'r Gymraeg** | Mae'r cynnig yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Safonau Llunio Polisi (Safonau 88–93), gan ei fod yn golygu bod angen rhoi ystyriaeth benodol i'r effeithiau ar y Gymraeg.<br><br>Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg wedi'i gynnal yng ngham y cynnig, sy'n rhoi sylw dyledus i'r Gymraeg drwy nodi'r effeithiau posibl, asesu'r cyfleoedd i wella'r defnydd o'r Gymraeg, a nodi'r mesurau lliniaru lle bo hynny'n briodol. | sy'n cynnwys asesiad penodol o effaith y cynnig ar addysg cyfrwng Cymraeg a'r Gymraeg.<br><br>Yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, sy'n gwerthuso mewn modd systematig yr effeithiau ar y defnydd o'r Gymraeg, darpariaeth ac ymgysylltu â'r gymuned.<br><br>Gwybodaeth am gategoreiddio'r Gymraeg, sy'n cadarnhau bod yr ysgol sy'n cau a'r ysgol sy'n derbyn yn gweithredu fel ysgolion cyfrwng Cymraeg Categori 3.<br><br>Cyd-fynd â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin 2022-2032, sy'n darparu'r fframwaith strategol sy'n llywio'r cynnig.<br><br>Cydymffurfio â Chod Trefniadaeth Ysgolion (Cymru) Llywodraeth Cymru, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw dyledus i'r Gymraeg wrth ddatblygu cynigion ynghylch trefniadaeth ysgolion. | sylw dyledus i'r Gymraeg drwy ymwreiddio ystyriaethau ynghylch y Gymraeg drwy gydol y broses o ddatblygu polisïau, ymgynghori a gwneud penderfyniadau.<br><br>Mae'n diogelu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn nodi cyfleoedd i wella defnydd anffurfiol a chymdeithasol o'r Gymraeg, ac yn cyd-fynd ag amcanion polisi lleol a chenedlaethol o ran y Gymraeg.<br><br>**Effeithiau negyddol:** Nid oes unrhyw effaith negyddol wedi'i nodi mewn perthynas â'r Safonau Llunio Polisi.<br><br>Mae ystyried yr effeithiau ar y Gymraeg yn gynnar yn lliniaru'r risg y bydd effeithiau andwyol anfwriadol ac yn cefnogi cydymffurfiaeth â'r gofynion statudol. |
| **Safonau Cyflenwi Gwasanaethau - gwasanaethau** | **Ydy – effaith niwtral.**<br><br>Mae'r cynnig yn ymwneud â'r | Y ddogfen ymgynghori statudol ar gyfer Ysgol y Fro, | **Effeithiau cadarnhaol:** Mae'r cynnig yn cynnal |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **cyhoeddus yn Gymraeg** | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (Safonau 1–83) ond nid yw'n rhoi'r Gymraeg o dan anfantais o'i chymharu â'r Saesneg.<br><br>Bydd yr holl wasanaethau, cyfathrebu ac ymgysylltu cyhoeddus sy'n ymwneud â'r cynnig yn parhau i gael eu darparu yn y Gymraeg a'r Saesneg i safon gyfartal. | sy'n cadarnhau bod deunyddiau ymgynghori ac ymgysylltu yn cael eu darparu'n ddwyieithog ac y gall unigolion gyfathrebu a derbyn ymatebion yn eu dewis iaith.<br><br>Yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, sy'n cadarnhau cydymffurfiaeth barhaus â Safonau'r Gymraeg a threfniadau darparu gwasanaethau dwyieithog.<br><br>Fframwaith cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg Cyngor Sir Caerfyrddin, sy'n sicrhau bod yr holl wasanaethau, cyfathrebu a gwybodaeth gyhoeddus ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg i safon gyfartal.<br><br>Gwybodaeth am gategoreiddio iaith ysgolion, sy'n cadarnhau bod yr ysgol sy'n derbyn yn gweithredu fel ysgol cyfrwng Cymraeg Categori 3, lle mai'r Gymraeg yw'r brif iaith cyfathrebu. | cydymffurfiaeth lawn â'r Safonau Darparu Gwasanaethau, gan sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i fod ar gael, yn weledol a chael ei thrin yn gyfartal yn yr holl wasanaethau a chyfathrebu cyhoeddus, gan atgyfnerthu'r Gymraeg yn iaith arferol a hygyrch ar gyfer ymgysylltu.<br><br>**Effeithiau negyddol:** Nid oes unrhyw effaith negyddol wedi'i nodi. Nid yw'r cynnig yn lleihau mynediad at wasanaethau, gwybodaeth na chyfleoedd ymgysylltu yn y Gymraeg, ac nid yw'n ffafrio'r Saesneg dros y Gymraeg. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Safonau Gweithredu – defnydd mewnol o'r Gymraeg gan staff** | **Ydy – effaith niwtral.**<br><br>Mae'r cynnig yn ymwneud â'r Safonau Gweithredu (Safonau 127–135) ac ni ddisgwylir iddo gael effaith andwyol ar y defnydd mewnol o'r Gymraeg gan staff.<br><br>Mae'r ysgol sy'n derbyn, Ysgol y Dderwen, yn gweithredu fel ysgol cyfrwng Cymraeg Categori 3, lle mai'r Gymraeg yw'r brif iaith cyfathrebu proffesiynol, gan gefnogi cydymffurfiaeth â'r Safonau Gweithredu a chynnig cyfle i gryfhau'r defnydd mewnol o'r Gymraeg o ddydd i ddydd. | Categoreiddio iaith ysgolion ac arferion gweithredu, gan gadarnhau bod Ysgol y Dderwen yn ysgol cyfrwng Cymraeg Categori 3, lle mai'r Gymraeg yw'r brif iaith addysgu, dysgu a chyfathrebu mewnol.<br><br>Yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, sy'n nodi gweithrediad parhaus drwy gyfrwng y Gymraeg a defnydd mewnol o'r Gymraeg yn yr ysgol sy'n derbyn.<br><br>Trefniadau cydymffurfio'r Awdurdod Lleol o ran y gweithlu a'r Gymraeg, sy'n cefnogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu'n fewnol a datblygu'r Gymraeg lle bo angen. | **Effeithiau cadarnhaol:**<br>Bydd y staff yn gweithio mewn amgylchedd cyfrwng Cymraeg sy'n normaleiddio ac yn atgyfnerthu'r defnydd mewnol o'r Gymraeg ar draws cyfathrebu proffesiynol, cydweithio a bywyd ysgol, gyda mynediad at gymorth ehangach gan gyfoedion ac arferion Cymraeg sefydledig.<br><br>**Effeithiau negyddol:**<br>Nid oes unrhyw effaith negyddol o bwys wedi'i nodi.<br><br>Gellir lliniaru unrhyw addasiad tymor byr sy'n gysylltiedig â staffio neu drosglwyddo drwy drefniadau cymorth presennol a datblygiad proffesiynol parhaus. |

## 6. Cyd-destun Ieithyddol Cymunedol

Mae data Cyfrifiad 2021 yn dangos dirywiad ehangach mewn gallu o ran y Gymraeg ar draws Sir Gaerfyrddin. Felly, mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi trosglwyddiad iaith. Mae'r cynnig yn cynnal darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn lleol ac yn cefnogi gwydnwch y Gymraeg drwy ddarpariaeth gyfunol yn Ysgol y Dderwen.

### Proffil Ieithyddol Llangyndeyrn, tref Caerfyrddin a'r ardaloedd cyfagos

Mae tref Caerfyrddin ac ardal Llangyndeyrn mewn cyd-destun trefol a gwledig cymysg yn Sir Gaerfyrddin ac, yn unol â phatrymau ehangach ledled y sir a nodwyd yn nata Cyfrifiad 2021, maent wedi profi dirywiad mewn gallu o ran y Gymraeg yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig ymhlith plant a phobl ifanc.

Er bod Sir Gaerfyrddin yn ei chyfanrwydd yn cynnal treftadaeth ieithyddol Gymraeg gref, mae amrywiadau rhwng cymunedau. Mewn canolfannau trefol, fel tref Caerfyrddin, fel arfer gwelir cyfrannau is o siaradwyr Cymraeg na'r ardaloedd gwledig cyfagos, sy'n adlewyrchu newid demograffig, symudedd y boblogaeth, a dylanwad amgylcheddau cymdeithasol ac economaidd lle mae'r Saesneg yn gryfach. Mewn cyferbyniad, mae ardaloedd fel Llangyndeyrn yn parhau i ddangos defnydd cymharol gryfach o'r Gymraeg, er bod y cymunedau hyn hefyd yn wynebu pwysau ieithyddol cynyddol.

Ar draws tref Caerfyrddin a Llangyndeyrn, ni ellir tybio bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n gyson yn y cartref a'r gymuned ar draws pob teulu. Mae ffactorau fel mewnfudo, datblygu tai, a phatrymau cyflogaeth sy'n newid wedi cyfrannu at boblogaeth fwy amrywiol yn ieithyddol, gan gynyddu pwysigrwydd cyfleoedd strwythuredig o ran caffael y Gymraeg, hyder a defnydd pob dydd. O ganlyniad, mae ysgolion yn chwarae rhan hanfodol yn amgylcheddau sefydlog lle gellir profi, datblygu a normaleiddio'r Gymraeg i blant, waeth beth fo'u cefndir o ran iaith y cartref.

Yn y cyd-destun hwn, mae gan ysgolion cyfrwng Cymraeg swyddogaeth hanfodol wrth gynnal y Gymraeg yn iaith fyw. Mae darparu addysg cyfrwng Cymraeg o safon uchel mewn ysgolion hyfyw sydd â digon o adnoddau yn cefnogi disgyblion i ddatblygu sgiliau iaith cryf ac agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg. Mae mynediad at grwpiau cyfoedion ehangach, cyfleoedd cwricwlaidd ac allgyrsiol cyfoethog, ac ymgysylltu ystyrlon â'r gymuned yn cryfhau'r tebygolrwydd y bydd y Gymraeg yn cael ei defnyddio y tu hwnt i wersi ffurfiol ac y bydd wedi'i hymwreiddio ym mywydau cymdeithasol a diwylliannol disgyblion.

Mae dadansoddiad o ddata Cyfrifiad 2021 ar draws Sir Gaerfyrddin yn dangos amrywiaeth amlwg o ran gallu yn y Gymraeg rhwng cymunedau, gydag ardaloedd gwledig fel Llangyndeyrn yn gyffredinol yn cofnodi lefelau uwch o siaradwyr Cymraeg na lleoliadau mwy trefol fel tref Caerfyrddin. Fodd bynnag, gall cymunedau trefol a gwledig fod mewn sefyllfa ieithyddol fregus. Mae hyn yn pwysleisio'r angen am ddarpariaeth addysgol gynaliadwy a blaengar a all gefnogi datblygiad a defnydd y Gymraeg yn gyson ar draws y cenedlaethau.

Gyda'i gilydd, mae'r dystiolaeth hon yn dangos bod yr amgylchedd ieithyddol yn nhref Caerfyrddin a Llangyndeyrn, ac yn yr ardaloedd cyfagos, yn golygu bod angen cymorth parhaus a rhagweithiol i gynnal a chryfhau'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Felly, mae gan y cynnig rôl allweddol wrth atgyfnerthu'r Gymraeg yn iaith fyw, drwy addysg, cefnogi teuluoedd, a chyfrannu at wydnwch hirdymor y Gymraeg mewn cymunedau trefol a gwledig, yn unol ag amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin ac uchelgais cenedlaethol Cymraeg 2050.

### 7. Risgiau a Mesurau Lliniaru

| Risg | Lliniaru |
|---|---|
| **Lleihad tymor byr yn y defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith disgyblion yn ystod y cyfnod trosglwyddo** | Trefniadau trosglwyddo wedi'u cynllunio, gan gynnwys ymweliadau ymsefydlu, gweithgareddau ar y cyd, a chymorth gan gyfoedion, i helpu disgyblion Ysgol y Fro i fagu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg o fewn cymuned ysgol fwy. Disgwyliadau clir ynghylch y defnydd o'r Gymraeg wedi'u hymwreiddio mewn arferion dyddiol yn Ysgol y Dderwen a'u cefnogi drwy ofal bugeiliol yn ystod y cyfnod trosglwyddo. |
| **Amharu ar hyder disgyblion wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol wrth drosglwyddo o ysgol wledig i ysgol fwy yn y dref** | Pwyslais parhaus ar y Gymraeg fel prif iaith cyfathrebu yn Ysgol y Dderwen, a'r staff yn modelu Cymraeg o safon uchel yn gyson ac yn annog cyfranogiad cynhwysol mewn gweithgareddau dosbarth a chymdeithasol. |
| **Colli rhai gweithgareddau cymunedol cyfrwng Cymraeg lleol a oedd yn troi o amgylch Ysgol y Fro yn flaenorol** | Ymgysylltu â lleoliadau cymunedol, sefydliadau a grwpiau ffydd yn ardal Llangyndeyrn lle bo'n ymarferol, ynghyd â chyfathrebu clir i gefnogi teuluoedd i gynnal cyfranogiad cymunedol drwy ddarpariaeth leol amgen a chyfleoedd ehangach sy'n gysylltiedig ag Ysgol y Dderwen. |
| **Y Gymraeg yn llai amlwg yng nghymuned Llangyndeyrn ar ôl cau'r ysgol leol** | Atgyfnerthu bod addysg cyfrwng Cymraeg (Categori 3) yn cael ei chynnal a'i chryfhau drwy fynediad at ysgol cyfrwng Cymraeg gynaliadwy yng Nghaerfyrddin, gan gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg mewn addysg, gweithgareddau cyfoethogi ac wrth ymgysylltu â'r gymuned.<br><br>Mwy o weithio mewn partneriaeth gyda'r Fenter Iaith, yr Urdd a darparwyr Cymraeg lleol eraill. |
| **Ymgysylltu amrywiol gan rieni a gofalwyr â gweithgareddau cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol a'r gymuned ar ôl trosglwyddo i ysgol yn y dref** | Cyfathrebu dwyieithog clir a hygyrch sy'n amlinellu'r cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu gan rieni, gwirfoddoli a chyfranogi mewn digwyddiadau, gweithgareddau a phartneriaethau cyfrwng Cymraeg yn Ysgol y Dderwen, gan gefnogi cyfranogiad parhaus a hyder ymhlith teuluoedd. |

| | |
|---|---|
| **Cyfranogiad anghyson mewn gweithgareddau ar ôl ysgol, diwylliannol neu gyfoethogi cyfrwng Cymraeg** | Cefnogi'r broses o ymsefydlu mewn clybiau ar ôl ysgol, gweithgareddau'r Urdd, digwyddiadau diwylliannol, a darpariaeth gyfoethogi, gydag anogaeth ac arweiniad gan staff a chyfoedion i sicrhau bod gweithgareddau yn gynhwysol, yn hygyrch ac yn briodol i ddisgyblion sy'n trosglwyddo o gyd-destun ysgol wledig lai. |
| **Canfyddiad y gallai cau ysgol cyfrwng Cymraeg wledig a throsglwyddo'r disgyblion i ysgol yn y dref wanhau trosglwyddiad y Gymraeg yn lleol** | Cyfathrebu tryloyw â rhanddeiliaid yn esbonio sut y bydd addysg cyfrwng Cymraeg, cyfranogiad diwylliannol, a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn cael eu cynnal a'u gwella drwy fynediad at grŵp cyfoedion ehangach, darpariaeth gyfoethogi gryfach, ac ethos cyfrwng Cymraeg parhaus yn yr ysgol sy'n derbyn. |
| **Pwysau posibl ar staff i gefnogi parhad darpariaeth Gymraeg a llesiant disgyblion yn ystod y cyfnod trosglwyddo** | Defnyddio prosesau ffurfiol i gynllunio'r broses drosglwyddo, cydweithio rhwng staff Ysgol y Fro ac Ysgol y Dderwen, a mynediad at gymorth gan yr Awdurdod Lleol lle bo angen, ynghyd â monitro llesiant disgyblion a'u dilyniant o ran y Gymraeg. |
| **Llai o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau yng nghymuned Llangyndeyrn** | Annog ymgysylltu parhaus â digwyddiadau cymunedol, gweithgareddau sy'n seiliedig ar ffydd, a mentrau lleol yn ardal Llangyndeyrn sy'n darparu cyfleoedd Cymraeg sy'n pontio'r cenedlaethau, ynghyd â hyrwyddo cyfranogiad mewn digwyddiadau cymunedol a diwylliannol ehangach sy'n gysylltiedig ag Ysgol y Dderwen.<br><br>Mwy o gysylltiadau â'r Fenter Iaith, yr Urdd a darparwyr lleol eraill. |
| **Colli pwyntiau cyswllt Cymraeg anffurfiol a oedd yn gysylltiedig â adeilad ffisegol Ysgol y Fro yn flaenorol** | Cefnogaeth i barhau i ddefnyddio lleoliadau cymunedol amgen a mannau a rennir yn ardal Llangyndeyrn ar gyfer gweithgareddau cyfrwng Cymraeg, lle bo hynny'n briodol, gan leihau dibyniaeth ar safle'r hen ysgol yn unig. |
| **Risg y bydd y defnydd o'r Gymraeg wedi'i ganoli yn yr ysgol yn hytrach nag ymestyn i'r gymuned ehangach** | Cryfhau cysylltiadau rhwng Ysgol y Dderwen a sefydliadau cymunedol, darpariaeth y blynyddoedd cynnar, grwpiau diwylliannol, a phartneriaid Cymraeg i ymestyn y defnydd o'r Gymraeg y tu hwnt i amgylchedd yr ysgol, gan gynnwys mwy o weithio mewn partneriaeth gyda'r Fenter Iaith a'r Urdd. |

## 8. Monitro a Gwerthuso

Bydd y camau lliniaru a nodir yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn cael eu monitro drwy brosesau gwella sefydledig yr Awdurdod Lleol a'r ysgol, ac adborth o'r ymgynghoriad, a gwneir addasiadau lle bo angen i sicrhau'r effaith gadarnhaol fwyaf posibl ar y Gymraeg.

Bydd gwaith monitro parhaus yn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â Safonau'r Gymraeg, gan gynnwys y Safonau Llunio Polisi (88–93), y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (1–83) a'r Safonau Gweithredu (127–135) y mae'n rhaid i'r Awdurdod lleol eu bodloni.

## 9. Dulliau gwella parhaus

Mae'r cynnig hwn yn dangos sylw dyladwy clir i God Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru a Safonau'r Gymraeg, a bydd yr Awdurdod lleol yn monitro deilliannau o ran y Gymraeg drwy gydol y broses dylunio, adeiladu a gweithredu, gan adolygu tystiolaeth yn flynyddol a mireinio camau gweithredu fel bod y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo'n gyson ac nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

## 10. Casgliad a Chrynodeb

Mae'r cynnig i gau Ysgol y Fro a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol y Dderwen wedi cael ei asesu o ran ei effeithiau ar y Gymraeg. Bydd darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei chynnal, a bydd cyfleoedd i gefnogi a chryfhau'r defnydd o'r Gymraeg drwy fesurau lliniaru effeithiol. Mae'r cynnig yn cyd-fynd â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin ac uchelgeisiau Cymraeg 2050, drwy ddiogelu mynediad at addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn cefnogi datblygiad parhaus sgiliau Cymraeg ymhlith plant a phobl ifanc.

**Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn cael ei adolygu yng nghamau allweddol y broses statudol, gan gynnwys ar ôl yr ymgynghoriad a chyn gwneud penderfyniad, i sicrhau bod unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg neu adborth yn cael eu hystyried yn llawn.**